


RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 81/2016

DYDDIAD CYHOEDDI: 14/12/2016

Gwerthusiad o Gymunedau Digidol Cymru – Prif Adroddiad



Gwerthusiad o Gymunedau Digidol Cymru

Awdur: Huw Bryer, Ymchwil OB3 Research

Dilysiad ansawdd gan: Heledd Bebb, Ymchwil OB3 Research



Bryer, H; (2016) Gwerthusiad o Gymunedau Digidol Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Rhif yr adroddiad YGLI 81/2016.

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-digital-communities-wales/?lang=cy>

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: semele.mylona@wales.gsi.gov.uk

Tabl cynnwys

Rhestr o acronymau.....	2
1. Cyflwyniad.....	3
2. Methodoleg	5
3. Y cyd-destun polisi	8
4. Dyluniad a sail resymegol rhaglen CDC.....	16
5. Y strwythur cyflawni.....	26
6. Rhoi CDC ar waith.....	28
7. Perfformiad CDC hyd yn hyn.....	51
8. Deilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg	58
9. Cysylltiadau â Mentrau eraill yng Nghymru a'r DU	69
10. Y Dyfodol.....	73
11. Casgliadau ac Argymhellion.....	75

Rhestr o dablau

Tabl 1: Trosolwg o'r Perfformiad hyd yn hyn.....	52
Tabl 1: Categoriadau Canolfan Cydweithredol Cymru fesul Sir	54
Tabl 3: Trosolwg o Wariant y Rhaglen	55
Tabl 4: Dadansoddiad o'r Gost fesul Uned	56

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Cyfraddau defnydd y rhwyngwyd yng Nghymru 2010-2016.....	13
Ffigur 2: Model Rhesymeg Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru	22

Atodiad A: Rhestr o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw

Atodiad B: Offerynnau ymchwil

Rhestr o acronymau

Acronym/ Gair allweddol	Diffiniad
Ap	Meddalwedd symudol a ddyluniwyd i redeg ar ffonau clyfar a dyfeisiau symudol eraill
BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
BT	British Telecom
CETMA	Ymgysylltu â'r Gymuned, Technoleg, y Cyfryngau a'r Celfyddydau
CHC	Cartrefi Cymunedol Cymru
CGS	Cynghorau Gwirfoddol Sirol
DCMS	Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
CDC	Cymunedau Digidol Cymru
DIEIP	Cynllun Gwella Ymgysylltiad trwy Gynhwysiant Digidol
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
ECDL	Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd
e-iechyd	Term cymharol ddiweddar am arfer gofal iechyd a gynorthwyir gan brosesau electronig a chyfathrebu
FTE	Cyfateb ag Amser Llawn
Go On UK	Elusen cynhwysiant digidol gofrestredig a elwir yn 'Doteveryone' erbyn hyn
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
TG	Technoleg Gwybodaeth
JCP	Canolfan Byd Gwaith
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Ofcom	Y Swyddfa Cyfathrebu
RNIB	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Bobl Ddall
SCLC	Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru
Teledu Clyfar	Set deledu â'r rhyngwrdd yn integredig ynddo
Cyflymu Cymru	Rhaglen i ganiatáu i'r mwyafrif o gartrefi a busnesau Cymru gyrchu band eang cyflym
Y DU	Y Deyrnas Unedig
Credyd Cynhwysol	Budd-dal lles a gyflwynwyd yn y Deyrnas Unedig yn 2013 i gymryd lle chwe budd-dal yn seiliedig ar brawf moddion a chredydau treth
Universal JobMatch	Gwefan Llywodraeth y DU i helpu pobl i ddod o hyd i swyddi
V2C	Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WERU	Yr Uned Ymchwil i Economi Cymru
WhatsApp	Client negesu gwib perchnogol a thraws-blattform ar gyfer ffonau clyfar
Wi-Fi	Technoleg sy'n caniatáu i ddyfeisiau electronig gysylltu â'r rhyngwrdd trwy ddulliau di-wifr

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Mai 2016, penododd Llywodraeth Cymru OB3 (Old Bell 3 Ltd) i gyflawni gwerthusiad o'i menter cynhwysiant digidol, Cymunedau Digidol Cymru (CDC).
- 1.2 Rhaglen Llywodraeth Cymru yw CDC. Mae'n cael ei chyflawni trwy gcontract a ddyfarnwyd i Ganolfan Cydweithredol Cymru yn dilyn proses gaffael agored. Mae'n adeiladu ar ddwy fenter cynhwysiant digidol blaenorol, sef Cymunedau@EiGilydd a Chymunedau 2.0.
- 1.3 Bwriedir i'r rhaglen CDC gydategu amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yng Nghymru er mwyn cwtdogi ar allgau digidol, a helpu i gyflawni'r amcanion polisi a bennwyd yn Fframwaith a Chynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru.
- 1.4 Mae'r contract cyflawni a ddyfarnwyd i Ganolfan Cydweithredol Cymru'n rhedeg o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2017, ac mae yna opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd bellach. Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhaglenni a'i rhagflaenodd, mae CDC yn mabwysiadu dull mwy anuniongyrchol o fynd ati i ddelio ag effeithiau allgau digidol, a hwyluso a chydlynu gweithgarwch cynhwysiant digidol yw ffocws y rhaglen. Ei bwriad felly yw gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn gweithio gyda phobl sydd wedi eu hallgau'n ddigidol (fel awdurdodau lleol, Canolfannau Byd Gwaith, cymdeithasau tai ac amryw o sefydliadau'r trydydd sector) er mwyn annog a chynorthwyo pobl i ddefnyddio'r technolegau diweddaraf mewn ffyrdd sydd o fantais iddynt.

Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

- 1.5 Nod y gwerthusiad hwn oedd canfod effeithiau'r CDC sy'n dechrau dod i'r amlwg, gan gynnwys ffurf strwythurol y rhaglen a'i harferion gweithredol, yn ogystal â'i heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol.¹
- 1.6 Yn benodol, roedd manyleb y gwerthusiad yn pennu'r angen i ymchwilio i'r canlynol:
 - Sut y sefydlwyd y rhaglen
 - Sut y mae unigolion sy'n cael eu hallgau yn ddigidol yn cael eu clustnodi
 - Sut y mae'r rhaglen yn perfformio yn erbyn ei thargedau/amcanion

¹ Manyleb Gwerthuso CDC. Tudalen 5.

- A ddatblygwyd partneriaethau cadarn yn ôl y bwriad
- Effeithiolrwydd y cymorth a'r hyfforddiant a ddarperir
- A allai unrhyw newidiadau i'r strwythur (neu yn rhywle arall) wella'r allbwn
- A yw'r rhaglen yn llwyddo i sicrhau cydlyniant effeithiol â meysydd cysylltiedig eraill o weithgareddau digidol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- A yw'r rhaglen yn dylanwadu ar raglenni Cynhwysiant Digidol y DU a allai fod o fudd i Gymru².

² Ibid.

2. Methodoleg

2.1 Roedd methodoleg y gwerthusiad yn cynnwys y camau canlynol:

Cam 1 - Cychwyn a Phennu'r Cwmpas

2.2 Roedd y cam cychwynnol yn cynnwys derbyn a chatalogio gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, a chynnal nifer o gyfarfodydd cychwynnol gyda swyddogion Canolfan Cydweithredol Cymru er mwyn pennu cwmpas y gwerthusiad a thrafod y dulliau methodolegol yn fanylach.

Cam 2 - Adolygu'r Deunyddiau

2.3 Roedd cyfnod y gwaith desg yn cynnwys cyflawni adolygiad cynhwysfawr o'r deunyddiau ysgrifenedig, gan gynnwys dogfennau polisi allweddol, dogfennaeth y rhaglenni, a gwybodaeth am ddyluniad a chyflawniad CDC, yn ogystal â llunio esboniad o'r theori o ran y newid ar ffurf Model Rhesymeg y Rhaglen.

Cam 3 - Datblygu Offerynnau Ymchwil a Sampl

2.4 Datblygwyd strategaeth sampl er mwyn dethol sampl cynrychiadol o sefydliadau partner CDC at ddibenion cyflawni gwaith maes ansoddol. Y bwriad oedd dethol sampl o 50 o sefydliadau partner CDC (gan ofyn i 30 ohonynt gymryd rhan ar ffurf ymweliad manwl, ac ymgynghori ag 20 ohonynt trwy gynnal cyfweiliadau dros y ffôn). Seiliwyd y strategaeth sampl ar bedwar maen prawf, sef:

- Gwasgariad daearyddol
- Dwyster yr ymyrraeth - er mwyn adlewyrchu cymysgedd priodol o sefydliadau sydd wedi cael gwahanol lefelau o gymorth o wahanol ddwyster.
- Math o sefydliad
- Natur y cymorth a gafwyd.

2.5 Bu cymhwyso'r pedwar maen prawf sampl yn ôl y bwriad yn dipyn o her. Fodd bynnag, roedd y sampl terfynol o 50 o sefydliadau partner yn cynrychioli'n fras y sefydliadau partner yr oedd y rhaglen wedi eu cynorthwyo.

2.6 Ni fabwysiadwyd strategaeth sampl wrth ddewis buddiolwyr i gyfweld â nhw o blith defnyddwyr y gwasanaethau - yn hytrach, y disgwyl oedd y byddai'r sefydliadau partner yn hwyluso mynediad at ddefnyddwyr a oedd wedi manteisio ar y

gwasanaethau yn ystod yr ymweliadau manwl, gydag opsiwn i gynnal cyfweiliadau dilynol wedyn os na lwyddwyd i gyflawni nifer gofynnol y cyfweiliadau (120 i gyd).

2.7 Datblygwyd canllawiau trafod lled-strwythuredig (sydd i'w gweld yn Atodiad B) i fwydo'r cyfweiliadau gyda:

- Swyddogion Llywodraeth Cymru sydd ynghlwm wrth ddylunio a goruchwyllo gweithrediad CDC
- Yr unigolion allweddol sydd ynghlwm wrth fonitro a chyflawni'r rhaglen yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru
- Rhanddeiliaid allweddol eraill fel aelodau Bwrdd y Rhaglen Cynhwysiant Digidol a sefydliadau eraill y trydydd sector (e.e. Dinasyddion Ar-lein, yr RNIB ac ati)
- Cynrychiolwyr sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n cael eu hallgau'n ddigidol ac sydd wedi cael cymorth gan CDC
- Defnyddwyr/buddiolwyr gwasanaethau sydd wedi ymgysylltu â darpariaeth cynhwysiant digidol y sefydliadau hyn.

Cam 5 - Gwaith Maes

2.8 Cyflawnwyd rhaglen o waith maes ansoddol a oedd yn cynnwys cyflawni cyfweiliadau lled-strwythuredig â phedwar o swyddogion Llywodraeth Cymru, 11 aelod o staff a fu ynghlwm wrth reoli a chyflawni rhaglen CDC yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru, a saith rhanddeiliad allweddol arall, gan gynnwys aelodau Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Cymru.

2.9 Roedd y gwaith maes yn cynnwys cynnal cyfweiliadau â sampl o 50 o sefydliadau partner, 30 ohonynt wyneb yn wyneb gyda 'sefydliadau a gynorthwywyd' ³ ar ffurf ymweliadau ardal, ac 20 ohonynt dros y ffôn.

2.10 Yn ogystal, roedd y gwaith maes yn gofyn am gasglu adborth gan fuddiolwyr unigol o blith defnyddwyr y gwasanaethau. Cyflawnwyd 33 o gyfweiliadau â chymysgedd o wirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau ar draws 11 o'r 30 o sefydliadau partner yr ymwelwyd â nhw, naill ai yn ystod yr ymweliadau, neu ar ffurf cyfweiliadau dilynol dros y ffôn. Yn achos un o'r sefydliadau partner, ystyriwyd tystiolaeth fideo a hunanwerthuso ar gyfer 128 o ddefnyddwyr gwasanaethau.

³ Sefydliadau a gafodd gymorth mwy dwys gan CDC.

Sialensiau methodolegol a'r diwygiadau a wnaed i'r rhaglen waith yn eu sgil

- 2.11 Tynnwyd sylw at yr her o gyflawni gwaith maes gyda buddiolwyr unigol a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn anuniongyrchol yn y gofrestr risg ar gyfer y gwerthusiad, a thrafodwyd y peth gyda grŵp llywio'r gwerthusiad.
- 2.12 Er mwyn ymchwilio pa mor berthnasol a defnyddiol oedd y wybodaeth a'r sgiliau a gafwyd trwy weithgarwch hyfforddi CDC a chydategu sail y dystiolaeth, cyflawnodd y tîm gwerthuso:
- Arsylwadau ar sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru
 - Arolwg ar y we o'r bobl a gymerodd rhan yn hyfforddiant CDC.
- 2.13 Roedd y gwaith arsylwi'n cynnwys:
- Sesiwn hyfforddiant undydd ar 'Gynorthwyo Pobl i Fynd Ar-lein' ar gyfer Cyngor Sir Fynwy ar 8 Gorffennaf 2016. Bu deg o swyddogion o wahanol adrannau'r Cyngor yn bresennol ar gyfer y sesiwn
 - Sesiwn hyfforddiant 'Chwilio am Swyddi' hanner diwrnod o hyd ar gyfer staff Gwasanaeth Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot ar 19 Hydref 2016. Mynychodd deg o swyddogion yr hyfforddiant
 - Gweminar awr o hyd ar yr 'Ôl Troed Digidol' ar 21 Hydref 2016.
- 2.14 Yn rhan o arolwg y we, aseswyd cronfa ddata o 789 o gofnodion am unigolion a oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant CDC gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru. Nodwyd bod 580 o'r cyfeiriadau e-bost hyn yn ddilys, a defnyddiwyd y rhain i ddosbarthu dolen i'r arolwg ar 10 Hydref 2016. Caeodd arolwg y we ar 31 Hydref 2016 a denodd 111 o ymatebion (cyfradd ymateb o 19%).

3. Y cyd-destun polisi

- 3.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried y cyd-destun polisi, o bersbectif hanesyddol yn nhermau bwydo dyluniad CDC, ac o ran datblygiadau mwy diweddar ers rhoi'r rhaglen ar waith.

Y persbectif polisi hanesyddol

- 3.2 Dangosodd y gwerthusiad o Gymunedau 2.0 (y rhaglen a ragflaenodd CDC) bod cynhwysiant digidol wedi bod yn uchel ar agenda'r Llywodraeth ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop ers nifer o flynyddoedd (a'i fod yn dal i fod yn flaenoriaeth). Mae'n debyg nad yw amodau economaidd ehangach 'i'w gweld wedi effeithio dim' ar ei amlygrwydd yn hynny o beth.
- 3.3 Yn nhermau bwydo dyluniad a datblygiad CDC (ac felly model rhesymeg gysylltiedig y rhaglen a bennir yn yr adroddiad hwn), Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol (Diweddariad)⁴ Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2014, a bennodd y polisi a'r cyd-destun strategol yn hyn o beth. Roedd yn pennu'r nod gyffredinol o gyflawni 'cymdeithas ddigidol gynhwysol a chynaliadwy' lle bo dinasyddion yn cael eu hymbweru i 'fanteisio ar dechnolegau digidol er mwyn cyfoethogi ansawdd eu bywydau'⁵.
- 3.4 Y deilliant a bennwyd yn y Diweddariad o'r Cynllun Cyflawni ym Mehefin 2014 oedd 'sicrhau bod gan bob dinesydd fynediad fforddiadwy, cymorth a'r sgiliau cywir i elwa ar fanteision bod ar-lein'. Cafodd hyn ei ategu gan gyfres o 17 o amcanion mwy penodol.

Polisi Cynhwysiant Digidol y DU

- 3.5 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Strategaeth Cynhwysiant Digidol ym mis Gorffennaf 2014. Cynigiodd y strategaeth hon ddull cynhwysfawr o fynd ati i wireddu cynhwysiant digidol, gyda ffocws ar ddinasyddion a sefydliadau⁶. Cafodd hyn ei

⁴ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014) Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol - Diweddariad 2014. Y dull strategol o fynd ati i sicrhau cynhwysiant digidol. Diweddariad I Cyflawni Cymru Ddigidol (2010) a Chymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni (2011) oedd hwn i bob prwpas.

⁵ Ibid. Tudalen 10.

⁶ Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/publications/government-digital-inclusion-strategy/government-digital-inclusion-strategy>

gynnwys yn adolygiad polisi'r gwerthusiad adolygol o Gymunedau 2.0. Ymhlith y prif bwyntiau roedd:

- Ymrwymiad i gwtogi ar allgau digidol i naw y cant o'r boblogaeth o oedolion erbyn 2020, a hynny wrth gydnabod y byddai'r cyfraddau o ran cynhwysiant digidol yn dod yn fwy ymestynnol am na fydd rhai pobl byth am gyrchu'r rhyngwrdd
- Rhestr gyfeirio ar gyfer cynhwysiant digidol a oedd yn cynnwys chwe phwynt allweddol o gylch sicrhau bod y ffocws ar anghenion y defnyddwyr, gwella mynediad, cymell pobl, helpu pobl i gadw'n ddiogel ar-lein, cydweithio a chanolbwyntio ar ganlyniadau ehangach (e.e. pobl yn dod yn hyderus ar-lein yn annibynnol).

Datblygiadau Polisi Diweddar yng Nghymru

Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru

- 3.6 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru⁷ ym mis Mawrth 2016, tua blwyddyn ar ôl cychwyn rhaglen CDC.
- 3.7 Yn ei rhagair i'r fframwaith, cydnabu'r cyn-Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, er y cymerwyd '*camau breision ymlaen*' mewn perthynas â chynhwysiant digidol, bod yna '*ffordd bell i fynd o hyd*'.
- 3.8 I bob pwrpas, mae'r fframwaith diwygiedig yn cyfuno'r Fframwaith Cynhwysiant Digidol gwreiddiol (2011) a'r Cynllun Cyflawni (2014) yn un polisi, ac yn pennu'r weledigaeth gyffredinol i 'sicrhau bod pawb sydd am fynd ar-lein yn cael mynd ar-lein, gan amddiffyn eu hunain a'u ffrindiau a'u teuluoedd ar-lein, a gwneud mwy ar-lein er mwyn manteisio'n llwyr ar y cyfleoedd y mae'r rhyngwrdd a thechnolegau digidol eraill yn eu cynnig⁸.
- 3.9 Mae'r Fframwaith Strategol newydd yn nodi'n glir, er y bu llawer o alluogwyr lefel macro sy'n gwneud technoleg yn fwy hygyrch (e.e. offer rhatach a band eang cyflymach), 'mae rhwystrau'n dal i fodoli i niferoedd sylweddol o bobl, sy'n eu hatal rhag cyfranogi yn y byd digidol'⁹.

⁷ Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru, Mawrth 2016.

⁸ Ibid. Tudalen 9

⁹ Ibid. Tudalen 7.

3.10 Yn benodol, mae'r fframwaith yn nodi nad yw grymoedd y farchnad eu hunain 'wedi gallu goresgyn y tri phrif rwystr, sef cymhelliant, sgiliau a mynediad' tra bod 'diffyg hyder' yn 'ffactor arwyddocaol' hefyd.

3.11 Mae'r Fframwaith yn amcangyfrif bod tua 474,000 o bobl (sydd gyfwerth â thua 19 y cant o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru) yn cael eu hallgau'n ddigidol, ac mae'n gwneud ymrwymiad clir y bydd Llywodraeth Cymru'n helpu i 'ddileu'r rhwystrau' i'r bobl hyn. Mae nifer o'r amcanion a bennir yn y Fframwaith yn uniongyrchol berthnasol i CDC, ac maent yn cyd-fynd â manyleb y rhaglen a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae Fframwaith Strategol 2016 yn pennu'r angen am:

- Dynnu ynghyd amrywiaeth eang o wahanol randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i alinio'u cynlluniau a chydlyn eu gweithgarwch er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl ar gyfer dinasyddion.
- Cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i godi proffil cynhwysiant digidol ar draws y gymdeithas i gyd, a'i gwneud yn haws rhoi dulliau creadigol o fynd ati i gael pobl ar-lein ar waith.
- Sefydlu cynhwysiant digidol fel rhan annatod o bolisiau, rhaglenni a gwasanaethau
- Darparu gwell cymorth ar gyfer y mentrau a'r sefydliadau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth
- Gwellu'r trefniadau ar gyfer cydweithio rhwng pobl, byd busnes, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus
- Gweithio gyda rhaglenni cynhwysiant digidol DU-eang er mwyn sicrhau bod Cymru, a'i phobl yn elwa ar y gweithgareddau hyn¹⁰.

Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru

3.12 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Iechyd a Gofal Gwybodus: Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru Roedd hyn yn pennu'r weledigaeth y 'bydd pobl yn medru edrych ar ôl eu lles eu hunain a chysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy effeithlon ac effeithiol, gyda

¹⁰ Ibid. Tudalen 08.

mynediad ar-lein at wybodaeth a'u cofnodion nhw eu hunain; cynnal amrywiaeth o drafodaethau iechyd yn uniongyrchol gan ddefnyddio technoleg, a defnyddio offer digidol ac apiau i fod o gymorth i ofalu amdanynt eu hunain, monitro eu hiechyd a dal i fyw yn annibynnol'¹¹.

Y cyhoeddiad am ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben

- 3.13 Yn ystod Cyfarfod Llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Hydref 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant ei fod 'yn bwriadu dirwyn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben wrth sefydlu dull newydd o fynd ati i ddiwallu sialensiau'r dyfodol'¹².
- 3.14 Roedd y gwaith ymchwil sylfaenol ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi cael ei gwblhau cyn y cyhoeddiad, sy'n golygu na fu modd edrych ar oblygiadau posibl diddymu Cymunedau yn Gyntaf ar weithrediad Rhaglen CDC, nac ar y gweithgarwch ehangach o ran cynhwysiant digidol yn rhai o gymunedau difreintiedig Cymru. Fodd bynnag, wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n debygol y bydd angen ystyried hyn mewn perthynas â chyflawni CDC.

Symud Cymru Ymlaen

- 3.15 Ar 20 Medi 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sef 'Symud Cymru Ymlaen'¹³. Yng nghyd-destun cynhwysiant a chysylltedd digidol, mae'n pennu ymrwymadau i:
- Rhoi blaenoriaeth i ysgolion o ran cael mynediad at fand eang cyflym iawn
 - Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cymhwysedd Digidol mewn ysgolion, a datblygu sgiliau codio ymhlith pobl ifanc¹⁴
 - 'Digidol yn gyntaf' wrth gyflawni gwasanaethau'r llywodraeth
 - Cynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru
 - Erbyn 2021, ceisio helpu 95% o bobl i gael o leiaf y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer yr 21ain ganrif¹⁵.

¹¹ Iechyd a Gofal: Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru Llywodraeth Cymru. Tudalen 6.

¹² Ffynhonnell: gwefan Newyddion y BBC. Gweler: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-37617559>

¹³ Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

¹⁴ Ibid. Tudalen 10.

Mynediad i'r rhyngrwyd a'i ddefnydd yng Nghymru


Adroddiad Marchnad Cyfathrebu Ofcom 2016

- 3.16 Yn ogystal â'r cyd-destun polisi, mae hi'n bwysig ystyried yr angen sydd wrth wraidd ymateb polisi fel CDC. Mae Ffigur 1 yn gosod y cyd-destun o ran y canran o aelwydydd yng Nghymru sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, gan ddangos bod y gyfran o aelwydydd yng Nghymru â mynediad i'r rhyngrwyd wedi codi o 66 y cant yn 2010 i 84 y cant yn 2016. Ers 2015, mae'r gyfran wedi aros yn gymharol sefydlog (86 y cant yn 2015 ac 84 y cant yn 2016), sy'n awgrymu bod 15-16 y cant o aelwydydd yng Nghymru wedi eu hallgau'n ddigidol o hyd, a hynny naill ai trwy ddewis, trwy ddiffyg cyfleoedd neu trwy gyfuniad o'r ffactorau hyn.

¹⁵ Ibid. Tudalen 13.

Ffigur 1: Cyfraddau defnydd y rhyngwrdd yng Nghymru 2010-2016¹⁶

Canran yr aelwydydd



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom fel y'i cofnodwyd yn Adroddiad y Farchnad Cyfathrebu: Cymru 4 Awst 2016. Tudalen 64.¹⁷

¹⁶ Nodyn 1: Mae'r 'Rhyngwrdd' yn cynnwys mynediad i'r rhyngwrdd gartref (ar unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, llechen ac ati)

Nodyn 2: Mae'r 'Cyfanswm Band Eang' yn cynnwys y dulliau canlynol o gysylltu â'r rhyngwrdd gartref - band eang sefydlog (gan ddefnyddio llinell ffôn neu wasanaeth cebl), band eang symudol (gan ddefnyddio ffon gof USB neu dongl, neu gysylltedd mewnol o fewn gliniadur/rhwydlyfr/llechen â SIM), rhwymo (trwy gysylltiad ffôn symudol â'r rhyngwrdd ar liniadur/llechen), a llwybrydd di-wifr band eang symudol (trwy rwydwaith symudol 3G neu 4G, y gellir ei rannu rhwng dyfeisiau).

Nodyn 3: Mae 'Band Eang Sefydlog' yn cynnwys gwasanaeth ADSL, cebl a ffeibr - o bosibl gan ddefnyddio llwybrydd Wi-Fi. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang cyflym iawn.

Nodyn 4: 'Band eang symudol' yw cysylltu dyfais gan ddefnyddio ffon gof USB neu dongl, neu gysylltedd mewnol mewn gliniadur neu rhwydlyfr neu gyfrifiadur llechen â cherdyn SIM.

Nodyn 5: 'Y Rhyngwrdd ar ffôn symudol' yw'r gyfran o oedolion sy'n defnyddio ffôn symudol ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn: negeseua gwib, lawrlwytho apiau neu raglenni, e-bost, mynediad i'r rhyngwrdd, lawrlwytho fideo, ffrydio fideo, ymweld â gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.

¹⁷ Mae'r niferoedd sylfaen yn cyfeirio at bob oedolyn 16+ oed. 2010 = 1075, 2011 = 493, 2012 = 513, 2013 = 492, 2014 = 491, 2015 = 496 a 2016 = 489. Lefel hyder o 95 y cant rhwng Cymru 2015 a 2016.

- 3.17 Mae'n dangos hefyd y bu cynnydd cyflym yn y defnydd o'r rhyngwrwd ar ddyfeisiau symudol rhwng 2010 a 2015 (cynnydd o 38 pwynt canrannol), ond unwaith eto mae'n ymddangos bod hyn wedi meinhau ychydig yn 2016 (gan ddilyn patrwm tebyg i'r defnydd cyffredinol o'r rhyngwrwd).

Data o Arolwg Cenedlaethol Cymru (2014-15)

- 3.18 Ym mis Hydref 2015, rhyddhaodd Ystadegau Cymru fwletin manylach a oedd yn dadansoddi canfyddiadau Arolwg Cymru 2014-2015 mewn perthynas â defnydd o'r rhyngwrwd a mynediad iddo¹⁸. Canfyddiadau pennawd y bwletin ystadegol mewn perthynas ag allgau digidol oedd:

- Bod gan 78 y cant o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwd (cyfran debyg, er ychydig bach yn is na'r ffigur a nodwyd yn adroddiadau Ofcom - Ffigur 1)
- Bod gan 97 y cant o aelwydydd lle mae dau oedolyn a phlant fynediad i'r rhyngwrwd, o'i gymharu â chwta 41 o aelwydydd ag un pensiynwr sengl
- Bod gan 81 y cant o aelwydydd sydd mewn llety rhentu preifat ac 81 y cant o aelwydydd sy'n berchen-ddeiliaid fynediad i'r rhyngwrwd, o'i gymharu â 61 y cant o'r rhai sydd mewn tai cymdeithasol
- Bod 81 y cant yn dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwd gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall, ond roedd hyn yn amrywio yn ôl rhyw, iechyd, cyflogaeth a chymwysterau. Er enghraifft, mae 55 y cant o ddynion dros 65 oed yn defnyddio'r rhyngwrwd o'i gymharu â 43 y cant o fenywod. Cwta 62 y cant o bobl â salwch cyfyngol, anabledd neu wendid hirdymor a oedd yn defnyddio'r rhyngwrwd, o'i gymharu ag 87 y cant o'r rhai heb anhwylder o'r fath. Mae 94 y cant o'r bobl sydd mewn cyflogaeth, a 95 y cant o'r rhai sy'n ddi-waith yn defnyddio'r rhyngwrwd, tra bod cwta 62 y cant o'r rhai yr ystyrir eu bod yn economaidd anweithgar yn defnyddio'r rhyngwrwd. Mae 44 y cant o'r bobl sydd heb gymwysterau'n defnyddio'r rhyngwrwd, tra bod 94 y cant o'r rhai â chymwysterau ar lefel 3 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol neu'n uwch yn defnyddio'r rhyngwrwd.

¹⁸ Y Bwletin Ystadegol SB 97/2015. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-2015. Defnydd o'r rhyngwrwd a mynediad iddo. 14 Hydref 2015. Ystadegau Cymru.

- Taw'r gliniadur oedd y ddyfais fwyaf poblogaidd ar gyfer cyrchu'r rhyngrwyd gyda 66 y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn dewis y ddyfais hon
- Bod 88 y cant o bobl ifanc 18 i 24 oed yn cyrchu'r rhyngrwyd gan ddefnyddio ffôn symudol neu ffôn clyfar¹⁹.

¹⁹ Ibid. Tudalen 1, 6 a 7.

4. Dyluniad a sail resymegol rhaglen CDC.

- 4.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n edrych ar ddyluniad a rhesymwaith y rhaglen CDC. Mae'r bennod yn tynnu ar dystiolaeth werthuso o'r rhaglen Cymunedau 2.0 a ragflaenodd CDC, a manyleb CDC. Defnyddir canfyddiadau'r adolygiad hwn i lunio model rhesymeg ar gyfer y rhaglen CDC.

Y Cyd-destun - Yr hyn a ddysgwyd gan Gymunedau 2.0

- 4.2 Cyn archwilio'r agweddau allweddol ar ddyluniad CDC, rydyn ni'n myfyrio ar y gwersi allweddol a ddysgwyd, ac argymhellion y gwerthusiad o'r rhaglen a'i rhagflaenodd, sef Cymunedau 2.0, er mwyn gosod y cyd-destun.
- 4.3 Casgliad y gwerthusiad adolygol o Gymunedau 2.0 oedd:
- Bod 'craidd disgyrchiant' y Rhaglen wedi newid tua diwedd y gwaith cyflawni i gyfeiriad hyrwyddo cynhwysiant digidol ymysg unigolion.
 - Er bod y cymorth a gyfeiriwyd at sefydliadau gwirfoddol a chymunedol wedi cael croeso da, a'i fod wedi arwain at fanteision yn nhermau 'gweithredu effeithiolrwydd a gwytnwch', dangosodd y gwaith hydredol a gyflawnwyd yn rhan o'r gwerthusiad nad oedd cymorth o'r math yma wedi bod yn 'drawsnewidiol' i'r trydydd sector, ac nad oedd yn darparu atebion hirdymor.
 - Bod y gwaith gydag unigolion wedi bod yn 'llwyddiant ysgubol', ac yn arbennig yn nhermau eu tueddfryd i ddefnyddio'r rhyngrwyd, a bod yr elfen allgymorth cymunedol 'anfygythiol' wedi golygu bod cymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer unigolion 'na ellid byth fod wedi eu cyrraedd trwy lwybrau mwy confensiynol'²⁰
 - Y bu'n dipyn o ymdrech i'r rhaglen estyn allan at rai grwpiau, ac yn arbennig 'y rhai ag anableddau a'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi'
 - Y bydd 'gweddill y boblogaeth' sy'n dal i gael eu hallgau'n ddigidol 'yn anos byth eu cyrraedd'
 - Bod yna elfennau allweddol o arferion da a gyfrannodd at llwyddiant y rhaglen, ac yn eu plith roedd:

²⁰ Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Gymunedau 2.0. Tudalen 137.

- Gweithio gyda a thrwy bartneriaid bodlon yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a meithrin perthnasau sy'n fanteisiol i bawb.
- 'Gwerthu' manteision cynhwysiant digidol
- Datblygu a chynnig darpariaeth mewn 'sesiynau bychain hydrin o dan amodau anffurfiol'
- Defnyddio gwirfoddolwyr yn effeithiol, yn seiliedig ar ddull o fynd ati sy'n seiliedig ar 'hyfforddi'r hyfforddwr'²¹
- Bod y rhaglen wedi datblygu etifeddiaeth a oedd yn golygu bod sefydliadau allanol yn fodlon buddsoddi eu cyllid eu hunain, neu fuddsoddi mewn ymdrechion i ddiogelu cyllid allanol er mwyn parhau i hyrwyddo cynhwysiant digidol ymysg unigolion. Ar y sail honno, daeth y gwerthusiad i'r casgliad, hyd yn oed pe bai modd parhau â Chymunedau 2.0 fel yr oedd, neu ei ail-greu, ni fyddai hynny'n angenrheidiol. Yn hytrach, daeth i'r casgliad y byddai 'adnodd canolog Cymru-eang yn dal i fod yn angenrheidiol er mwyn darparu anogaeth a chymorth ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau cynhwysiant digidol y rheng flaen' ²².

4.4 Prif argymhelliad y gwerthusiad adolygol o Gymunedau 2.0 oedd:

- Y dylai Llywodraeth Cymru edrych i ddyrannu adnoddau ar gyfer rhaglen olynw fwy cyfyngedig i Gymunedau 2.0, sy'n canolbwyntio'n unswydd ar yr hwb i gynyddu cynhwysiant digidol unigolion sydd wedi eu hallgau ar hyn o bryd eto fyth. Ni ddylai gyflawni - nac ariannu'n fwy na thebyg - gweithgarwch y rheng flaen ei hunan, ond yn hytrach dylai:
 - Barhau i weithredu fel eiriolwr cynhwysiant digidol gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector
 - Cynorthwyo ac annog partneriaid sydd eisoes ynghlwm wrth fentrau digidol i gynnal eu hymrwymiad
 - Meithrin partneriaethau lleol a thematig newydd lle bo angen
 - Darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio rhwng unigolion a sefydliadau sydd ynghlwm wrth gynhwysiant digidol

²¹ Ibid. Tudalen 138.

²² Ibid. Tudalen 141.

- Cynnal a hyrwyddo etifeddiaeth Cymunedau 2.0
- Parhau i ddarparu 'hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwyr'

Manyleb Rhaglen CDC

4.5 Disgrifiodd manyleb rhaglen CDC²³ asesiad o'r angen sylfaenol ar gyfer yr amrywiaeth o wasanaethau a gâi eu caffael. Yn seiliedig ar waith ymchwil cyfredol a thystiolaeth werthuso, cyfeiriodd yr asesiad o angen at y ffaith:

- Fod yna agendor digidol o hyd ar gyfer sawl grŵp yn y gymdeithas, sy'n golygu eu bod yn colli allan ar y cyfleoedd y mae'r technolegau digidol diweddaraf yn eu cynnig
- Bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ac yn arbennig mewn cartrefi cymdeithasol, neu bobl hŷn a neu anabl, yn fwy tebygol o gael eu hallgau'n ddigidol
- Bod cael eu hallgau'n ddigidol yn gosod pobl o dan anfantais go iawn, ac mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan y gymdeithas
- Bod yna niferoedd sylweddol o bobl (21 y cant o'r boblogaeth mewn oed) nad ydynt ar-lein, sy'n ategu tlodi ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd i gyfoethogi bywydau. Am hynny, mae cynhwysiant digidol yn fater allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb
- Wrth i wasanaethau cyhoeddus symud mwyfwy ar-lein, mae pobl sy'n cael eu hallgau'n ddigidol yn wynebu cyfyngiadau a mynediad llai hyblyg at y gwasanaethau hynny
- Mae hi'n bosibl ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ddatblygiad cymunedol ac allgymorth i ymgysylltu pobl â thechnolegau fel llwybr i ddefnydd ehangach o TGCh ²⁴.

4.6 Pennodd y fanyleb gyfres o amcanion ar gyfer rhaglen y CDC, sef:

- Annog a chynorthwyo unigolion sydd wedi eu hallgau'n ddigidol i elwa ar fanteision technolegau digidol

²³ Darparu Cyngor a Chymorth Cynhwysiant Digiol. Gwahoddiad i Dendro (ITT). Rhif y Contract: C140/2014/2015. Llywodraeth Cymru.

²⁴ Ibid. Tudalennau 2 a 3.

- Hwyluso cydlyniad gweithgarwch cynhwysiant digidol ar draws y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl
- Sefydlu cynhwysiant digidol o fewn sefydliadau arweiniol/ambarél, gan hwyluso dull o fynd ati i ddarparu hyfforddiant a chymorth sy'n seiliedig ar raeadru ar draws sefydliadau a grwpiau cymunedol fel dull o estyn allan at unigolion sydd wedi eu hallgau'n ddigidol²⁵

4.7 O dan y nodau lefel uchel hyn roedd yna ofynion penodol ar gyfer y rhaglen, a oedd yn cynnwys yr angen am i CDC:

- Helpu unigolion sydd wedi eu hallgau'n ddigidol i oresgyn rhwystrau o ran cymhelliant, sgiliau, mynediad a hyder er mwyn iddynt ddod yn ddefnyddwyr technoleg hyderus
- Cynorthwyo unigolion neu grwpiau o unigolion i wella eu sgiliau digidol, a'u galluogi i gyfoethogi eu cyfleoedd o ran cyflogaeth
- Gweithredu fel eiriolwr dros gynhwysiant digidol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector
- Meithrin a chynnal partneriaethau gyda sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn gweithio gyda phobl sydd wedi eu hallgau'n ddigidol (gan gynnwys y rhai sy'n cynnig mentrau cyfredol)
- Cydnabod y rhan gwerthfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag allgau digidol, a chlustnodi cyfleoedd i'r gwaith yma barhau
- Cynorthwyo sefydliadau a grwpiau o bob sector i ddarparu hyfforddiant/mentora ym maes cynhwysiant digidol
- Meithrin cysylltiadau agos â'r bobl sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn rhannu arbenigedd am y dulliau gorau o fynd ati i ymgysylltu â phobl sydd wedi eu hallgau'n ddigidol
- Cydweithredu â meysydd eraill o fewn agenda Cymru Ddigidol Llywodraeth Cymru

²⁵Ibid. Tudalennau 3 a 4.

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r farchnad band eang i archwilio atebion fforddiadwy o ran band eang domestig ar gyfer tenantiaid cartrefi cymdeithasol
- Gweithio gyda rhaglenni cyflogaeth a sgiliau, a'r sector addysg i oedolion ar led, i gynorthwyo pobl sy'n barod am hyfforddiant achrededig i ddatblygu eu hyfedredd digidol
- Cydgysylltu'n agos â rhaglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r agenda cynhwysiant ariannol ehangach
- Cydweithio'n agos â'r rhwydwaith llyfrgelloedd i gynorthwyo cyflawniad cynhwysiant digidol ledled Cymru
- Defnyddio'r offer a'r adnoddau a etifeddwyd gan Gymunedau 2.0 mewn ffordd briodol
- Hyrwyddo ac amlygu gwaith y rhaglen trwy wefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Ymgysylltu â'r Rhaglen 'Go On UK',²⁶ er mwyn manteision i'r eithaf ar fanteision y gweithgarwch DU-eang i Gymru²⁷.

4.8 Pennodd y fanyleb becyn o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer CDC. Yn eu plith roedd yr angen am:

- Weithio gyda sefydliadau er mwyn helpu i gynorthwyo 15,000 yn rhagor o bobl y flwyddyn i ymgysylltu â thechnolegau
- Darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer 400 o sefydliadau'r flwyddyn ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, gan ddangos arferion gorau o ran sut i ymgysylltu pobl â thechnolegau
- Annog a chynorthwyo sefydliadau i recriwtio a defnyddio dros 500 o wirfoddolwyr y flwyddyn i gynorthwyo pobl i fynd ar lein, gan gydweithio'n agos â chanolfannau gwirfoddolwyr a rhwydweithiau gwirfoddoli er mwyn sicrhau bod cydlynad y gweithgareddau ar gyfer gwirfoddolwyr

²⁶ 'Dotoeveryone' yw enw'r rhaglen erbyn hyn.

²⁷ Ibid. Tudalennau 5 a 6.

- Cynorthwyo 500 o bobl y flwyddyn i oresgyn eu rhwystrau i TGCh er mwyn cyfoethogi eu cyflogadwyedd²⁸.

4.9 Yn nhermau rhoi'r peth ar waith, pennodd y fanyleb y gofyniad y byddai CDC yn cael ei gyflawni ledled Cymru, ond y byddai yna 'ffocws ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n dangos lefelau uwch o allgau digidol'. Pennodd y fanyleb bedwar grŵp blaenoriaeth cyffredinol i'w targedu, sef:


- Pobl hŷn (50+)
- Pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith
- Pobl anabl
- Tenantiaid cartrefi cymdeithasol.

Y sail resymegol a'r theori newid/model rhesymeg

4.10 Aethon ni ati i ddatblygu'r model rhesymeg a ddarlunnit yn Ffigur 2 yn seiliedig ar y theori newid ar gyfer CDC.

²⁸ Ibid. Tudalen 7.

Ffigur 2: Model Rhesymeg Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru



Yr angen am ymyrraeth - Tystiolaeth Ansoddol

- 4.11 Dadleuodd sefydliadau partner yn gryf bod yna angen o hyd am ymyrraeth cynhwysiant digidol fel CDC.
- 4.12 Y prif gyfiawnhad a roddwyd yn hyn o beth oedd y ffaith fod yna symudiad i gyfeiriad system lles ar-lein (a soniwyd yn fynych am fentrau penodedig y Credyd Cynhwysol, Porth y Llywodraeth ac Universal JobMatch) a'r cymorth digidol sydd ei angen ymysg cymunedau yn sgil hynny. Lle'r oedd mentrau cynhwysiant digidol blaenorol (ac yn enwedig Cymunedau 2.0) yn gogwyddo i gyfeiriad darparu cymorth digidol generig ar gyfer grwpiau penodol yn ogystal â sgiliau TG ar gyfer y gwaith, dadleuodd sawl un bod cychwyn y diwygiadau lles wedi creu angen i gynorthwyo pobl a allai fod o dan anfantais ariannol am nad oeddent yn gallu ymdopi'n ddigidol. Roedd y newid hwn yn codi problem ychwanegol, ac yn enwedig i rai cymdeithasau tai, h.y. y risg na fyddai modd i'r tenantiaid dalu eu rhent am nad oeddynt yn gallu codi eu taliadau budd-dal. Tynnodd un o'r cymdeithasau tai hyn sylw at y perygl y gallai cymunedau difreintiedig gael eu gadael ar ôl mewn oes ddigidol:

‘Roedd hi'n glir fod angen i ni wneud rhywbeth i helpu pobl i ddelio â'r newidiadau hyn, neu byddai'n gwneud sefyllfa sydd eisoes yn anodd yn anos byth i lawer’²⁹.

- 4.13 Pwysleisiodd sawl un o'r bobl a gymerodd ran bod elfen ar-lein y Credyd Cynhwysol yn gyfyngedig i bobl sengl ar hyn o bryd, a byddai ei chyflwyniad ar raddfa ehangach yn y dyfodol cymharol agos yn creu galw mwy o lawer am gynhwysiant digidol, a chymorth yn seiliedig ar dechnoleg. Awgrymodd tystiolaeth y rhanddeiliaid y byddai'r Credyd Cynhwysol yn cael ei 'gyflwyno' mewn rhai rhannau o Gymru o tua Gwanwyn 2017 ymlaen, ac roedd yna awgrym ei bod hi'n debygol y bydd angen cymorth pellach o ran cynhwysiant digidol pan fydd hyn yn cyflymu. Yn hyn o beth, tynnodd un rhanddeiliad sylw at gyhoeddiad diweddar y DWP, a awgrymodd bod:
- Cyfrannau uchel iawn o hawl wyr wedi cyflwyno gwybodaeth bersonol, cymdeithasol ac ariannol i system y Credyd Cynhwysol ar-lein (99.7 y cant oedd y ffigur Mehefin 2016 er enghraifft)

²⁹ Cartrefi Dinas Casnewydd

- Cyfrannau uchel iawn o hawlwyd wedi cofnodi newid yn eu hamgylchiadau ar system ar-lein y Credyd Cynhwysol (90 y cant oedd y ffigur ym Mehefin 2016)³⁰.

- 4.14 Fodd bynnag, dangosodd gwaith ymchwil DWP bod 45 y cant o'r hawlwyd a oedd yn cyflwyno hawliadau trwy wasanaeth ar-lein y Credyd Cynhwysol wedi wynebu o leiaf un anhawster yn hynny o beth, gyda 15 y cant yn rhoi'r rheswm 'nad oeddent yn gallu cyrchu'r wefan'³¹.
- 4.15 Roedd sefydliadau tai yn arbennig o barod i ddweud bod angen iddynt fod mewn gwell sefyllfa i gynorthwyo tenantiaid i gyrchu gwasanaethau ar-lein, a bod darpariaeth cynhwysiant digidol wedi dod yn norm i raddau helaeth.
- 4.16 Nododd nifer lai o sefydliadau partner faterion eraill i gyfiawnhau'r rhaglen CDC. Yn benodol, awgrymodd un bwrdd iechyd³² a gyfrannodd at y gwerthusiad bod CDC wedi cynnig cymorth iddynt ymchwilio i, a phrofi dulliau digidol o ddiwallu anghenion cleifion mewn ardaloedd gwledig.
- 4.17 Roedd gwasanaethau llyfrgelloedd yr un mor gefnogol o CDC, gan edrych ar y peth fel cyfrwng i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion defnyddwyr, mewn byd cynyddol ar-lein gydag e-lyfrau, e-lyfrau sain ac e-gylchgronau, yn ogystal â'u rôl wrth gynorthwyo'r Ganolfan Byd Gwaith i helpu pobl gyda gweithgareddau chwilio am waith. Yn yr un modd, roedd sefydliadau sydd â'u ffocws ar gynorthwyo grwpiau difreintiedig a bregus (e.e. pobl ddigartref, cymunedau o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl sy'n ymadael â gofal, troseddwyd ifanc a phobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig) yn gweld CDC fel rhywbeth a fyddai'n eu cynorthwyo i ddarparu gwell cefnogaeth i gynorthwyo'r cymunedau hyn i gyrchu gwasanaethau digidol.
- 4.18 Cytunodd y rhanddeiliaid bod trosi o Gymunedau 2.0 i ddull mwy hyrwyddol CDC o fynd ati'n hollol briodol o ystyried bod cynhwysiant digidol bellach yn 'fwy amlwg ar y radar' a'r ffaith fod yna bwysau parhaus ar wariant y sector cyhoeddus.

³⁰ Defnydd o sianeli ar-lein y Credyd Cynhwysol. Data hyd Mehefin 2016. Tudalen 1.

³¹ Ibid. Tudalen 5. Defnyddiodd DWP ddata o werthusiad o'r rhaglen Credyd Cynhwysol a gyflawnwyd gan Ipsos MORI.

³² Bwrdd Iechyd Hywel Dda

4.19 Roedd y staff a oedd wrthi'n gweithio'n cyflawni CDC wedi synhwyro bod yna ymdeimlad cryfach o berchnogaeth dros gynhwysiant digidol gan sefydliadau partner o dan CDC nac a welwyd o dan Gymunedau 2.0. Yn hynny o beth, dywedodd un aelod o'r tîm:

'Gallwch weld (y newid o ran meddylfryd), mae'n gynnil, ond lle'r oedd sefydliadau'n arfer cymryd y cymorth oedd ar gael a dim byd arall, nawr maen nhw'n dod atom ni'n fwy, ac yn meddwl am ddefnyddwyr eu gwasanaethau'.

4.20 Roedd y rhanddeiliaid yn glir eu barn hefyd, er bod Cymunedau 2.0 wedi cyflawni'n helaeth, roedd yna angen a chyfiawnhad clir o hyd i gael ymateb polisi ac ymyrraeth o du'r sector cyhoeddus, a hynny'n seiliedig i raddau helaeth ar ddata a oedd yn dal i ddangos nad oedd rhwng 15 ac 20 y cant o aelwydydd Cymru'n cyrchu'r rhynggrwyd.

'Heb os nac oni bai, y peth cywir i'w wneud oedd symud i fodel cyflawni mwy anuniongyrchol. Ond wrth gwrs, y cwestiwn allweddol yw pryd mae gwneud y penderfyniad i wneud hynny. Mae hi'n bwysig dros ben fod â gweledigaeth derfynol. Ar y cyfan, mae'r strategaeth yn teimlo'n iawn'.

'Mae'r broblem yn dal i fod yno – dyw hi ddim wedi mynd i ffwrdd'.

4.21 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo, o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael (o gymharu â chyllideb darged Cymunedau 2.0), ei bod hi'n briodol hefyd y dylai fod yna elfen o dargedu cymorth CDC yn yr ardaloedd lle mae'r lefelau uchaf o allgau digidol.

5. Y strwythur cyflawni

- 5.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n archwilio strwythur cyflawni CDC. Mae'r bennod hon yn tynnu ar y cynnig a gyflwynodd y contractwr cyflawni a benodwyd (Canolfan Cydweithredol Cymru) i Lywodraeth Cymru, a'u hadroddiadau chwarterol ar gynnydd.

Gorolwg o weithgarwch CDC

- 5.2 Yn dilyn ymarfer caffael tendr agored, dyfarnwyd y contract i gyflawni CDC i Ganolfan Cydweithredol Cymru ar 13 Mawrth 2015.
- 5.3 Yn Ionawr 2015, cyflwynodd y Ganolfan gynnis i gydweithredu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), Anabledd Cymru, Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru (SCLC), Cynghair Henoed Cymru a BT Cymru i gyflawni CDC.
- 5.4 Roedd cynnis y Ganolfan yn cynnwys 13 o feysydd cyflawni, gyda gwasanaeth CDC yn cael ei gynnis ledled Cymru, gan flaenoriaethu gwaith trwy dargedu adnoddau mewn ardaloedd:
- Nad ydynt wedi cadw i fyny (yn seiliedig ar brofiad Cymunedau 2.0)
 - Lle mae lefelau uwch o dlodi a diweithdra
 - Lle mae niferoedd uwch o bobl sydd wedi eu hallgau'n ddigidol³³.
- 5.5 Yn ein barn ni, roedd y meysydd a'r gweithgareddau a bennodd Canolfan Cydweithredol Cymru yn y cynnis yn briodol, ac roeddent yn bodloni'r gofynion a bennwyd yn nogfen manyleb CDC.

Dull o sicrhau cynaliadwyedd

- 5.6 Roedd cynaliadwyedd yn ffocws allweddol yng nghynnig Canolfan Cydweithredol Cymru. Yn y cyd-destun yma, roedd y cynnis yn pennu y byddai 'strategaethau sefydliad-eang' yn cael eu datblygu. Byddai'r strategaethau hyn yn canolbwyntio ar 'feithrin capasiti sefydliadol i wireddu cynhwysiant digidol yn rhan o brif ffrwd y gweithgareddau'.

³³ Cymunedau Digidol Cymru. Dogfen gais Canolfan Cydweithredol Cymru Ionawr 2015. Tudalen 4.

5.7 Y bwriad a bennwyd yng nghynnig y Ganolfan oedd y byddai'r ddarpariaeth 'yn parhau y tu hwnt i oes Cymunedau Digidol Cymru'³⁴.

Adnoddau staffio

5.8 Roedd cynnig y Ganolfan yn pennu y byddai gofynion staffio'r rhaglen yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Prosiect
- Rheolwr Cyflawni Lleol â chyfrifoldeb dros sicrhau bod y Cydlynwyr Cynhwysiant Digidol Lleol yn cyflawni cynllun y prosiect ac yn cyrraedd y targedau
- Chwe Chydlynnydd Cynhwysiant Digidol cyfwerth ag amser llawn (FTE) i gydlynu cynhwysiant digidol yn lleol ac i weithio gyda sefydliadau lleol i wella arferion a chynyddu faint o gymorth sydd ar gael.
- Dau a hanner Swyddog Ymgysylltu Cynhwysiant Digidol cyfwerth ag amser llawn i gynnal cyrsiau ar gyfer staff y rheng flaen a gwirfoddolwyr.
- Swyddogion Ymgysylltu Cynhwysiant Digidol y Trydydd Sector i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ym maes cynhwysiant digidol. Byddai deiliad y swydd yma'n gweithio ar secondiad i CGGC.

5.9 Roedd y cynnig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer staff cymorth hefyd, gan gynnwys:

- Swyddog Hyfforddiant a Thechnegol
- Gweinyddwr Prosiect
- Swyddog Cyllid
- Swyddog Monitro, Adrodd a Pherfformiad
- Swyddog y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata
- Swyddog y We³⁵.

5.10 Yn ein barn ni, roedd y cynigion a gyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru o ran y staff a fyddai'n gweithio ar weithrediad CDC yn briodol, ac yn gyson â graddfa'r gofynion a bennwyd yn y fanyleb wreiddiol.

³⁴ Ibid. Tudalen 47.

³⁵ Ibid. Tudalennau 51 a 52.

6. Rhoi CDC ar waith

- 6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried gweithrediad CDC, ei arferion hyrwyddo a recriwtio, profiadau sefydliadau partner a defnyddwyr y gwasanaethau a'u profiadau blaenorol ym maes cynhwysiant digidol, natur y ddarpariaeth a gafwyd, a'u safbwyntiau am ansawdd a pherthnasedd y cymorth a ddarparwyd.

Profiad blaenorol o Gymunedau 2.0

- 6.2 O'r 50 o sefydliadau partner a gyfrannodd at y gwerthusiad, soniodd rhyw hanner yn benodol bod ganddynt brofiad blaenorol o weithio gyda rhagflaenydd y rhaglen, sef Cymunedau 2.0. Nododd o leiaf wyth sefydliad partner nad oedd unrhyw gysylltiad blaenorol ganddynt â Chymunedau 2.0 neu Ganolfan Cydweithredol Cymru, ac yn y mwyafrif o achosion, priodolwyd hyn i'r ffaith eu bod naill ai'n fentrau neu'n sefydliadau newydd, neu eu bod yn gymharol newydd i'w swyddi. Roedd y sefydliadau partner sy'n weddill yn ymwybodol o Gymunedau 2.0, ond nid oeddent wedi gweithio gyda'r rhaglen yn uniongyrchol.
- 6.3 O'r sefydliadau partner hynny a oedd wedi bod â chysylltiad blaenorol â'r rhaglen Cymunedau 2.0, ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi y bu yna newid sylweddol yn y dull o fynd ati rhwng y naill raglen a'r llall. Mae hyn yn awgrymu bod Canolfan Cydweithredol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu'n effeithiol am y newid o Gymunedau 2.0 i CDC.
- 6.4 Yn ambell un o'r achosion hyn, nododd y cyfranogwyr eu bod eisoes wedi cael cyllid trwy'r rhaglen Cymunedau 2.0 i ariannu staff yn uniongyrchol a darparu hyfforddiant ar gyfer eu defnyddwyr, ond roeddent yn cydnabod bod ffocws CDC yn fwy ar gynorthwyo sefydliadau partner trwy ddarparu'r sgiliau a'r offer angenrheidiol i brif-ffrydio cynhwysiant digidol gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain yn hytrach nac ariannu swyddi ar draws y sefydliadau partner.
- 6.5 Yn ystod y cyfweiliadau manwl, roedd gan y sefydliadau partner a oedd wedi bod â chysylltiad â Chymunedau 2.0 safbwyntiau cadarnhaol am y newid o Gymunedau 2.0 i CDC, a nodwyd bod y parhad o ran staff ac ymgynghorwyr yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hyn y perthnasau cadarnhaol a oedd eisoes yn bodoli:

'Roedden ni eisoes wedi meithrin perthynas weithio wirioneddol dda gyda'u staff trwy Gymunedau 2.0. Roedden ni'n eu helpu nhw i gyflawni eu hamcanion, ac roedden nhw'n ein helpu ni i wella ansawdd bywyd ein trigolion. Roedd hi'n grêt.'

- 6.6 Dim ond dau o'r sefydliadau partner a wnaeth sylwadau negyddol am y newid rhwng y ddwy raglen cynhwysiant digidol:

'Roedden ni wedi magu llawer o fomentwm trwy Gymunedau 2.0, ac roedd llawer o alw, ond wedyn diflannodd y cyllid dros nos'

'Roedd gennym syniadau a chynlluniau di-ri ar y gweill gyda chefnogaeth y cydlynnydd. Yna daeth y Rhaglen i ben gan drawsnewid i'w ffurf bresennol [CDC] ac yn sydyn reit, nid oedd yr un lefel o adnoddau a chymorth ar gael i fwrw ymlaen â'r holl syniadau da roedden ni wedi bod yn gweithio arnynt. Roedd hyn yn teimlo fel bod Llywodraeth Cymru'n dweud 'dim diolch, does dim diddordeb gennym ni yn hynny mwyach'; oedd yn lladd ysbryd rhywun a dweud y gwir'.

Profiad y sefydliadau partner o chwarae rhan

- 6.7 Mae adborth y sefydliadau partner yn awgrymu bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth fynd atynt i ofyn iddynt gymryd rhan. Roedd sawl un yn cofio staff CDC yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol i'w gwahodd i achlysuron rhannu gwybodaeth neu i gyfarfod â chynrychiolydd CDC i drafod sut y gallent gydweithio. Roedd yr adborth ar y cysylltiad cychwynnol yma'n gadarnhaol iawn am eu bod wedi gwerthfawrogi'r briffio manwl a gawsant gan staff CDC. Ychydig iawn a oedd yn cofio gorfod dod ar draws CDC trwy lwybrau eraill, fel clywed am y prosiect trwy sefydliad arall.
- 6.8 Dull arall o ddod i gysylltiad â CDC y soniodd y sefydliadau partner amdano, oedd cael gwahoddiad i fynychu achlysuron hyfforddi ar gynhwysiant digidol. Soniodd ambell i gyfrannwr bod amseriad y gwahoddiadau hyn wedi bod yn briodol iawn o ystyried y galw cynyddol am gymorth digidol gan gleientiaid, a'r diwygiadau sydd ar y gweill mewn perthynas ag o fudd-daliadau i waith. Yn un o'r achosion hyn, dadleuwyd bod:

'Roeddwn i'n hollol ddi-glem ar yr Universal Jobmatch. Am fod fy Rheolwr am i mi helpu gyda'r Ganolfan Waith, gofynnais a oedd hyfforddiant ar gael'.

6.9 At hynny, soniodd nifer fechan o sefydliadau partner eu bod wedi cael gwahoddiad i fynychu amryw o bartneriaethau 'digidol', fel Partneriaeth Ddigidol Môn.

6.10 Yn yr un modd, nododd llond llaw o sefydliadau partner taw gwahoddiad i wneud cais am offer TG trwy CDC a sbardunodd eu cysylltiad â CDC. Roedd un sefydliad partner yn benodol yn croesawu'r cyfle i wella argaeledd ac ymarferoldeb yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio gyda chleientiaid ac o fewn gweithgareddau grŵp:

'Rydyn ni'n chwilio bob amser am adnoddau ychwanegol, a dulliau o wella ein gwasanaethau, felly roedd y cynnig i gael offer ychwanegol yn beth i'w groesawu i ni.'

Profiad blaenorol sefydliadau partner o weithgarwch cynhwysiant digidol

6.11 Roedd gan y sefydliadau partner brofiadau amrywiol o chwarae rhan mewn darpariaeth neu fentrau blaenorol ym maes cynhwysiant digidol. Nid oedd llond llaw o sefydliadau partner wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol ag unrhyw fentrau ym maes TGCh neu gynhwysiant digidol cyn CDC, ond ystyriwyd bod eraill yn 'arweinwyr digidol' yn eu siroedd. Fodd bynnag, mae cyfran aruthrol o'r adborth gan sefydliadau partner yn cyfeirio at gynnydd nodedig yng nghysylltiad y sefydliadau hyn â'r agenda cynhwysiant digidol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

6.12 Y mathau o gymorth cynhwysiant digidol a oedd yn cael ei ddarparu gan sefydliadau partner cyn ymgysylltu â CDC y soniwyd amdanynt amlaf oedd:

- Darparu mynediad am ddim i offer TG (cyfrifiaduron, i Pads) a'r rhyngwrwyd/Wi-Fi ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau
- Helpu defnyddwyr gwasanaethau i fynd ar-lein (gan ddefnyddio eu iPads, ffonau clyfar a'u gliniaduron eu hunain)
- Helpu defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol e.e. WhatsApp, Facebook
- Hwyluso sesiynau taro-heibio am TG mewn amryw o leoliadau yn y gymuned
- Cynorthwyo cleientiaid i chwilio am swyddi ar lein

- Darparu cyrsiau hyfforddi TG gan gynnwys Microsoft Office, cyrsiau ECDL³⁶ a chysiau cyfrifiadureg sylfaenol eraill
- Darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth e.e. ar agweddau fel mynediad digidol sy'n ymwneud â'r diwygiadau lles
- Darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, gyda phwyslais ar TG
- Darparu Setiau Teledu Clyfar mewn llety tai gwarchod
- Darparu system bwrdd du ar-lein (ar y cyd â choleg lleol) er mwyn rhannu adnoddau
- Cyflogi aelod penodedig o staff â chyfrifoldeb dros gynhwysiant digidol
- Cyfrannu at waith partneriaethau digidol lleol neu ranbarthol.

6.13 Pwysleisiodd sawl un o'r sefydliadau partner bod cynhwysiant digidol wedi cynyddu a'i fod wedi ymwreiddio yn eu hamcanion strategol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd hyn yn arbennig o nodedig yn y sectorau tai ac ymgynghorol. Er enghraifft, nododd un gymdeithas dai bod cynhwysiant digidol (ac ariannol) yn un o'i hamcanion sefydliadol allweddol erbyn hyn³⁷. Y teimlad oedd taw'r prif beth y tu ôl i'r newid hwn oedd yr angen am gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i ymateb i'r ffaith fod budd-daliadau'n mynd ar-lein, a hynny, i bob pwrpas, er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad hwn yn cosbi defnyddwyr y gwasanaeth yn ariannol. Yn ogystal, esboniodd nifer o sefydliadau partner (ac yn arbennig cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a gwasanaethau llyfrgell) eu bod nhw eu hunain bellach yn darparu mwy o wasanaethau ar-lein, a bod angen addysgu a galluogi defnyddwyr gwasanaethau i gyrchu'r darpariaethau hyn. Er enghraifft, roedd cymdeithas dai wedi datblygu porth ar-lein i denantiaid ac ap symudol cysylltiedig yn ddiweddar er mwyn galluogi tenantiaid i dalu eu biliau ar-lein am y tro cyntaf.

6.14 Darparodd sawl sefydliad partner dystiolaeth i ddangos bod yr agenda cynhwysiant digidol wir wedi 'bwrw gwreiddiau' dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ymysg yr esiamplau a welwyd yn ystod y gwaith maes roedd un sefydliad a oedd wedi cynyddu ei ddarpariaeth o ran sesiynau taro-heibio digidol ar draws dwy sir. Nododd awdurdod lleol arall ei fod wedi sefydlu tîm cyswllt lles er mwyn helpu pobl, ac yn

³⁶ Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd

³⁷ Y ddau arall oedd cyflogaeth a menter, ac iechyd a lles.

enwedig pobl o grwpiau sydd dan anfantais, i gyflwyno'u ceisiadau am y Credyd Cynhwysol ar-lein.

- 6.15 Mewn achos arall, dywedodd sefydliad tai a oedd wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar, bod ganddo amcan allweddol o osod cynhwysiant digidol wrth galon dull mwy holistig o fynd ati i gynorthwyo'r gymuned:

'[Rydyn ni] wedi bod yn flaengar iawn yn nhermau gweld beth sydd ar y gorwel yn nhermau'r diwygiadau lles a'r chwyldro digidol. Ein cenhadaeth ni yw helpu tenantiaid i ffeindio'u ffordd trwy'r newidiadau hyn, a bachu ar y cyfleoedd y mae'r digidol yn eu cynnig'.

- 6.16 Dywedodd o leiaf dau awdurdod lleol eu bod wedi ailstrwythuro neu ail-frandio eu darpariaeth mewn ymateb i'r galw cynyddol am gymorth digidol yn sgil y diwygiadau lles a chyflwyniad y Credyd Cynhwysol ar-lein.

- 6.17 Pwysleisiodd ambell i sefydliad partner, ac yn arbennig y cymdeithasau tai, y bu ganddynt gysylltiadau blaenorol helaeth â chynhwysiant digidol cyn CDC. Yn un o'r achosion hyn, roedd y Gymdeithas Dai wedi cael cyllid y Loteri Fawr i gyflawni prosiect dysgu digidol aml-genhedlaeth, ac roedd sefydliad arall wedi cyrchu cyllid y Loteri Fawr i gyflawni mentrau cynhwysiant digidol er mwyn helpu pobl â namau ar y synhwyrâu ledled y DU i fynd ar-lein. Yn wir, yn yr achos yma, priodolodd cynrychiolydd o'r sefydliad eu llwyddiant wrth ddiogelu 20 y cant o gyllid cyffredinol y Loteri Fawr i Gymru i arbrofi â'r prosiect yn rhan o Gymunedau 2.0 i raddau helaeth.

Cymhelliant sefydliadau partner dros ddod i gysylltiad â CDC

- 6.18 Soniodd y sefydliadau partner am amrywiaeth o ffactorau a oedd wedi peri iddynt ddod i gysylltiad â CDC. Roedd rhai o'r rhain yn gysylltiedig â'r cymorth y gallai'r prosiect ei gynnig iddynt (e.e. hyfforddiant, offer ac ati) tra bod eraill yn cael eu gyrru'n bennaf gan ffactorau allanol e.e. eu hangen i fodloni'r galw cynyddol gan gleientiaid neu gymunedau.
- 6.19 Y ffactor mwyaf cyffredin yn yr ymatebion oedd y diwygiadau lles ar-lein, a chyflwyniad y Credyd Cynhwysol, ac ystyriwyd bod hyn yn cael effaith sylweddol ar denantiaid a defnyddwyr cymdeithasau tai a gwasanaethau awdurdodau lleol. Ynghlwm wrth hyn, nododd nifer o sefydliadau partner bod eu harferion eu hunain

yn symud mwyfwy tuag at fod ar gael ar lein, a bod ar gleientiaid angen cymorth er mwyn iddynt allu eu cyrchu. Ychwanegodd un o'r cynrychiolwyr hyn:

'Gyda'r ffordd y mae pethau'n mynd, mae ein holl ffurflenni, hyd yn oed y Gofrestr Tai, oll ar lein erbyn hyn.'

6.20 O ganlyniad, cyfeiriodd nifer o sefydliadau partner at 'angen' neu 'alw' cynyddol gan gleientiaid am gymorth cynhwysiant digidol er mwyn cynorthwyo defnyddwyr eu gwasanaethau i fyw'n fwy annibynnol, neu yn rhan o ymdrechion ehangach i leihau effeithiau tlodi. Yn wir, pwysleisiodd sawl un o'r cyfranwyr y berthynas rhwng y ddarpariaeth o ran cynhwysiant ariannol a chynhwysiant digidol.

6.21 Roedd nifer sylweddol o'r sefydliadau partner o'r farn y byddai arbenigedd CDC yn helpu i gryfhau statws eu sefydliadau nhw eu hunain fel darparwyr cymorth cynhwysiant digidol, fel y mae'r esiamplau canlynol yn ei ddangos:

'Mae gennym ni'r arbenigedd o ran colli clyw, ond nid oes gennym ni'r arbenigedd o ran cynhwysiant digidol. Roedd angen cymorth arnom gyda hynny.'

'Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i'n tîm fod â dealltwriaeth gadarnach am gynhwysiant digidol yn rhan o'u cylch gorchwyl wrth ymgysylltu cymunedau.'

6.22 Peth pwysig arall a'u denodd oedd y cynnig o gael offer digidol: roedd sawl un o'r sefydliadau partner yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn, er enghraifft:

'Rydyn ni'n chwilio bob amser am gyllid a chynlluniau sy'n gallu ein cynorthwyo ni i ddarparu ein gwasanaethau'n well.'

6.23 At hynny, roedd llond llaw o sefydliadau partner wedi cael eu denu at argaeledd hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr: mewn un achos o'r fath, roedd cynrychiolydd o'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ymwybodol iawn bod aelodau staff hŷn yn disgyn ar ei hôl hi yn nhermau eu sgiliau TGCh a digidol, er bod y galw o du defnyddwyr y llyfrgelloedd i gyrchu cymorth ar y materion hyn yn cynyddu. Mewn sefydliad arall, nododd cynrychiolydd:

'Mae gofyn i staff llyfrgelloedd gyflawni pob math o bethau heddiw, felly roedd hyfforddiant digidol penodedig wastad yn mynd i fod yn ddefnyddiol dros ben'.

6.24 Roedd eraill yn awyddus i efelychu llwyddiant prosiectau cynhwysiant digidol yr oeddent wedi bod ynghlwm wrthynt o'r blaen, neu a oedd wedi cael eu cyflawni o

dan Gymunedau 2.0 (roedd yr RNIB yn un esiampl). Yn achos un sefydliad partner, nodwyd eu bod wedi bod yn awyddus i ail-ymgysylltu â'r rhaglen olynol am fod:

'Sesiynau Cymunedau 2.0 wedi bod yn boblogaidd dros ben. Roedd rhestr aros gennym ar gyfer y rhain.

- 6.25 Nododd ambell i sefydliad partner ychydig o resymau penodol eraill dros ddod i gysylltiad â CDC . Er enghraifft, nododd un sefydliad partner ei fod â'i fryd ar ddatblygu dulliau effeithiol o ymgysylltu aelodau oedrannus o'r gymuned, a'u bod wedi ystyried cynhwysiant digidol fel 'dolen' effeithiol i ymgysylltu pobl sydd wedi ymddeol ac sy'n dysgu Cymraeg yn y sir.

Natur y ddarpariaeth a gyrchwyd

- 6.26 Gellir rhannu natur y cymorth a gyrchwyd trwy CDC yn fras yn bum maes allweddol, a thrafodir pob un o'r rhain yn eu tro:
- Mynediad i hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
 - Helpu i ddatblygu Cynlluniau Gwella Ymgysylltiad â Chynhwysiant Digidol (DIEIP) a llofnodi'r Siarter Cynhwysiant Digidol
 - Mynediad i offer TG
 - Cymorth i weithio mewn partneriaeth
 - Cymorth gyda gwirfoddoli.
- 6.27 Mae hi'n werth nodi o'r cychwyn, bod cysylltiad tua dwsin o'r sefydliadau partner wedi bod yn gyfyngedig i'r elfen hyfforddiant digidol yn unig. Cafodd hyn ddylanwad pwysig ar eu canfyddiad o'r rhaglen, i'r graddau eu bod yn teimlo taw mater o ddarparu hyfforddiant yn unig oedd CDC.
- 6.28 Dim ond pedwar sefydliad partner a ddisgrifiodd eu cysylltiad â CDC fel un cyfyngedig iawn. Mewn un achos, roedd y sefydliad partner wedi bod yn aflwyddiannus yn ei gais am offer gan CDC. Yn sgil hynny, roedd y sefydliad hwn wedi dod i'r casgliad bod angen iddo flaenoriaethu ei bresenoldeb digidol (e.e. gwella ei wefan) cyn y gallai ystyried datblygu strategaeth cynhwysiant digidol a oedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo gwirfoddolwyr a defnyddwyr ei wasanaethau. Mewn achos arall, nid oedd y cyfranogwr yn cofio rhyw lawer am y cymorth a

gafwyd (er bod cofnodion Canolfan Cydweithredol Cymru'n dangos bod pedwar aelod o staff y rheng flaen wedi cymryd rhan mewn Hyfforddiant Hyrwyddwyr Digidol yn 2015).

Offer

- 6.29 Dywedodd o leiaf 13 o sefydliadau partner eu bod wedi cyrchu offer TG trwy'r rhaglen CDC. Roedd pedwar sefydliad partner pellach yn cofio gwneud cais am yr offer - bu tri o'r rhain yn aflwyddiannus, ac roedd un yn aros i glywed am ganlyniad y broses adeg cyflawni'r gwaith maes. Roedd y sefydliadau partner a ddewisodd beidio â gwneud cais am offer (e.e. JCP) yn teimlo bod ganddynt offer TG priodol ar gyfer eu cleientiaid eisoes - yn wir, dywedodd un o'r sefydliadau partner hyn, er y cynigiwyd offer TG etifeddol iddynt trwy'r rhaglen, nad oedd eu hangen:

'Byddai'r donglau wedi bod yn dda, ond yn nhermau gweddill yr offer, roedd yr offer yr oedd gennym ni'n fwy diweddar na'r offer oedd ganddynt i'w gynnig.'

- 6.30 Ar y cyfan, barn y sefydliadau partner oedd bod y broses o wneud cais am offer TG wedi bod yn rhesymol, er i un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus ddweud y byddai wedi croesawu ychydig o adborth i esbonio pam na chymeradwywyd y cais.
- 6.31 Nododd y sefydliadau partner a oedd wedi cyrchu'r offer TG yn rhan o raglen CDC eu bod yn defnyddio'r offer mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn ambell i achos, roedd y ffaith fod offer ychwanegol ar gael yn caniatáu i'r staff ddarparu gwasanaethau ar gyfer cleientiaid mewn ffordd fwy hyblyg, a hynny'n aml ar ffurf allgymorth. Er enghraifft, dywedodd un sefydliad partner a oedd yn cynorthwyo cymunedau BME y gallai staff gyflawni ymgynghoriadau gyda chleientiaid mewn rhannau eraill o'r adeilad bellach (o ystyried y cyfyngiadau ar le yn ei swyddfeydd), a dywedodd un gymdeithas dai ei bod yn gallu darparu mwy o wasanaethau allgymorth ar gyfer tenantiaid. Yn yr achos yma, roedd Ymgynghorwyr Budd-daliadau'n defnyddio iPads CDC i ddangos i'r tenantiaid sut i gofrestru ar gyfer gwasanaethau ar-lein a'u cyrchu, fel bancio ar-lein. Mewn dau achos arall, roedd y sefydliadau'n gallu darparu mwy o waith allgymorth digidol ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau, ac roedd un o'r rhain yn defnyddio'r offer i ddarparu rhywfaint o'i ddarpariaeth 'Money Matters' - sydd eto'n esiampol ymarferol o'r gorgyffwrdd rhwng cynhwysiant ariannol a digidol.

6.32 Cododd y sefydliadau partner dau brif fater mewn perthynas ag offer CDC. Roedd y naill fater yn ymwneud â'r defnydd anghyson o'r offer ymysg staff (y sefydliadau partner). Dywedodd un sefydliad o'r fath, er bod rhai o'i adrannau'n gwneud defnydd da o offer CDC, nid oedd eraill yr un mor effeithiol yn eu defnydd. Roedd y llall yn ymwneud â diffyg galw ymysg defnyddwyr gwasanaethau i alluogi'r sefydliadau partner i fanteisio i'r eithaf er eu defnydd o'r offer. Mae profiad un tîm llyfrgell yn darlunio'r mater yma'n glir: yn yr achos hwn, y bwriad oedd bod yr offer yn cael ei ddefnyddio gan dîm gwasanaethau llyfrgell cymunedol i ymgysylltu cwsmeriaid y llyfrgelloedd sy'n gaeth i'w cartrefi (gan ddisodli'r gwasanaeth llyfrgell symudol i bob pwrpas). Roedd y tîm yn defnyddio cyfrifiaduron llechen er mwyn caniatáu i gwsmeriaid bori trwy gatalog y llyfrgell gartref, a gwneud cais i gludo llyfrau i'w cartrefi. Fodd bynnag, mae'r cwsmeriaid wedi bod yn gyndyn i ymgysylltu â'r gwasanaeth yma am fod yn well ganddynt y gwasanaeth faniau llyfrgell symudol.

Hyfforddiant ar gyfer staff a gwirfoddolwyr

6.33 Dywedodd tua 30 o sefydliadau partner eu bod wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddiant ar gynhwysiant digidol a ddarparwyd yn rhan o raglen CDC. Dyma'r math mwyaf poblogaidd o gymorth a gyrchwyd. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, staff y rheng flaen a fanteisiodd ar yr hyfforddiant, er bod yna sawl enghraifft lle'r oedd gwirfoddolwyr wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant hefyd. Roedd profiadau'r ddau sefydliad o'r trydydd sector, lle'r oedd 20 a phump o wirfoddolwyr, yn y drefn honno, wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr Digidol, yn weddol unigryw yn y cyswllt hwn.

6.34 Yn y mwyafrif o achosion, nododd sefydliadau partner fod staff y rheng flaen wedi mynychu cwrs hyfforddi deuddydd ar gyfer Hyrwyddwyr Digidol. Nododd nifer fawr o sefydliadau partner hefyd bod eu staff (a gwirfoddolwyr mewn nifer fwy cyfyngedig o achosion) wedi mynychu cyrsiau byrrach eraill, a'r rheiny'n aml yn gyrsiau undydd.

6.35 Roedd yr hyfforddiant a gyrchwyd yn cwmpasu amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol, a'r mwyaf cyffredin a enwyd oedd:

- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a rhoi e-bost ar waith
- Cyrchu gwasanaethau ar-lein
- Arbed arian ar lein

- Bancio a siopa ar lein
- Apiau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â materion iechyd ac ariannol
- Diogelwch ar lein
- E-lywodraeth, gan gynnwys chwilio am swyddi a chyrchu gwybodaeth lles
- E-hygyrchedd

- 6.36 Dangosodd canfyddiadau'r arolwg ar y we, a gyflawnwyd gyda'r unigolion a oedd wedi dilyn hyfforddiant, taw'r modiwlau CDC a fynychwyd amlaf oedd y rhai a oedd yn cynorthwyo pobl i fynd ar lein (40 o'r 111 o ymatebwyr) a'r cwrs deuddydd i Hyrwyddwyr Digidol (29 o 111 o ymatebwyr).
- 6.37 Roedd yr adborth ar yr hyfforddiant a gafwyd yn arbennig o gadarnhaol, a'r teimlad oedd bod y gwaith cychwynnol yr oedd staff CDC wedi ei gyflawni i asesu anghenion a gofynion yr hyfforddeion cyn darparu'r hyfforddiant yn ffactor allweddol yn hynny o beth. Fel y dywedodd dau gyfranogwr o'r sefydliadau partner:
- ‘Gwnaeth y ffaith ein bod ni wedi eistedd i lawr i drafod yn gyntaf y peth yn fwy perthnasol. Nid mater o beth oedd ar gael mohoni. Cafodd y cyfan ei deilwra at beth oedd ei hangen arnom.’
- ‘Mae'r hyfforddiant wedi bod yn berthnasol iawn am y cafodd ei baratoi'n bwrpasol ar ein cyfer ni. Roedd aelodau o staff yn poeni am y Credyd Cynhwysol ar y pryd. Darparodd CDC restr o wahanol bynciau, a chawsom ni ddewis beth yr oeddem am iddynt ei drafod yn rhan o'r hyfforddiant.’
- 6.38 Cadarnhaodd yr arolwg ar y we bod y mwyafrif o'r hyfforddeion a gymerodd rhan yn teimlo bod y modiwlau naill ai wedi bod yn weddol berthnasol, neu'n berthnasol iawn iddyn nhw ac i'w gwaith. Roedd y cyfrannau yn hyn o beth yn amrywio o 72 y cant yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar y modiwl 'awgrymiadau ac offer i arbed arian', i 100 y cant yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar y modiwl 'y cyfryngau cymdeithasol ac apiau chwilota'.
- 6.39 Roedd bron pob un o'r cyfranwyr o'r farn bod yr hyfforddiant a gyrchwyd o ansawdd da, a'i fod yn briodol ac yn ddefnyddiol i'r bobl a oedd wedi ei fynychu. Ymysg y sylwadau a wnaed roedd:

'Roedd hi wir yn agoriad llygad o sesiwn a dweud y gwir'.

'Gwnaeth hi [cynrychiolydd y CDC] yr hyfforddiant yn fwy diddorol o lawer nag y byddwn i wedi ei ddisgwyl. Gallwch ddweud o ymateb y rhai sy'n derbyn yr hyfforddiant eu bod wir wedi mwynhau'r sesiynau, a'u bod wedi cael rhywbeth allan ohonynt.'

'Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn - maen nhw'n gallu esbonio cymaint yn fwy nag yr oeddem ni eisoes yn credu ein bod ni'n ei wybod. Roedd hi'n dda iawn, ac yn trafod yr holl hanfodion. Ar y foment, nid oes unrhyw ddefnydd i'r peth, ond fe fydd e mor berthnasol cyn bo hir, a byddwn ni'n gwybod beth i'w wneud. Rydyn ni'n aros am yr ergyd!'

'Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn. Cawsom ni lawer o wybodaeth am y Credyd Cynhwysol a Jobmatch er enghraifft'.

'Roedd yr hyfforddiant ei hun yn fendigedig. Roedd ffordd y cafodd ei gyflwyno'n fendigedig. Roedd y Tiwtor yn frwdfrydig iawn, yn adeiladol ac yn galonogol'.

'Roedd yr hyfforddwr yn grêt, ac er bod sawl aelod o'r tîm yn eithaf profiadol, daethon ni i gyd i ffwrdd wedi dysgu rhywbeth newydd'.

'Roedd y Tiwtor yn fendigedig, ac fe fwynheais i'r cwrs yn fawr iawn. Fe drafodon ni'r hanfodion - defnyddio'r rhyngwyd, apiau, sut i ddefnyddio'r bar offer. Roedd hi'n grêt'.

- 6.40 Cadarnhaodd yr arolwg ar y we o'r bobl a gymerodd ran yn yr hyfforddiant bod y rhan fwyaf o'r bobl a fynychodd hyfforddiant CDC yn teimlo bod y cyrsiau wedi bod yn ddefnyddiol.
- 6.41 Myfyriodd y cyfranogwyr o'r sefydliadau partner ar beth roedden nhw wedi ei ddysgu, a'r wybodaeth yr oeddent wedi ei gael o'r sesiynau hyfforddiant. Nododd sawl cyfrannwr bod yr hyfforddiant wedi eu cynorthwyo i gamu nôl a myfyrio ar yr holl jargon a oedd yn cael ei ddefnyddio gyda defnyddwyr y gwasanaethau. Nododd eraill bod yr hyfforddiant wedi eu cynorthwyo i ddeall canfyddiadau grwpiau amrywiol am TG a'r rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â thechnoleg ddigidol. Yn wir, nododd sawl un bod hyfforddiant CDC wedi mynd â nhw 'nôl at yr hanfodion' a'i fod yn canolbwyntio ar ganfyddiadau sylfaenol pobl am

TG a'r dechnoleg ddigidol, a'r farn oedd bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol. Yn ogystal, roedd yna deimlad bod yr hyfforddiant wedi canolbwyntio ar y materion ymarferol yr oedd defnyddwyr gwasanaethau yn eu hwynebu ar y pryd, gan gynnwys ymgyswrtu â'r Credyd Cynhwysol neu chwilio am swyddi ar-lein, er enghraifft.

6.42 Ymysg y sylwadau a wnaed roedd:

'Mae'r hyfforddiant rydyn ni wedi ei gael yn y gorffennol wedi tueddu i ddelio â sgiliau sylfaenol iawn, fel sut i ddefnyddio llygoden. Roedd sesiynau CDC yn fwy ymarferol ac yn delio â'r mathau o faterion y mae llawer o'n cleientiaid yn gofyn amdanynt'.

6.43 Roedd lleiafrif o'r sefydliadau partner yn fwy beirniadol o'r hyfforddiant a gawsant trwy CDC. Yn achos un sefydliad o'r fath, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod nad oedd yr hyfforddwr wedi paratoi'n ddigonol i ddarparu cwrs hyfforddi'r hyfforddwyr, a phriodolwyd hyn i ddiffyg gwaith ymchwil a pharatoi ar ran CDC. Yn ogystal, nid oedd y sefydliad hwn wedi cael hyfforddiant ar y testun yr oeddent wedi gofyn amdano yn ystod y cyfarfod pennu cwrpas gyda staff CDC.

6.44 Er bod sefydliad partner arall wedi mynegi safbwynt bod yr hyfforddiant wedi bod yn rhagorol, roedd yn teimlo y gallai fod wedi elwa ar gymorth manylach am Universal Jobmatch. Yn yr un modd, roedd trydydd sefydliad partner yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi trafod gwybodaeth a sgiliau yr oedd gan y staff eisoes: 'roedd yr hyfforddiant yn dda, ond ni thorrodd dir newydd i ni'.

6.45 Un peth a berodd siom i nifer fechan o sefydliadau partner oedd y canfyddiad eu bod wedi gorfod aros amser hir i gael achrediad am yr hyfforddiant - yn un achos, nodwyd nad oedd y staff yn ymwybodol eto a oeddent wedi llwyddo neu wedi methu ar y cwrs. Mynegodd ambell un eu siom na fu modd iddynt gyrchu neu lawrlwytho llyfrau gwaith yr hyfforddiant ar ôl mynychu'r cyrsiau - ac yn un achos, teimlwyd bod hyn wedi cadw'r sefydliad rhag chwarae rhan bellach yn yr hyfforddiant sydd ar gael.

6.46 O ran y sefydliadau partner hynny nad oeddent wedi dod i gysylltiad â'r rhaglen CDC heblaw trwy'r hyfforddiant, nid oedd yn anghyffredin clywed y byddent wedi

croesawu rhywfaint o gysylltiad dilynol i glywed am y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael iddynt trwy'r rhaglen. Dywedodd un o'r sefydliadau partner hyn:

'Rydych chi'n sôn am y Rhaglen... roeddwn i'n meddwl taw dim ond yr hyfforddiant oedd hi a bod yn onest. Dwy sesiwn hyfforddiant. Dyna beth oedd Cymunedau Digidol Cymru i ni. '.

6.47 Roedd canfyddiadau ein gwaith arsylwi gyda chysuriau CDC yn gyson â rhai'r sefydliadau partner i raddau helaeth, a cheir crynodeb o'r rhain isod:

- Roedd pob un o'r tri chwrs wedi cael eu cynllunio'n dda, a chawsant eu cyflwyno'n dda. Rhoddwyd esboniadau clir am beth yw cynhwysiant digidol, beth y mae'n ei olygu a pham fod angen amdano.
- Hyfforddwyr profiadol, gwybodus a phroffesiynol oedd yn cyflwyno'r cysuriau ac roeddent yn cynnig lefel briodol o weithgareddau rhyngweithiol ar gyfer cyfranogwyr.
- Sbardunodd cynnwys y cwrs drafodaeth dda ymhlith y cyfranogwyr, gan gynnwys syniadau ymarferol ac adeiladol i chwalu rhwystrau er mwyn helpu pobl i gael eu hymgysylltu'n ddigidol.
- Roedd hi'n glir o sylwadau'r cyfranogwyr eu bod yn gweld perthnasedd a gwerth posibl yr hyfforddiant a'r apiau cysylltiedig i'w gwaith pob dydd. Roedd yr hyfforddwyr yn rhannu awgrymiadau a chynigion defnyddiol hefyd (e.e. ar gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio gwefan Universal JobMatch DWP).
- Cyflwynwyd yr opsiwn o geisio achrediad mewn ffordd briodol (ynghyd â'r tasgau cysylltiedig) heb effeithio ar gynnwys a llif yr hyfforddiant ei hun. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer y bobl hynny a oedd am fynd ar drywydd achrediad yn glir ac yn hawdd eu deall.
- Heriodd un o'r grwpiau a arsylwyd agweddau ar gynhwysiant digidol a'i werth canfyddedig. Ymatebodd yr hyfforddwr i'r materion a godwyd mewn ffordd adeiladol.
- Roedd y weminar yn hawdd ymgysylltu â hi, ac fe'i cyflwynwyd gan ddau hyfforddwr - y naill yn cyflwyno'r hyfforddiant a'r llall yn ymateb i'r nodiadau a'r

sylwadau a oedd yn cael eu cyflwyno trwy'r 'blychau sgwrsio' wrth i'r hyfforddiant fynd yn ei flaen.

- Darparwyd yr hyfforddiant mewn ffordd niwtral o ran technoleg yn unol ag amcanion Fframwaith y Strategaeth Cynhwysiant Digidol i Gymru h.y. roedd y sgiliau a'r wybodaeth a oedd yn cael eu cyfleu yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd pwrpasol (e.e. er mwyn helpu i gyrchu gwaith neu gyrchu gwasanaethau) dim ots pa fath o dechnoleg neu ddyfais oedd o dan sylw.

DIEIPs a'r Siarter Cynhwysiant Digidol

- 6.48 Er bod yna wybodaeth fonitro sy'n dangos bod o leiaf 23 o'r sefydliadau partner yn ein sampl wedi cael Cynllun Gwella Ymgysylltiad Cynhwysiant Digidol (DIEIP), ychydig iawn o'r sefydliadau partner a gafodd gyfweiliad oedd yn cofio cael DIEIP neu lofnodi'r Siarter Cynhwysiant Digidol yn rhan o raglen CDC.
- 6.49 Dim ond saith o'r sefydliadau partner y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw (14 y cant) oedd yn gallu cofio gweithio gyda'u swyddog CDC i ddatblygu DIEIP, ac roedd un yn y broses o ddatblygu cynllun adeg cyflawni'r gwaith maes. Roedd saith sefydliad wedi llofnodi'r Siarter Ddigidol, ac roedd gan un sefydliad pellach ddiddordeb gwneud hynny adeg cyflawni'n gwaith maes. Nid yw'n syndod bod nifer lai o'r sefydliadau partner wedi llofnodi'r Siarter, am na chafodd ei chyflwyno tan Chwefror 2016 - cwta ychydig fisoedd cyn cyflawni gwaith maes y gwerthusiad.
- 6.50 O'r rhai a oedd yn cofio cael DIEIP, cymysg oedd yr adborth ar y broses a gwerth y DIEIP. Ar y cyfan, cwpwl yn unig o'r sefydliadau partner a oedd o'r farn bod y llunio DIEIP wedi bod yn ymarfer defnyddiol a'u bod wedi gwneud cynnydd ers ei ddatblygu. Nododd un o'r sefydliadu partner hyn bod yr ymarfer hwn wedi darparu:
- 'Digon i gnoi cil drosto, a sbardunodd drafod mawr am y meysydd y gallem ymchwilio iddynt'.
- 6.51 Roedd eraill yn dueddol o ddadlau bod proses y DIEIP wedi bod yn llawysgafn iawn, nad oedd wedi cael ei gwblhau'n llwyr a'i bod, ar y cyfan, yn gyfyngedig o ran ei defnydd i'r sefydliad. Er enghraifft, roedd un sefydliad partner yn cofio cael trafodaethau cychwynnol gydag ymgynghorydd CDC am y DIEIP, ond roedd yn teimlo nad oedd wedi cael ei ddefnyddio nac wedi cyflawni ei botensial:

'Rwy'n credu bod cynllun gennym yn rhywle. Dwi ddim yn credu ei fod wedi cael ei gwblhau'.

6.52 Mewn achos arall, dywedodd cyfranogwr o sefydliad partner fod trafodaeth wedi bod ar y DIEIP mewn cyfarfod gyda swyddog CDC, ond nad oedd yn cofio a oedd unrhyw beth wedi deillio o'r peth, a dywedodd nad oedd y sefydliad wedi ei ledaenu na'i ddefnyddio mewn unrhyw ffordd.

6.53 Ymysg y sefydliadau partner a ddywedodd nad oeddent wedi cael DIEIP, ychydig iawn o ymwybyddiaeth oedd yna fod y rhaglen yn cynnig cymorth o'r math yma. O ganlyniad, awgrymodd ambell i sefydliad partner y gallai CDC wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu am y rhan yma o'r ddarpariaeth gyffredinol.

6.54 Dywedodd un o'r sefydliadau a gofnodwyd ar y gronfa ddata fel un a oedd wedi cael DIEIP:

'Cawsom ni gyfarfod gyda [enw cynrychiolydd CDC] ond daeth dim byd o'r peth ... Roedd y cysylltiad nesaf yn ymwneud â'r hyfforddiant, ac fe dybiais i fod hyn yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi, ac y byddai'n cysylltu eto, ond chlywais i ddim byd.'

6.55 Mewn dau achos, nid oedd y bobl y cyfwelwyd â nhw o'r sampl o 50 o sefydliadau partner yn cofio gweld eu DIEIP cyn i aelod o'r tîm gwerthuso gyflwyno copi iddynt yn ystod y cyfweiliad. Ar ôl adolygu cynnwys y cynllun yn ystod y cyfweiliad, cododd y cyfranogwyr hyn gwestiynau am werth y ddogfen, ac mewn un achos, gwnaed sylwadau bod y camau a awgrymwyd:

'Mwy neu lai'n union yr un fath â'r hyn a ddywedasom yn ein papur strategaeth ymadael â Chymunedau 2.0'.

6.56 Mae ein hadolygiad ni ein hunain o'r DIEIPs a gynhyrchwyd gan staff CDC (sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau partner yn ein sampl) yn awgrymu, er bod y penawdau a'r adrannau yn y templed yn briodol, bod ansawdd a lefel cyflawnder y cynlluniau a gynhyrchwyd yn amrywio, a'u bod yn wan ar y cyfan. Ein hasesiad ni o'r DIEIPs cyflawn yma yw bod rhai wedi cael eu defnyddio fel ceisiadau am offer TG, tra bod eraill wedi canolbwyntio'n unswydd ar gyfeirio sefydliadau at hyfforddiant CDC. Ar y cyfan, ein barn ni yw bod y DIEIPs cyflawn a adolygwyd yn llawysgafn ac nad ydynt yn arbennig o ymestynnol na strategol o ran eu cynnwys. Am hynny, nid ydynt wedi

cyflawni'r rôl a fwriadwyd ar eu cyfer fel 'strategaethau cynhwysiant digidol sefydliad-eang'³⁸ yn ôl yr hyn a bennwyd yng nghynnig Canolfan Cydweithredol Cymru.

- 6.57 Roedd hi'n nodedig hefyd, yn y chweched adroddiad chwarterol a gyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru, bod 89 o sefydliadau partner a oedd 'wedi cael DIEIP wedi ei gwblhau yn unig' wedi cael eu harchwilio yn ystod y chwarter. O ganlyniad i'r gweithgarwch archwilio yma, roedd 60 o sefydliadau partner wedi cael eu 'marcio fel rhai sy'n disgwyl tystiolaeth bellach a'u tynnu o'r targed o dan sylw'³⁹ yn ôl yr adroddiad. Mae'n debyg bod hyn yn cadarnhau canfyddiadau'r gwaith maes, sef nad oedd y DIEIPs ynddynt eu hunain wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth sicrhau newidiadau ehangach, a bod angen cyflawni gweithgarwch pellach (ynghyd â gwelliannau i gynnwys y cynlluniau eu hunain) er mwyn sicrhau canlyniadau mwy strategol ac ystyrlon.
- 6.58 Gyda'r materion hyn mewn golwg, nid yw'n syndod nad oedd sefydliadau partner yn cofio rhyw lawer am eu DIEIPs. Yn ystod ein hymgyngoriadau gyda Llywodraeth Cymru, esboniodd swyddogion yr Uned Cynhwysiant Digidol eu bod eisoes wedi rhoi rhywfaint o adborth i Ganolfan Cydweithredol Cymru am nifer o'r DIEIPs yr oeddent wedi eu gweld/adolygu, gyda golwg ar gryfhau'r rhain yn nhermau eu cwmpas a'u hansawdd.
- 6.59 Esboniodd staff CDC yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru bod y DIEIPs wedi cael croeso cymysg, gan ddadlau, ar gyfer sefydliadau partner mwy (fel awdurdodau lleol), nad oedd y penawdau yn y templed DIEIPs yn 'cyd-fynd' yn dda â'r cymorth yr oedd ei angen arnynt gan y rhaglen mewn gwirionedd. Yn ogystal, esboniodd y staff bod fformat y DIEIP wedi cael ei ddiweddarau yn Hydref 2016 (adeg cwblhau'r gwerthusiad hwn) i gyd-fynd yn well â'r chwe egwyddor a bennwyd yn y Siarter. Y chwe egwyddor a amlinellwyd yn y Siarter⁴⁰ yw:

- (1) Sicrhau bod ein holl staff a'n gwirfoddolwyr yn cael cyfle i ddysgu sgiliau digidol sylfaenol, a'u bod yn manteisio ar y cyfle hwn.

³⁸ Cynnig Canolfan Cydweithredol Cymru. Maes 5. Para 98, Tudalen 21.

³⁹ Chweched Adroddiad Diweddarau Chwarterol CDC. Tudalen 2.

⁴⁰ Gweler: <http://digitalcommunities.gov.wales/>

- (2) Sicrhau bod ein hegwyddorion cynhwysiant digidol yn rhan annatod o'n gweithgareddau dydd i ddydd.
- (3) Annog a helpu ein staff a'n gwirfoddolwyr i helpu pobl eraill i fynd ar-lein a magu hyder i feithrin sgiliau digidol sylfaenol, a helpu mudiadau eraill i groesawu'r cyfle i ddefnyddio offer digidol.
- (4) Neilltuo cymorth ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau a chynlluniau cynhwysiant digidol yng Nghymru ym mha bynnag ffordd y gallwn.
- (5) Rhannu'r gweithgareddau a'r arferion gorau sydd i'w gweld ym maes cynhwysiant digidol gyda Chymunedau Digidol Cymru er mwyn gallu cydlynu ein gweithgareddau fel eu bod yn cael yr effaith orau ac yn cael eu mesur yn gyson.
- (6) Ceisio sefydlu partneriaethau lleol ymysg mudiadau sydd eisiau rhannu syniadau a chydlynu gweithgareddau gydag eraill yn eu hardal.

- 6.60 Darparodd staff Canolfan Cydweithredol Cymru esiamplau o'r DIEIP cyflawn a gwblhawyd yn fwy diweddar ar ein cyfer yn ddiweddarach, a'n hasesiad ni o'r rhain oedd eu bod yn fwy cynhwysfawr ac ymestynnol, eu bod o ansawdd uwch, a'u bod yn darparu rhywbeth agosach o lawer at strategaeth sefydliad-eang ar gyfer y sefydliadau o dan sylw yn unol â'r bwriad.
- 6.61 Mae hi'n galonogol bod staff CDC yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru wedi bod wrthi'n adolygu ac yn gwella proses y DIEIP yn barhaus. Ein hasesiad ni yw y dylai'r DIEIPs for yn gonglfaen ar gyfer ymyrraeth y CDC, ac y dylent ddarparu cynnyrch etifeddol ar gyfer y sefydliadau partner gan roi cyfeiriad strategol a syniadau ymarferol iddynt am gynhwysiant digidol y tu hwnt i'r pecynnau hyfforddi sydd ar gael trwy'r rhaglen ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, dylai sicrhau mwy o gysondeb yn y dull o fynd ati, yn ogystal â gwella manylder ac ansawdd y DIEIPs, fod yn flaenoriaeth allweddol. Rhan allweddol o'r broses hon fydd sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r profiad priodol.

- 6.62 Yn nhermau'r Siarter Ddigidol, er bod ymwybyddiaeth yn isel ymysg ein sefydliadau partner ar hyn o bryd, a hynny am resymau digon dealladwy, roedd dros 150 o sefydliadau wedi llofnodi'r Siarter (erbyn Hydref 2016) sy'n galonogol ⁴¹.
- 6.63 Yn ôl y rhanddeiliaid strategol yr ymgynghorwyd â nhw yn rhan o'r gwerthusiad, er y bu cyflwyniad y Siarter yn gam cadarnhaol i'w groesawu i raddau helaeth, dylid edrych arni fel rhywbeth sy'n cydategu proses y DIEIP yn hytrach nac fel rhywbeth sy'n cymryd ei lle. Wedi dweud hynny, dadl un rhanddeiliad oedd bod y Siarter wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i rai o'r cymdeithasau tai, a'i bod wedi 'helpu i reaedru dealltwriaeth i lawr ac ar draws sefydliadau' gan osod sylfaen ar gyfer 'ymgyrchu a lloïo' am ddyrannu adnoddau er mwyn cynorthwyo gweithgarwch cynhwysiant digidol yn y sector cartrefi cyhoeddus.

Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth

- 6.64 Mae adborth gan sefydliadau partner yn awgrymu bod CDC wedi chwarae rhan allweddol wrth sbarduno, sefydlu (ac mewn ambell i achos, ailfywiogi) partneriaethau cynhwysiant digidol ar lefel sirol. Yn benodol, ystyriwyd bod y rhaglen wedi bod yn sbardun hanfodol wrth sefydlu a chynnal partneriaethau 'mynd ar-lein', a'i bod wedi ychwanegu gwerth at waith y partneriaethau hyn trwy ddatblygu cylch gorchwyl, trefnu a chadeirio cyfarfodydd, darparu gwybodaeth a diweddariadau, rhannu arferion da, helpu i gyflawni gwaith mapio gyda'r amcan o glustnodi bylchau a meysydd lle mae dyblygu'n digwydd, a chynorthwyo partneriaethau i ystyried cyfleoedd ariannu posibl.
- 6.65 Pwysleisiodd cynrychiolwyr y sefydliadau partner bod CDC wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod y bobl gywir yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth - gan ychwanegu mewn ambell i achos bod eu cysylltiad eu hunain â'u partneriaeth leol wedi deillio'n uniongyrchol o gysylltiad â'r CDC. Yn achos un o'r partneriaethau hyn, dywedodd cynrychiolydd y sefydliad partner bod y bartneriaeth wedi cael ei hadsefydlu trwy raglen CDC, a'i bod wedi chwarae rôl hanfodol wrth helpu i gyflawni hyn:

⁴¹Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

‘Mae [enw cynrychiolydd CDC] wedi bod yn rhagorol wrth gadeirio cyfarfodydd ac wrth ddod â'r partneriaid at ei gilydd o gwmpas y bwrdd. Mae gweithio mewn partneriaeth yn elfen allweddol o'n gwaith.’

- 6.66 Ar y cyfan roedd y sefydliadau partner yn gadarnhaol hefyd ynghylch gwaith y partneriaethau digidol yr oeddent wedi eu mynychu. Dyfynnwyd ambell i esiampïlle'r oedd yna deimlad bod gweithio mewn partneriaeth wedi sbarduno trafodaethau a datblygiadau fel clustnodi bylchau yn y ddarpariaeth cynhwysiant digidol yn lleol, ac roedd hyn wedi arwain at gyflwyno darpariaeth newydd/ychwanegol mewn rhai ardaloedd. Yr unig bryder a gododd y sefydliadau partner oedd natur feichus gorfod mynychu cyfarfodydd partneriaeth lleol i'r sefydliadau hynny oedd â chylch gorchwyl cenedlaethol neu ranbarthol.

Cymorth Gwirfoddol

- 6.67 Mae'r adborth a gafwyd gan sefydliadau partner yn awgrymu taw cymharol gyfyngedig fu rôl CDC wrth ddod o hyd i wirfoddolwyr a'u darparu hyd yn hyn. Ar draws y sefydliadau partner, nifer fechan iawn o enghreifftiau oedd yna lle'r oedd CDC wedi hwyluso cynnydd yn y capasiti o ran gwirfoddolwyr. Mae hyn yn gyson â'r hyn y mae'r wybodaeth fonitro'n ei dangos, sef y gwelwyd 'colledion' sylweddol rhwng recriwtio gwirfoddolwyr a'u defnyddio.
- 6.68 Mynegodd staff CDC ryw faint o rwystredigaeth gyda'r elfen hon, gan ddweud bod yna rwystrau biwrocrataidd yn aml i ddefnyddio gwirfoddolwyr yn effeithlon (e.e. bod angen cydymffurfio â rhai gofynion dilysu) a taw'r rhain oedd i gyfrif am 'y gyfradd uchel o golledion' rhwng recriwtio a diogelu cyfleoedd priodol i ddefnyddio'r gwirfoddolwyr. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod Canolfan Cydweithredol Cymru'n rhagweithiol wrth geisio gosod gwirfoddolwyr, ond ei bod hi'n ddealladwy nad oeddent am gael eu gweld fel eu bod yn 'cecro' ar y sefydliadau partner ac nad oeddent am gael eu llusgo i mewn i gyflawni rôl canolfan gwirfoddolwyr.
- 6.69 Roedd yna dystiolaeth i awgrymu hefyd bod ymwybyddiaeth am yr elfen hon o'r rhaglen yn gyfyngedig, gyda sawl sefydliad partner yn dweud, pe baent wedi bod yn ymwybodol o'r elfen gwirfoddoli, y byddent wedi bod yn awyddus i fynd ar drywydd hynny. Mae hyn eto'n amlygu rhai o'r diffygion ym mhroses y DIEIP, ac yn pwysleisio'r cyfle i gryfhau'r elfen wirfoddoli yn y DIEIP yn y dyfodol.

- 6.70 Er gwaetha'r diffyg tystiolaeth sydd yna'n gyffredinol, yn y lleiafrif o achosion lle gwelwyd lefel ddyfnach o gymorth mewn perthynas â gwirfoddoli, bu effaith hynny'n gadarnhaol.
- 6.71 Er enghraifft, mewn un achos, roedd cynrychiolwyr y sefydliadau partner yn teimlo taw cyfraniad pwysicaf rhaglen CDC oedd y cymorth yr oedd yn ei darparu i recriwtio gwirfoddolwyr ar eu cyfer. Yn yr achos hwn, roedd y sefydliad wedi wynebu sialensiau di-ri wrth recriwtio gwirfoddolwyr profiadol a allai ddarparu cymorth cynhwysiant digidol ar eu rhan, ac iddyn nhw, roedd cymorth y rhaglen yn hynny o beth wedi bod yn 'anhygoel'.
- 6.72 Mewn ail achos, roedd y sefydliad partner wedi troi ac CDC ac wedi esbonio bod arnynt angen nifer o wirfoddolwyr i helpu i ddarparu sesiynau taro-heibio ym maes technoleg mewn llyfrgelloedd yn y sir. Esboniodd y person cyswllt yn y sefydliad partner yma bod CDC wedi darparu rhestr o bum gwirfoddolwr oedd oll yn briodol, a bod tri o'r rhain wedi cyflawni gweithgareddau gwirfoddol ymarferol a rheolaidd gyda'r sefydliad partner yn Ionawr 2016, gan gyflwyno cymysgedd o 'sesiynau taro-heibio gyda theclynnau' a sesiynau Clic Cyntaf mewn gwahanol leoliadau ar draws y sir. Roedd y sefydliad partner penodol yma'n teimlo y buasai wedi bod yn anodd iddynt ddod o hyd i'r gwirfoddolwyr hyn heb gymorth CDC, ac am hynny, eu dadl nhw oedd bod yna dipyn sylweddol o briodoliad uniongyrchol i'r rhaglen.

'Yn wir, rhoddodd hyn ateb i'n problem gyda gwirfoddolwyr i ni ar blât. Roedd gwybod eu bod nhw wedi bod trwy broses gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru yn gyntaf yn rhoi tawelwch meddwl i ni, am ein bod ni'n gwybod bod diddordeb mewn TGCh ganddynt'.

Roedd yna dystiolaeth i awgrymu bod yr elfen wirfoddoli wedi bod yn elfen bwysig o ryngweithio'r rhaglen â'r sector preifat hyd yma hefyd. Er enghraifft, mae'r adroddiadau chwarterol yn dangos y cafwyd trafodaethau gyda BT Cymru o gylch galluogi staff i gael eu rhyddhau i gyflawni gweithgarwch digidol gwirfoddol⁴². Y tu hwnt i hynny, cafwyd trafodaethau am wirfoddoli graddfa fwy gyda chyflogwyr o'r sector cyhoeddus (e.e. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru a Thŷ'r Cwmnïau). O ystyried pwyslais cynyddol Llywodraeth Cymru ar gynnwys

⁴² Ffynhonnell: Yr Adroddiad Chwarterol Cyntaf ar Gynnydd. Tudalennau 9 a 10.

datganiadau budd i'r gymuned mewn prosesau caffael, roedd ein trafodaethau ni gyda'r rhanddeiliaid yn awgrymu y gallai fod yna gyfleoedd i annog mwy o gyflogwyr o'r sector preifat i ymgysylltu â mentrau gwirfoddoli digidol.

Iechyd

- 6.73 Clustnododd sefydliadau partner rhai datblygiadau diddorol ac addawol yng ngwaith y rhaglen CDC hyd yn hyn ar draws y sector iechyd, ac roeddent yn teimlo bod CDC wedi cynorthwyo datblygiad prosiectau arloesol.
- 6.74 Nododd un Bwrdd Iechyd ei fod wedi cael cymorth i gynorthwyo ei ymarferwyr iechyd i ddatblygu ffilmiau 'Meddyg Piced', ac ystyriwyd bod hyn yn ddull arloesol a darbodus o estyn allan at fwy o bobl. Nododd grŵp cymunedol arall bod y rhaglen wedi ei gynorthwyo i sefydlu prosiect 'Fitbit' newydd. Roedd y prosiect eisoes wedi ymgysylltu pum gwirfoddolwr, a'r gobaith oedd y gellid ei ehangu ar draws yr awdurdod lleol i gyd maes o law.
- 6.75 Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod cysylltiad CDC yn y 'gofod iechyd' yn briodol ac yn gyfiawn, a bod ganddo'r potensial i wneud cyfraniad uniongyrchol at nodau'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, cododd dau o'r rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ychydig o amheuaeth ynglŷn â hyn, gyda'r ddau'n mynegi safbwynt bod y sector preifat yn weithgar iawn yn y maes yma, gan gwestiynu a oedd yna ddigon o 'ddiffyg yn y farchnad' i gyfiawnhau ymyrraeth y sector cyhoeddus.

'Dydw i ddim yn hollol argyhoeddedig y gall CDC ychwanegu llawer o werth yn y sector technoleg-iechyd'.

Y Gronfa Llenwi Bwlch

- 6.76 Yn rhan o 'gynnig' CDC, roedd 'cronfa llenwi blwch' fechan (cyllideb o £10,000) ar gael, gyda golwg cychwynnol ar ddefnyddio tiwtoriaid sesiynol dros dro yn ôl yr angen.
- 6.77 Mae adolygiad o'r adroddiadau chwarterol a gyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru'n dangos taw'r bwriad oedd sianelu'r cyllid yma i feysydd categori 'coch', h.y. lle'r oedd gweithgareddau cynhwysiant digidol ar eu lleiaf datblygedig/lle'r oedd angen y cymorth mwyaf.

- 6.78 Nododd y pedwerydd adroddiad chwarterol y dyfarnwyd buddsoddiadau bychain i sbarduno cynhwysiant digidol yng Ngheredigion, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Y bwriad oedd defnyddio'r cyllid yn RhCT a Merthyr i arbrofi gyda rhyngweithio â chleientiaid gan ddefnyddio ap monitro iechyd o'r enw 'Nudjed'⁴³ sy'n cael ei ddefnyddio gan GIG Cymru. Yng Ngheredigion, ariannwyd cynllun peilot bychan chwech wythnos o hyd i ddefnyddio 'technoleg ddigidol y gellir ei gwisgo i fonitro gweithgarwch yr henoed'⁴⁴.
- 6.79 Datgelodd ein hymgyngghoriadau â staff CDC y bu oedi annisgwyl a phroblemau wrth roi pob un o'r tair menter graddfa fechan yma ar waith, gyda Chydlynwyr lleol yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn ceisio datrys y problemau.
- 6.80 Mae'r adborth cynnar gan ddau o'r prosiectau peilot (yn ôl adroddiadau'r chweched adroddiad chwarterol) yn awgrymu bod canfyddiadau diddorol yn dechrau dod i'r amlwg (e.e. sylwodd y bobl a ymgysylltodd â'r ap Nudjed bod eu sgiliau digidol wedi gwella, a bod eu harferion o ran ffitrwydd wedi gwella). Fodd bynnag, oherwydd ailstrwythuro, nid oedd cynllun peilot RhCT wedi cychwyn adeg y gwerthusiad.
- 6.81 Roedd rheolwyr CDC yn teimlo bod angen llawer o adnoddau i roi'r gronfa llenwi bwlch ar waith (yng ngoleuni'r materion a gododd yn y tair ardal beilot) o ystyried faint o gyllid oedd yn cael ei ddyrannu. Am hynny, nid yw'r peth wedi cael ei hybu'n rhagweithiol iawn.

Y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol

- 6.82 Mynegodd rhanddeiliaid y safbwynt fod gwefan CDC yn llawn gwybodaeth, ei bod wedi cael ei dylunio'n dda a'i bod yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau priodol, gan gynnwys astudiaethau achos a chysylltiad â'r Siarter Cynhwysiant Digidol.
- 6.83 Mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru gyfrif Twitter CDC hefyd, ac roedd 3,955 o ddilynwyr gan y cyfrif ar 7 Tachwedd 2016. Yr 'enw Trydar' a ddefnyddir ar gyfer y rhaglen, sef '@DC_Wales' yw'r 15fed ar y rhestr o'r 50 brand mwyaf dylanwadol 'sy'n siarad am gynhwysiant digidol a hygyrchedd yn ôl Onalytica, sef cwmni preifat sy'n arbenigo mewn darparu meddalwedd 'Rheoli Perthnasau Dylanwadwyr'⁴⁵.

⁴³ Gweler: <https://www.nudjed.com/>

⁴⁴ Ffynhonnell: Y Pedwerydd Adroddiad Chwarterol ar Gynnydd.

⁴⁵ Ffynhonnell: <http://www.onalytica.com/blog/posts/digital-inclusion-accessibility-top-100-influencers-brands/>

Adborth ar ansawdd a pherthnasedd

- 6.84 Ar y cyfan, rhoddodd y sefydliadau partner adborth cadarnhaol am eu cysylltiadau â staff ac ymgynghorwyr CDC. Yn benodol, dywedodd sawl un bod gan y sefydliadau partner feddwl mawr o staff CDC, a chawsom sylwadau cyson am lefelau arbenigedd a phroffesiynoliaeth y staff wrth fynd ati i gyflawni eu meysydd gwaith.
- 6.85 Dywedodd llond llaw o sefydliadau partner bod staff CDC wedi rhagori ar eu disgwyliadau, a hynny'n benodol mewn perthynas â'r dulliau hyblyg a fabwysiadwyd i ddarparu cymorth unigol ar gyfer sefydliadau partner. Fodd bynnag, dadleuodd nifer fechan y byddant wedi hoffi cael mwy o amser gyda'u hymgyngorydd a'u bod yn ymwybodol bod yr ymgynghorydd dan bwysau amser.

7. Perfformiad CDC hyd yn hyn

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried perfformiad y rhaglen CDC hyd yn hyn. Mae'n edrych tystiolaeth am berfformiad yn erbyn DPA ac yn ystyried data ariannol mewn perthynas â gwariant ar y rhaglen. Mae mynd ymlaen wedyn i gyflwyno canfyddiadau am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith cyflawni hyd yn hyn.

Monitro Unigolion

- 7.2 Pwynt allweddol i'w nodi yw bod y DPA sy'n ymwneud ag unigolion yn dibynnu ar 'amcangyfrifon' o ran nifer y buddiolwyr o blith defnyddwyr anuniongyrchol y gwasanaethau sy'n elwa ar gymorth sefydliadau partner CDC. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyflawni archwiliadau monitro cyfnodol fel y gellir 'herio niferoedd amheus y buddiolwyr anuniongyrchol, a'u lleihau os oes angen'⁴⁶.
- 7.3 Mae swyddog Monitro CDC wedi mabwysiadu dull gochelgar o fynd ati i gofnodi'r unigolion a gynorthwyir yn anuniongyrchol, gan gynnwys 'ffactora i lawr' nifer yr achosion o ryngweithio digidol er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd rhai unigolion yn cael mwy nag un math o gymorth cynhwysiant digidol⁴⁷.

Asesu Perfformiad

- 7.4 Mae ein dadansoddiad o berfformiad yn seiliedig ar archwiliad o'r wybodaeth a'r data a gyflwynwyd yn y chweched adroddiad chwarterol ar gynnydd, y cyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2016. Roedd adroddiad chwarter chwech yn dangos y perfformiad canlynol:

⁴⁶ Briff technegol Canolfan Cydweithredol Cymru ar y diffiniadu targed a'r gofynion o ran cyngor. Tudalen 1.

⁴⁷ Ibid. Tudalen 1.

Tabl 1: Trosolwg o'r Perfformiad hyd yn hyn

Dangosydd	Targed Ch8	Cyflawnwyd Ch6	Cyflawniad cronol hyd yn hyn	% o'r targed a gyflawnwyd
Sefydliadau a gynorthwywyd	800	151	557	70
Unigolion a ymgysylltwyd yn sgil hyn	30,000	15,113	52,120	174
Unigolion sy'n fwy cyflogadwy	1,000	1,025	3,658	366
Recriwtio gwirfoddolwyr	1,000	137	845	85
Defnydd o wirfoddolwyr	1,000	67	350	35

Ffynhonnell: Chwched Adroddiad Chwarterol ar Gynnydd Canolfan Cydweithredol Cymru

- 7.5 Gyda dau chwarter (chwe mis) o gyflawniad y contract cyfredol yn weddill, mae hyn yn dangos y cyflawnwyd 70 y cant o'r targed o ran cynorthwyo sefydliadau. O dybio y cyflawnir perfformiad tebyg i chwarter chwech yn chwarteri saith ac wyth, dylid bodloni'r DPA o ran sefydliadau a gynorthwywyd.
- 7.6 O ran y DPA ar gyfer ymgysylltu unigolion (sefydliadau partner CDC a gynorthwyr), rhagorwyd ar hyn i raddau helaeth eisoes erbyn chwarter chwech, wrth gofnodi 52,120 o unigolion yn erbyn y targed. O gymryd hyn ar lefel arwynebol, mae'r perfformiad yma'n neilltuol. Fodd bynnag, mae'r asesiad yma'n seiliedig ar ddata a gyflwynodd sefydliadau partner i Ganolfan Cydweithredol Cymru, ac mae staff y Ganolfan yn pwysleisio bod rhywfaint o'r data yma'n seiliedig ar amcangyfrifon o ran niferoedd defnyddwyr gwasanaethau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant digidol, yn hytrach na'r niferoedd go iawn a gynhyrchwyd trwy weithgarwch monitro parhaus.
- 7.7 Mae'r darlun yn debyg o ran y targed ar gyfer unigolion â gwell rhagolygon cyflogadwyedd o ganlyniad i'r cymorth a gawsant gan sefydliadau partner CDC. Er bod y penawdau ar gyfer perfformiad yn hyn o beth edrych yn drawiadol, rhaid cofio taw targed anuniongyrchol yw hwn, a'i fod yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan y sefydliadau partner sy'n cynorthwyo pobl i mewn i waith ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru.
- 7.8 Cwestiwn allweddol mewn perthynas â'r naill a'r llall o'r targedau hyn yw i ba raddau y mae yna dystiolaeth o ychwaneged (h.y. y gyfran o unigolion sy'n cael cymorth anuniongyrchol sydd wedi eu hymgysylltu â chymorth cynhwysiant digidol ac wedi

elwa ar y peth) a phriodoliad (h.y. tystiolaeth a yw'r unigolion hynny wedi cymryd rhan ac wedi diogelu buddion o ganlyniad uniongyrchol i waith CDC). Rydyn ni'n archwilio'r ddau fater allweddol hyn yn fanylach ym Mhennod 8.

- 7.9 Gan droi at y dangosyddion sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr, mae perfformiad hyd yn hyn mewn perthynas â recriwtio gwirfoddolwyr wedi bod yn gadarn (recriwtiwyd 845 o wirfoddolwyr) ac os bydd yr alldro yn chwarteri saith ac wyth yn cyd-fynd yn fras â chwarter chwech, yna mae yna mae hi'n weddol debygol y cyflawnir y targed cyffredinol i recriwtio 1,000 o wirfoddolwyr. I roi ychydig bach o gyd-destun ehangach i'r peth, amcangyfrifodd CGGC bod rhyw 931,261 o wirfoddolwyr yng Nghymru yn 2015⁴⁸.
- 7.10 Mae perfformiad mewn perthynas â'r defnydd o wirfoddolwyr yn llai cadarnhaol, gyda chwta 35 y cant o'r targed cyffredinol wedi ei gyflawni erbyn chwarter chwech. Mae hi'n annhebygol iawn y cyflawnir y targed cyffredinol o 1,000 erbyn diwedd chwarter wyth. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r ffocws wrth symud ymlaen fod yn drwm ar ddefnyddio'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd eisoes, yn hytrach nag ar recriwtio mwy, am y gallai hynny arwain at Gronni pellach.
- 7.11 Mater allweddol i'w ystyried yn hyn o beth yw bod y DPA yn rhagdybio y bydd yr holl wirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio'n cael eu rhoi ar waith a'u defnyddio mewn lleoliad neu weithgaredd cynhwysiant digidol. Yn ymarferol, mae'r data'n dangos yn glir bod yna golledion sylweddol yn sgil recriwtio, gyda chwta 41 y cant o'r gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio'n cael eu defnyddio mewn gwirionedd. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rydyn ni'n archwilio rhai o'r rhesymau sydd y tu ôl i'r gyfradd trosiant yma rhwng recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr.
- 7.12 Yng nghyd-destun rhwystrau i wirfoddoli, mae'n werth nodi, yn ôl Almanac Cymdeithas Sifil y DU NCVO ar gyfer 2016, wrth ymateb i arolwg, dywedodd 48 y cant o bobl a oedd wedi rhoi'r gorau i wirfoddoli taw'r rheswm am hyn oedd 'diffyg amser oherwydd newid amgylchiadau gartref neu yn y gwaith'⁴⁹.

⁴⁸ Ffynhonnell: Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2016. CGGC. Tudalen 12. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o Wirfoddoli yng Nghymru 2015: Adroddiad ar ddau arolwg omnibws Mawrth 2014 a 2015.

⁴⁹ Ffynhonnell: Almanac Cymdeithas Sifil DU NCVO 2016. Gweler:

<https://data.ncvo.org.uk/a/almanac16/motivations-and-barriers-to-volunteering-2/>

Cwmpas Daearyddol

7.13 Ar ddechrau'r rhaglen, asesodd Canolfan Cydweithredol Cymru y sefyllfa o ran cynhwysiant digidol ym mhob sir (gan ddefnyddio cymysgedd o ddata Arolwg Cymru a'r wybodaeth a gasglwyd trwy Gymunedau 2.0). Aethant ati wedyn i gategoreiddio pob awdurdod lleol gan ddefnyddio system goleuadau traffig fel a ganlyn:

- Golau coch: ychydig iawn neu dim gweithgarwch cynhwysiant digidol hysbys, dim grŵp cynllunio gweithredol
- Golau melyn: rhywfaint o weithgarwch cynhwysiant digidol, ond nid ydym ynghlwm wrth ei gynorthwyo mewn gwirionedd, neu'n mae'n fratiog heb unrhyw gydlyniant
- Golau gwyrdd: lefel resymol o weithgarwch cynhwysiant digidol yn y sir, rydym ynghlwm wrth gynorthwyo a chydlynu hyn.

Tabl 1: Categori Canolfan Cydweithredol Cymru fesul Sir

Categori	Siroedd
Coch	Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Ddinbych, Ceredigion
Melyn	Wrecsam, Ynys Môn, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Torfaen, Abertawe, Gwynedd
Gwyrdd	Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Sir Fynwy

Ffynhonnell: Canolfan Cydweithredol Cymru (Atodiad C i'r adroddiadau chwarterol ar gynnydd)

7.14 Darparodd y chweched adroddiad chwarterol a gyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru ddadansoddiad cronol o nifer y sefydliadau partner sydd wedi eu 'hymgysylltu' ac sydd wedi 'cael cymorth' gan y rhaglen hyd yn hyn ym mhob un o'r 22 ardal llywodraeth leol.

7.15 Mae hyn yn dangos bod y rhaglen wedi bod yn weithredol ym mhob un o 22 ardal awdurdod lleol Cymru, gyda gweithgarwch yn cael ei ffocysu'n briodol yn yr ardaloedd coch a melyn. Nododd y chweched adroddiad chwarterol rhywfaint o bryder bod gan dair ardal (Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam) nifer is na'r disgwyl o sefydliadau partner. Fodd bynnag, aeth yr adroddiad ymlaen i esbonio bod Cydlynwyr CDC 'wrthi'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol yma ar hyn o bryd, a'n bod

ni'n disgwyl y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cyflawni'r targed erbyn diwedd chwarter saith⁵⁰.

Y proffil ariannol a'r gwariant

- 7.16 Gan droi at broffil gwariant ariannol CDC, mae Tabl 3 yn cynnig trosolwg o'r gwariant hyd yn hyn. Mae'r ffigurau'n dangos y bu tanwariant mewn perthynas â chostau staff y prosiect yn ystod y cyfnod hyd 30 Medi 2016. Roedd hyn am y bu Cyfarwyddwr Prosiect CDC yn absennol am gyfnod hir oherwydd salwch.

Tabl 3: Trosolwg o Wariant y Rhaglen

	Gwariant Go lawn hyd yn hyn (30.09.16) £	Proffil Gwariant Disgwyliedig (hyd 30.09.16) £	Amrywiant (hyd 30.09.16) £	Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael (hyd 31.03.17) £
Staff y prosiect	853,679	908,723	-55,043	1,220,631
Cynhyrchion y gwasanaeth	46,671	84,800	-38,129	113,251
Costau eraill	308,672	242,027	+66,645	332,785
Cyfanswm (heb gynnwys TAW)	1,209,022	1,235,550	-26,527	1,666,666
Cyfanswm (yn cynnwys TAW)	1,450,826	1,482,660	-31,832	1,999,999

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 7.17 Y prif reswm am y gwariant sy'n is na'r disgwyl ar gynhyrchion y gwasanaeth oedd y ffaith nad oedd y gronfa llenwi bwlch wedi dosbarthu cymaint o gyllid â'r disgwyl, ac am fod y costau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr yn is na'r disgwyl (yn unol â'r defnydd is na'r disgwyl o wirfoddolwyr). Roedd prif elfennau'r gwariant a dynnwyd o dan y pennawd yma yn y gyllideb yn cynnwys llogi canolfannau i gynnal sesiynau hyfforddi.
- 7.18 Mae'r gorwariant mewn perthynas â 'chostau eraill' yn ymwneud yn bennaf â thalu Cyfarwyddwr Prosiect Interim (a oedd eisoes wedi ei enwi fel ymgynghorydd strategol ar dîm cais Canolfan Cydweithredol Cymru) o'r gyllideb hon i gyflenwi yn ystod absenoldeb salwch tymor hir deiliad y swydd.

⁵⁰ Chwched Adroddiad Diweddaru Chwarterol CDC. Tudalen 2.

- 7.19 Yn 2015, talwyd am nifer o hyfforddwyr 'cyswllt' annibynnol ychwanegol o'r gyllideb cynhyrchion gwasanaeth, ac ehangwyd y tîm o hyfforddwyr cyswllt annibynnol ymhellach yn 2016⁵¹.
- 7.20 Er bod yna amrywiadau nodedig yn nhermau'r gwariant go iawn yn erbyn y proffil amcanestynedig hyd yn hyn, mae yna gyfiawnhad clir dros y rhain, ac i bob golwg, mae'r perfformiad ariannol cyffredinol o fewn paramedrau derbyniol.

Asesiad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

- 7.21 Nesaf, rydyn ni'n troi at ddadansoddi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwaith cyflawni hyd yma, trwy gyflawni asesiad sylfaenol o'r gost fesul uned ar gyfer pob un o ddangosyddion y rhaglen. Mae Tabl 4 yn dangos bod y gost go iawn fesul uned ar gyfer pob sefydliad partner a gynorthwywyd (yn seiliedig ar y sefyllfa ar 30 Medi 2016) yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a ragwelwyd adeg rhoi cymeradwyaeth.

Tabl 4: Dadansoddiad o'r Gost fesul Uned

Dangosydd	Cost Ddealliedig fesul Uned £	Cost Go iawn fesul Uned (30.09.16) £	Amrywiant +/- %
Sefydliad a gynorthwywyd	2,083	2,171	+4%
Ymgysylltiad canlyniadol fesul unigolyn	56	23	-58%
Gwell cyflogadwyedd fesul unigolyn	1,667	331	-80%
Gwirfoddolwyr a recriwtiwyd	1,667	1,431	-14%
Gwirfoddolwyr a ddefnyddiwyd	1,667	3,454	+107%

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r wybodaeth ariannol ar 30.09.16 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

- 7.22 Mae'r gor-berfformiad a nodwyd yn y wybodaeth fonitro'n golygu bod y ddau ddangosydd sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi elwa'n anuniongyrchol yn sylweddol is na'r hyn a ragwelwyd, er, fel y nodwyd eisoes, mae yna gwestiynau allweddol sy'n ymwneud ag ychwanegedd a phriodoliad ar gyfer y naill a'r llall o'r targedau hyn. Am hynny, nid ystyrir eu bod yn ystyrion nac yn ddangosol.

⁵¹ Recriwtiwyd pedwar hyfforddwr cyswllt pellach i ategu'r capasiti hyfforddi. Ffynhonnell; Y Chweched Adroddiad Chwarterol ar Gynnydd. Tudalen 6.

- 7.23 Mae'r gost fesul uned ar gyfer gwirfoddolwyr fymryn bach yn is na'r disgwyl, ac mae'r gyfradd trosiant o ran defnyddio gwirfoddolwyr sy'n is o lawer na'r disgwyl yn golygu bod y gost fesul uned yn sylweddol uwch na'r hyn a awgrymwyd adeg rhoi cymeradwyaeth.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid ar berfformiad

- 7.24 Er nad oedd rhai o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw'n rhan o'r gwerthusiad wedi gweld manylion perfformiad y rhaglen yn erbyn ei phecyn o DPA, y teimlad cyffredinol oedd bod CDC yn cael ei reoli (gan Lywodraeth Cymru) a'i gyflawni (gan Ganolfan Cydweithredol Cymru) yn effeithiol.

'Mae [CDC] yn cael ei redeg yn dda iawn. Rydw i wedi bod ar wahanol grwpiau llywio, ac mae'r rhaglen hon yn dda iawn o gymharu. Mae yna raglen waith sydd wedi ei chynllunio'n glir'. (Aelod o Fwrdd y Rhaglen Cynhwysiant Digidol)

- 7.25 Cododd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, y pwynt y dylid barnu'r rhaglen yn erbyn mwy na dim ond perfformiad ar sail allbwn, gan esbonio bod yna ddealltwriaeth glir o natur anuniongyrchol y targedau unigol a'r cyfyngiadau o ran gweithgarwch monitro.

- 7.26 Ar y sail honno, cododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru bwynt 'nad yw [CDC] erioed wedi bod yn fater o gwrso rhifau' a bod 'dyfnder ac ansawdd' yr ymyrraeth yn nhermau datblygu gallu a meithrin partneriaethau'n bwysig iawn. Yn hynny o beth, anogwyd Canolfan Cydweithredol Cymru i ganolbwyntio ar waith atodol gyda sefydliadau partner, er enghraifft, yn sgil datblygu DIEIP a/neu hyfforddiant er mwyn ategu gweithrediad.

- 7.27 Ar raddfa ehangach, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod gweithrediad y rhaglen yn nhermau targedu gofodol a thematig wedi bod yn effeithiol; er bod rhai yn teimlo y bu llai o weithgarwch nag y gobeithiwyd amdano gyda phobl anabl. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg o'n gwaith ymgynghori â staff CDC, ac o adolygu'r chweched adroddiad chwarterol, bod Canolfan Cydweithredol Cymru'n ymwybodol o'r mater hwn, a'u bod wrthi'n rhagweithiol yn gwneud gwaith i feithrin cysylltiadau â mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl.

8. Deilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Cyflwyniad

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y canlyniadau a'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg o safbwynt y sefydliadau partner a'r unigolion. Wedyn mae'n trafod i ba raddau y gellir priodoli'r newidiadau hyn i raglen CDC, a beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y rhaglen (h.y. y gwrthffeithiol).

8.2 Roedd yna gonsensws cyffredinol ymysg y sefydliadau partner bod rhaglen CDC wedi cael effaith uniongyrchol fwy ar y sefydliadau partner nac ar fuddiolwyr o blith defnyddwyr y gwasanaethau. Mae un o'r sylwadau a wnaed yn adlewyrchu safbwyntiau nifer o'r sefydliadau partner eraill:

'Mae hi wedi cael mwy o effaith arnom ni nac ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Rydyn ni'n fwy ymwybodol beth sydd ar gael i ni ei ddefnyddio, yn fwy ymwybodol o sut y dylem ni fod yn cyflawni sesiynau, a nawr gallwn ni deilwra'r cymorth yn well o lawer'.

8.3 Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau partner a oedd wedi bod ynghlwm wrth Gymunedau 2.0 ynghynt yn deall ei bod hi'n anochel y byddai deilliannau'r rhaglen yn fwy cymedrol ac anuniongyrchol na'r rhaglen a'i rhagflaenodd oherwydd ei dull mwy hyrwyddol o fynd ati. Yn wir, awgrymodd sawl un taw 'galluogwr' a 'hyrwyddwr' y ddarpariaeth oedd CDC, yn hytrach na darparwydd uniongyrchol cymorth cynhwysiant digidol i'r defnyddwyr terfynol, fel yr oedd Cymunedau 2.0 wedi bod. Er enghraifft, dywedodd un:

'Mae'r cydlynwyr yn gweithio ar lefel ranbarthol nawr, ac â llai o adnoddau. Mae hi'n achos o orfod taenu'r jam yn fwy tenau, ac mae'n anochel felly ei bod yn cael llai o effaith, er gwaethaf ymdrechion y tîm'.

Y gwahaniaeth a wnaed i sefydliadau partner, eu staff a'u gwirfoddolwyr

8.4 Roedd y dystiolaeth a gasglwyd trwy ein gwaith maes gyda sefydliadau partner yn awgrymu bod canlyniadau rhaglen CDC yn ymrannu'n bum prif faes. Roedd y rhain yn ymwneud â gwell ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gynhwysiant digidol, mwy o gapasiti ar gyfer cyflawni darpariaeth cynhwysiant digidol, gwell cydweithredu a newidiadau strategol o ran trefniadaeth.

8.5 Wedi dweud hynny, nid oedd o leiaf 12 o'r 50 sefydliad partner y siaradwyd â nhw yn gallu clustnodi unrhyw ganlyniadau cadarn o'u cysylltiad â rhaglen CDC. Roedd hyn naill ai am fod eu cysylltiad â'r rhaglen wedi bod yn ddistadl, neu, am eu bod yn teimlo ei bod hi'n rhy gynnar i glustnodi unrhyw ganlyniadau eto. Nid yw hyn yn syndod o feddwl, adeg ein gwaith maes, bod tua 35 o'r 50 o sefydliadau partner a gyfrannodd at y gwaith ymchwil wrthi'n ymarferol yn darparu rhyw fath o weithgarwch cynhwysiant digidol, a'r rheiny a oedd yn gweithredu ar draws llyfrgelloedd, Awdurdodau Iechyd, Canolfan Byd Gwaith a Chymunedau yn Gyntaf oedd fwyaf tebygol o fod yn cyflawni darpariaeth o'r fath.

8.6 Roedd nifer o'r sefydliadau partner yn ei chael hi'n anodd priodoli unrhyw ganlyniadau i raglen CDC o ystyried eu bod eisoes yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r ddarpariaeth cynhwysiant digidol yn rhan o'u cylch gorchwyl ehangach, h.y. ei bod yn anodd neilltuo unrhyw wahaniaethau penodol yr oedd ymyrraeth CDC i gyfrif amdanynt.

Mwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth

8.7 Y canlyniad y soniodd y sefydliadau partner amdano'n amlaf o bell ffordd oedd cynnydd mewn ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gynhwysiant digidol ymysg staff a gwirfoddolwyr, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'r hyfforddiant a gawsant. Awgrymwyd yn aml fod y wybodaeth a ddysgwyd o'r hyfforddiant yn galluogi sefydliadau partner i gynnig darpariaeth cynhwysiant digidol mwy cynhwysfawr, manwl, pwrpasol a phriodol ar gyfer y defnyddwyr terfynol. Nododd sawl sefydliad partner eu bod wedi sylwi hefyd ar gynnydd yn hyder y staff a'r gwirfoddolwyr hyn yn eu galluoedd eu hunain i gyflawni gweithgareddau CD, ac yn enwedig y staff neu'r gwirfoddolwyr hynny nad oeddent yn teimlo bod ganddynt sgiliau TG cryf o'r blaen.

8.8 Dywedodd y sefydliadau partner yn aml fod ganddynt well cynnig digidol ar gyfer y defnyddwyr terfynol erbyn hyn. Roedd hyn yn cynnwys staff yn integreiddio gweithgareddau digidol i'w gwaith pob dydd gyda'r defnyddwyr terfynol, a hynny ar sail fwy ffurfiol a llai ad hoc mewn sawl achos. Er enghraifft, yn achos un gymdeithas dai, roedd hyn yn cynnwys dweud wrth denantiaid tai sut i ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol a phyrth:

'Roedd Porth y Trigolion yn bodoli, ond doedd dim meddwl wedi mynd i a fyddai'r sgiliau gan yr aelodau i'w ddefnyddio neu beidio. Trwy waith CDC, rydyn ni wedi cael ein hymbweru i fynd allan. Dyna beth yn union a'n harweiniodd ni i fynd allan at y cynlluniau hyn a dweud, iawn, oce, rydyn ni yma, a gallwn ni ddweud wrthyh chi am y Porth a'i bethau.'

- 8.9 Dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau partner a oedd wedi bod ynghlwm wrth yr hyfforddiant bod y staff a'r gwirfoddolwyr wedi datblygu mwy o sensitifrwydd a gwerthfawrogiad o amgylchiadau defnyddwyr y gwasanaethau, a bod yr iaith a'r terminoleg a ddefnyddiwyd mewn perthynas â chynhwysiant digidol wedi newid i adlewyrchu hyn:

'Diolch i'r hyfforddiant, roedden ni'n gwybod pa gwestiynau i'w disgwyl, beth i'w wneud, a sut i'w hateb nhw. Byddwn i ddim hyd yn oed wedi bod yn ymwybodol y byddai llawer o'r materion hyn wedi codi o gwbl heblaw am yr hyfforddiant'.

- 8.10 Gwnaeth sawl sefydliad partner y pwynt hefyd bod staff a gwirfoddolwyr (ac yn enwedig y rhai a oedd â sgiliau TG cadarn eisoes) wedi datblygu sgiliau addysgu a hyfforddi effeithiol a fyddai'n galluogi iddynt rannu eu gwybodaeth:

'Mae'r Hyrwyddwyr yn gwybod am TG yn barod, ond beth y mae'r hyfforddiant wedi ei wneud yw eu gwneud nhw'n well athrawon, â mwy o allu i dorri sesiynau i lawr, myfyrio ar gynnydd, crynhoi ac ati. Erbyn hyn rwy'n anfon fy holl Hyrwyddwyr ar yr hyfforddiant ac mae'n gymorth mawr'.

- 8.11 Roedd canlyniadau'r arolwg ar y we o'r bobl a oedd wedi cymryd rhan yn hyfforddiant CDC yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn hefyd. Dywedodd mwyafrif o 79 y cant eu bod yn deall yn gliriach sut i gynorthwyo pobl i fynd ar lein yn well yn sgil yr hyfforddiant, dywedodd 77 y cant bod ganddynt well dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae angen i bobl sydd wedi eu heithrio'n ddigidol eu goresgyn, a dywedodd 74 y cant eu bod yn gwybod sut i gyfleu eu gwybodaeth eu hunain am TG i bobl eraill o ganlyniad i'r hyfforddiant⁵².

⁵² Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'a wnaethoch chi ddysgu neu gael unrhyw un o'r deilliannau canlynol o ganlyniad i gwrs/cyrsiau hyfforddi CDC. Sylfaen = 111 ymateb. Roedd lle i'r ymatebwyr ddewis sawl cwrs.

- 8.12 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (87 y cant) i'r arolwg ar y we o hyfforddeion CDC eu bod wedi gallu cymhwyso'r wybodaeth a gawsant o'r cwrs naill ai i raddau helaeth (14 y cant) neu i ryw raddau (73 y cant)⁵³.
- 8.13 O'r lleiafrif (14 ymatebwr i gyd) a ddywedodd nad oeddent wedi gallu cymhwyso'r wybodaeth i raddau helaeth (10 ymatebwr) neu ddim o gwbl (pedwar ymatebwr) roedd y rhesymau a roddwyd yn ymwneud yn bennaf â diffyg amser (h.y. rhy brysur) neu â diffyg galw gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- 8.14 Dadleuodd lond llaw o sefydliadau partner y byddai'r canlyniadau a wireddwyd yn nhermau cynyddu sylfaen gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y staff a'r gwirfoddolwyr yn gynaliadwy dros amser, ac yn fwy felly na'r hyn a gyflawnwyd trwy Gymunedau 2.0. Awgrymwyd bod y gallu i ddelio'n uniongyrchol ag ymholiadau sy'n ymwneud â TG yn lleihau eu dibyniaeth ar bartneriaid allanol i gynorthwyo'r defnyddwyr terfynol ag ymholiadau syml:

'Byddwn i'n dweud bod y staff yn cael tua phump o ymholiadau TG ad hoc y diwrnod. Nid yw rhai aelodau o staff mor fedrus yn y maes ag eraill. Mae'n sicr bod yr hyfforddiant wedi codi eu lefelau. Mae rhai'n well o lawer am helpu erbyn hyn. Roedd Cymunedau 2.0 yn grêt, ond roedd rhaid i ni gael pobl i mewn i ddarparu'r hyfforddiant. Mae [CDC] wedi gwneud i ni feddwl am yr hyfforddiant. Nawr gall staff weld y darlun ehangach - maen nhw wedi cael eu hyfforddi!'

- 8.15 Dadleuodd sawl un o'r sefydliadau partner na fyddent wedi bod mewn sefyllfa i gynyddu gwybodaeth eu staff neu eu gwirfoddolwyr am faterion cynhwysiant digidol heblaw am raglen CDC. Ymhlith y prif gyfyngiadau ariannol roedd y ffaith nad oedd cynhwysiant digidol yn ddigon o flaenoriaeth ar y pryd, a'r ffaith nad oeddent yn gwybod ble i droi i gyrchu hyfforddiant tebyg. Mae'r sylwadau canlynol yn enghreifftio'r dadleuon hyn:

'Fydden ni ddim wedi bod mewn sefyllfa i allu fforddio datblygu sgiliau ein holl staff i ddarparu hyfforddiant neu weithgareddau cynhwysiant digidol. Fydden ni ddim wedi bod mewn sefyllfa i allu datblygu'r rhaglen hyfforddiant yna ar

⁵³ Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'i ba raddau ydych chi wedi gallu cymhwyso'r wybodaeth a gawsoch o gwrs/cyrsiau hyfforddi CDC? Sylfaen = 111 ymatebwr.

gyfer y gymuned Fyddar, ac yn sicr ni fyddem wedi gallu gwneud hyn o fewn yr amserlenni y cyflawnwyd y gwaith yma.'

'Er bod rhywfaint o hyfforddiant ar becynnau penodol gennym yn fewnol, nid oes dim gennym sy'n ystyried cynhwysiant digidol yn yr ystyr ehangach yma'.

Cynyddu'r capasiti ar gyfer cyflawni gwasanaethau cynhwysiant digidol

- 8.16 Datgelodd ein gwaith maes gyda sefydliadau partner rhywfaint o dystiolaeth bod cymorth CDC wedi helpu i wella capasiti'r sefydliadau partner i gyflawni gwasanaethau cynhwysiant digidol allgymorth mwy hyblyg. Ar y cyfan, fodd bynnag, ychydig iawn o sefydliadau partner a oedd yn gallu priodoli'r deilliant hwn yn uniongyrchol i waith CDC.
- 8.17 Ystyriwyd bod y ddarpariaeth o ran offer TG wedi galluogi nifer fechan o sefydliadau partner i ymestyn eu darpariaeth cynhwysiant digidol trwy gynyddu eu darpariaeth allgymorth, neu nifer y sesiynau hyfforddiant taro-heibio neu ddigidol sydd ar gael i'r defnyddwyr terfynol.
- 8.18 Roedd yna deimlad hefyd bod gwaith y rhaglen CDC i recriwtio gwirfoddolwyr i weithio gyda sefydliadau partner yn hanfodol wrth alluogi sefydliadau partner i gynyddu eu capasiti (er bod yn hyn yn berthnasol i ambell i achos yn unig).
- 8.19 Roedd yr hyfforddiant wedi galluogi llond llaw o'r sefydliadau partner y cyfwelwyd â nhw i gynyddu nifer y sesiynau cynhwysiant digidol a oedd ar gael i'r cyhoedd ar led. Roedd hyn yn arbennig o wir i un grŵp o lyfrgelloedd ar draws ardal awdurdod lleol, a oedd yn y broses o sefydlu sesiynau taro-heibio 'Dydd Gwener Ddigidol' a grŵp arall o lyfrgelloedd mewn ardal awdurdod lleol arall, a oedd yn gweithio i sefydlu 'Clwb Codio' (gan dynnu ar fewnbwn gwirfoddolwyr i ddarparu sesiynau codio TG ar gyfer pobl ifanc). Yn y naill achos a'r llall, ystyriwyd bod rhaglen CDC wedi chwarae rhan hanfodol wrth fwydo'r datblygiadau newydd hyn. Yn yr un modd, penderfynodd sefydliad gwirfoddol arall a oedd wedi mynychu hyfforddiant CDC fuddsoddi mewn dodrefn ychwanegol i'w galluogi i gyflawni mwy o ddarpariaeth cynhwysiant digidol o fewn y sesiynau grŵp cyfredol.
- 8.20 Mynegodd nifer fechan (rhyw bump) o'r sefydliadau partner yn ein sampl ddymuniad i gynyddu eu darpariaeth o ran sesiynau grŵp cynhwysiant digidol, ond dadleuwyd

bod cyfyngiadau ar y capasiti o ran staff a/neu wirfoddolwyr yn eu rhwystro rhag gwneud hynny.

- 8.21 Rhoddodd nifer debyg (eto lleiafrif) o'r sefydliadau partner dystiolaeth i ddangos bod cymorth CDC wedi eu cynorthwyo i gyflwyno mentrau cynhwysiant digidol 'newydd', ac yn arbennig ym maes iechyd. Yn y cyd-destun hwn, yr enghreifftiau mwyaf cyffredin oedd mentrau oedd yn gysylltiedig â 'Fitbit'. Mae adborth gan sefydliadau partner yn awgrymu bod rôl y rhaglen CDC wrth ddatblygu'r prosiectau hyn yn fwy 'ymarferol' ei natur, ac am hynny, roedd hi'n haws i'r sefydliadau partner o dan sylw briodoli'r newidiadau i'r rhaglen yn uniongyrchol.
- 8.22 Esiampl unigryw arall a ddisgrifiodd Bwrdd Iechyd oedd mewnbwn y rhaglen i sefydlu meddygfeydd 'Telefeddygol'⁵⁴. Dadleuwyd bod cyfraniad CDC wedi bod yn hollbwysig wrth sicrhau bod y dechnoleg yn gweithio'n effeithiol, fel bod profiad cyntaf y defnyddwyr o'r clinigau 'digidol' yn gadarnhaol. Yn yr achos arbennig yma, nodwyd bod 49 o gleifion wedi defnyddio'r clinigau telefeddygol, ac yn ôl eu hadborth, roedd pob un yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant, a oedd wedi arbed cyfanswm o 220 awr o deithio rhyngddynt i gyd. Er i'r sefydliad partner nodi'n glir y byddai'r prosiect yma wedi mynd yn ei flaen heb CDC, dadleuodd bod cymorth y rhaglen wedi ychwanegu gwerth ato, a'i fod wedi galluogi'r peilot i weithio'n fwy effeithiol nag y byddai fel arall.

Cydweithredu cryfach

- 8.23 Cafwyd bod gweithgarwch y rhaglen i hwyluso cydweithredu a rhannu dysgu ar lefel leol, a hynny'n aml trwy bartneriaethau lleol, wedi arwain at drefniadau gwaith cadarnach rhwng sefydliadau partner. Yn benodol, roedd yna deimlad bod gweithgareddau'r partneriaethau 'Mynd Ar-lein' lleol wedi codi ymwybyddiaeth am y bylchau yn y ddarpariaeth cynhwysiant digidol, a'u bod wedi arwain ar dargedu adnoddau'n fwy effeithiol mewn ymdrech i gau'r bylchau.
- 8.24 Datgelodd ein gwaith maes ambell i esiampl o gyflwyno gwell mecanweithiau atgyfeirio rhwng sefydliadau partner, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'r cysylltiadau a ddatblygwyd gyda'r partneriaethau lleol sy'n cael eu hwyluso gan CDC. Roedd nifer o'r cysylltiadau hyn yn ymwneud â llyfrgelloedd, swyddfeydd

⁵⁴ Telefeddygaeth yw'r defnydd o dechnoleg telathrebu a thechnoleg gwybodaeth i ddarparu gofal iechyd clinigol o bell. Ffynhonnell: Wikipedia

Canolfan Byd Gwaith a chymdeithasau tai. Roedd y sefydliadau partner hyn yn hyderus bod defnyddwyr eu gwasanaethau'n elwa ar ddull mwy cysylltiedig o fynd ati i sicrhau cynhwysiant digidol, gyda llai o gleientiaid yn 'syrthio trwy'r craciau' o ganlyniad. Mewn un achos o'r fath, dadleuwyd bod y ffaith fod cyfarfodydd y Bartneriaeth Ddigidol yn cael eu cynnal ar safle'r Ganolfan Byd Gwaith yn golygu bod partneriaid eraill yn cael gwell darlun a dealltwriaeth am siwrnai'r hawlwr i chwilio am waith.

Newidiadau sefydliadol strategol

- 8.25 Dadleuodd rhyw bedwar o sefydliadau partner bod eu dull o fynd ati i sicrhau cynhwysiant digidol yn fwy strategol bellach o ganlyniad i'r cymorth a gawsant gan CDC. Thema gyffredin yn yr achosion hyn oedd bod y rhaglen wedi helpu i ddyrchafu'r agenda digidol yn flaenoriaeth i'r sefydliad, a'i chadw felly. Yn yr achosion hyn, roedd gweithredu DIEIP ystyrlon, mabwysiadu'r Siarter Ddigidol a'u cysylltiad â phartneriaeth leol oll wedi cyfrannu at sicrhau newidiadau clir ar lefel sefydliadol.
- 8.26 Yn achos un o'r sefydliadau partner hyn (sefydliad tai), roedd datblygu'r DIEIP a llofnodi'r Siarter Ddigidol wedi caniatáu i'r tîm fyfyrion ar eu dealltwriaeth eu hunain am gynhwysiant digidol, ac ystyried sut i wella darpariaeth yn y maes. Mae eu cysylltiad â'r rhaglen wedi golygu eu bod yn fwy ymgysylltiedig a chydgyssylltiedig â'r ddarpariaeth a'r rhwydweithiau lleol:

'Mae gennym ddealltwriaeth ehangach am beth yw cynhwysiant digidol nawr, ac mae Cydlynnydd CDC wedi bod o gymorth mawr wrth ein helpu ni i symud pethau yn eu blaenau'.

- 8.27 Mewn achos arall, dadleuwyd bod cysylltiad y sefydliad â'r rhaglen CDC wedi peri iddo edrych ar gynhwysiant digidol mewn ffordd fwy strwythuredig a threfnus ac mewn ffordd lai 'ad hoc'.

Defnyddwyr gwasanaethau - adborth a chanlyniadau

- 8.28 Mae'r adran hon yn ystyried yr adborth a gafwyd gan 33 o fuddiolwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau, y cyfwelwyd â nhw yn ystod y gwaith maes, ynghyd â safbwyntiau sefydliadau partner ar y manteision a gafodd eu cynulleidfaoedd targed.

- 8.29 Fel a drafodwyd yn yr adran a oedd yn ymwneud â'r fethodoleg, cawsom anawsterau wrth drefnu gweithgareddau gwaith maes gyda defnyddwyr gwasanaethau sefydliadau partner CDC. Roedd hyn naill ai am nad oedd y sefydliadau partner yn darparu unrhyw weithgareddau cynhwysiant digidol ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau, neu yn yr achosion lle'r oedd gwasanaethau cynhwysiant digidol ar gael, am eu bod yn teimlo y byddai cysylltiad CDC wedi bod yn rhy ddistadl i sbarduno unrhyw newidiadau neu effeithiau uniongyrchol. Yn ogystal, roedd yna deimlad nad oedd defnyddwyr y gwasanaethau'n ymwybodol o raglen CDC ei hun oherwydd natur anuniongyrchol ei darpariaeth. Er nad oedd hyn yn beth annisgwyl i ni, roedd hi'n golygu y bu angen i'r meysydd holi fod yn fwy cyffredinol, a bu hyn yn arbennig o ymestynol yn nhermau sefydlu priodoledd uniongyrchol i'r rhaglen.
- 8.30 Gyda hynny mewn golwg, nid yw'n syndod efallai bod ein gwaith maes wedi datgelu tystiolaeth gyfyngedig yn unig am sut y mae rhaglen CDC wedi achosi deilliannau neu effeithiau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.
- 8.31 Nododd tri sefydliad partner bod CDC wedi darparu hyfforddiant ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau'n uniongyrchol; yn y cyntaf o'r achosion hyn, roedd tenantiaid cymdeithas tai wedi cael sesiwn codi ymwybyddiaeth hanner diwrnod o hyd, yn yr ail, roedd CDC wedi darparu sesiwn hyfforddi dau ddiwrnod ar gyfer defnyddwyr, ac yn y trydydd, roedd CDC wedi darparu cwrs 'un tro' i gynorthwyo defnyddwyr, er iddynt gael eu categoreiddio fel gwirfoddolwyr at ddibenion monitro.
- 8.32 Datgelodd cyfweiliadau â'r 33 o ddefnyddwyr gwasanaethau lefelau da o foddhad â'r gwasanaethau cynhwysiant digidol a gawsant (trwy ddarpariaeth y sefydliadau partner), a hynny'n benodol o ran hygrychedd, gwybodaeth a pha mor gymwynasgar oedd staff a gwirfoddolwyr y sefydliad partner a oedd yn cynnal y sesiynau taro-heibio (yr oedd llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant gan CDC). Ymysg y sylwadau a ddaeth i law roedd:

'Roeddwn i'n teimlo bod y cynorthwywyr digidol yn effeithlon, yn amyneddgar ac yn hawddgar.'

'Mae [enw] yn athro bendigedig ac mae'r dosbarthiadau wedi helpu i fagu fy hyder'.

8.33 Nododd sawl un o ddefnyddwyr y gwasanaeth y byddent yn croesawu hyfforddiant a chymorth TG pellach, gan ychwanegu bod y ddarpariaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd:

'Byddai dosbarthiadau pellach yn fanteisiol ac yn fy ngalluogi i ennill mwy o brofiad'.

'Nid yw sesiwn awr o hyd unwaith yr wythnos yn ddigon. Mae angen sesiynau fesul un arnaf i hefyd a mwy o amser i ddysgu. Buaswn i'n fodlon teithio i ddosbarth pe bai cludiant yn cael ei drefnu'.

8.34 Y manteision y disgrifiodd defnyddwyr gwasanaethau a fu ynghlwm wrth y gweithgareddau cynhwysiant digidol a ddarparwyd gan y sefydliadau partner amlaf o ran eu profiadau oedd:

- Datblygu sgiliau a galluoedd newydd
- Magu hyder
- Goresgyn ofnau am dechnoleg
- Archwilio diddordebau newydd
- Gwell rhyngweithio cymdeithasol, a llai o deimladau o arwahaniad/diflastod
- Gwell ymdeimlad o werth (yn enwedig i'r bobl hynny a oedd yn gwirfoddoli)
- Mwy abl i gyrchu gwasanaethau
- Arbedion ariannol (e.e. defnyddio offer cymharu prisiau ar-lein)
- Chwilio am waith
- Drafftio CVs
- Cyfathrebu â pherthnasau a ffrindiau
- Gwell gweithgarwch corfforol.

8.35 Soniodd y sefydliadau partner am fanteision anuniongyrchol eraill hefyd. Er enghraifft, ystyriwyd bod cynnal sesiynau cynhwysiant digidol ychwanegol mewn llyfrgell wedi gwneud cyfraniad hanfodol wrth recriwtio 180 yn rhagor o aelodau i'r llyfrgell mewn un lleoliad.

8.36 Roedd un sefydliad partner wedi defnyddio holiaduron i gasglu adborth gan 128 o ddefnyddwyr ei wasanaethau a oedd wedi cymryd rhan, naill ai mewn sesiynau 'clic cyntaf' neu 'daro-heibio gyda theclynnau'⁵⁵. Rhannwyd y wybodaeth a gasglwyd â ni ac mae crynodeb ohoni isod:

- Roedd 75 y cant yn cytuno'n gryf bod y sesiynau clic cyntaf wedi bod yn ddefnyddiol
- Roedd 61 y cant yn cytuno'n gryf bod y sesiwn clic cyntaf wedi rhoi cyfle iddynt ddiweddarau a gwella eu sgiliau cyfrifiadur
- Roedd 64 y cant yn cytuno'n gryf eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur ar ôl y cwrs
- Roedd 69 y cant yn cytuno'n gryf eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfrifiadur yn y dyfodol⁵⁶.

8.37 Dyma'r sylwadau a wnaeth rhai o ddefnyddwyr y sesiynau clic cyntaf:

'I fi, roedd y cymorth a gefais i heddiw cystal ag y gallwn i fod wedi ei ddisgwyl. Rydw i'n fodlon iawn ac roedd hi'n ddefnyddiol dros ben'.

'Roedd hi'n dda iawn. Rhoesant esboniadau clir a chefais gyfle i wneud y peth fy hun, nid dim ond eu gwyllo nhw'.

8.38 Roedd yr adborth o'r sesiynau taro-heibio am declynnau'n cynnwys:

- Bod y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr (54 y cant) wedi mynychu'r sesiwn teclynnau i ofyn am gymorth gyda gosodiadau eu iPad, llechen neu ffôn clyfar. Wedyn, roedd 42 y cant a ddywedodd eu bod wedi mynychu'r sesiwn i geisio cymorth ar ddefnyddio e-bost.
- Dywedodd 78 y cant o'r ymatebwyr i'r hunanwerthusiad bod y sesiwn teclynnau wedi eu cynorthwyo i gyflawni'r hyn yr oeddent am ei gyflawni⁵⁷.

8.39 Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan ddefnyddwyr y sesiynau taro heibio am declynnau roedd:

⁵⁵ Sesiynau anffurfiol lle gallai aelodau o'r cyhoedd ddod ag offer TG i mewn a thrafod materion neu problemau.

⁵⁶ Sylfaen clic cyntaf = 36 o ymatebwyr. Cyflawnwyd y gwaith ymchwil rhwng Medi 2015 a Mehefin 2016.

⁵⁷ Sylfaen sesiynau taro heibio = 92 o ymatebwyr. Cyflawnwyd y gwaith ymchwil rhwng Medi 2015 a Mehefin 2016.

'Roedd yr hyfforddwr yn barod iawn ei gymwynas ac yn wybodus iawn, a roddodd gymorth i mi i oresgyn rhai o'r problemau cyfrifiadurol sydd gen i'.

'Cymorth rhagorol gyda fy ngosodiadau - byddaf i nôl eto am ragor!'

- 8.40 Yn yr achos hwn, roedd y priodoliad anuniongyrchol i CDC yn gymharol gadarn am fod y gwirfoddolwyr a oedd yn cyflawni'r sesiynau clic cyntaf a'r sesiynau taro-heibio am declynnau wedi cael eu clustnodi a'u hyfforddi trwy'r rhaglen. Fodd bynnag, mae natur anuniongyrchol y rhyngweithio â defnyddwyr y gwasanaeth yn codi'r mater sylfaenol o ran a ddylid ystyried bod yr unigolion hyn yn fuddiolwyr y rhaglen CDC ai peidio.

9. Cysylltiadau â Mentrau eraill yng Nghymru a'r DU

- 9.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n edrych yn fras ar dystiolaeth ddogfennol sy'n ymwneud â'r gwaith a gyflawnodd Uned Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru dan nawdd CDC i fwydo polisi a rhaglenni'r DU mewn perthynas â'r agenda cynhwysiant digidol ehangach, a dylanwadu arno.

Cysylltiadau ar Lefel y DU

- 9.2 O safbwynt y DU, esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod y gwaith i rannu gwybodaeth â Llywodraethau eraill, a dysgu ganddynt mewn perthynas â pholisi a gweithgarwch cynhwysiant digidol wedi cael ei gyflawni yng nghyd-destun y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig⁵⁸. Roedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig wedi sefydlu grŵp Cynhwysiant Digidol (a elwir yn 'sector gwaith').
- 9.3 Darparwyd sampl o gofnodion a phapurau cyfarfodydd Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i ni ei adolygu. Mae'r cofnodion a'r papurau hyn yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan weithredol, gan fynychu cyfarfodydd y grŵp yn rheolaidd, a chyflwyno papurau a diweddariadau priodol ar bolisi cynhwysiant digidol a gwaith y rhaglen CDC yng Nghymru.
- 9.4 Rydyn ni'n deall hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan ymarferol, ac wedi cyfrannu at waith yr Is-grŵp Cynhwysiant Digidol a'r Bwrdd Cyflawni dan arweiniad Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU, a chyn hynny, Swyddfa'r Cabinet, er bod y grwpiau hyn wedi cael eu dirwyn i ben ers hynny. Roedd y Bwrdd yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol, preifat a llywodraeth leol, yn ogystal â darparwyr sgiliau digidol. Darparodd hyn gyfle i ledaenu gwybodaeth am yr hyn a ddysgwyd trwy CDC, ac i swyddogion Llywodraeth Cymru ddysgu o weithgarwch mewn rhannau eraill o'r DU, a bwydo hyn yn ôl yng Nghymru, a hynny'n uniongyrchol i Ganolfan Cydweithredol Cymru a thrwy Fwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Cymru.
- 9.5 Ystyriodd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a'r Is-grŵp a'r Bwrdd Cyflawni Cynhwysiant Digidol fframwaith o ddeilliannau ar gyfer cynhwysiant digidol a

⁵⁸ Sefydlwyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn rhan o'r cytundeb aml-bleidiol a wnaed yn Belffast ar 10 Ebrill 1998. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Iweddion, Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Ynys Manaw, Llywodraeth Jersey a Llywodraeth Guernsey.

ddatblygwyd gan DCMS⁵⁹. Dyluniwyd y fframwaith yn arbennig i fynd i'r afael â'r her o dystiolaethu 'manteision ehangach' cynhwysiant digidol (h.y. y tu hwnt i fonitro faint o bobl sy'n defnyddio technoleg ddigidol) ac i ddarparu arweiniad mwy cyson ar gyfer y bobl hynny sy'n darparu gweithgarwch cynhwysiant digidol ar lefel leol o ran sut i werthuso'r buddion ehangach hynny.

Cysylltiadau â Mentrau eraill yng Nghymru

- 9.6 Yn nhermau cysylltiadau â mentrau eraill yng Nghymru (y tu hwnt i'r rhai a ystyriwyd eisoes mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn e.e. mentrau cynhwysiant digidol sy'n ymwneud â chartrefi cymdeithasol ac ieuchyd), datgelodd ein hymgyngoriadau â rhanddeiliaid bod Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Cymru (sy'n cael ei hwyluso gan yr Uned Cynhwysiant Digidol) yn fecanwaith pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth a dysg am wahanol raglenni, gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, prosiect Cyflymu Cymru.
- 9.7 Dadleuodd rhanddeiliaid allweddol a oedd ynghlwm wrth y fenter Cyflymu Cymru⁶⁰ (ac yn fwyaf nodedig BT ac Adran Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru) bod CDC yn rhaglen ategol bwysig - ac yn arbennig yn nhermau codi ymwybyddiaeth am fanteision y rhyngwyd a mynediad cyflym iawn i'r rhyngwyd.
- 9.8 Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd ynghlwm wrth y prosiect Cyflymu Cymru bod cymorth busnes ac economaidd â ffocws digidol ehangach yn cael ei ddarparu (o dan nawdd Busnes Cymru) er mwyn cynorthwyo busnesau a mentrau cymdeithasol i fanteisio i'r eithaf ar werth technoleg. Yn y cyswllt hwn, mae offeryn diagnosteg wedi cael ei ddatblygu i gynorthwyo busnesau a mentrau cymdeithasol i ystyried:
- A yw'r dechnoleg yn cael ei defnyddio'n effeithlon o fewn y busnes/menter gymdeithasol, ac i ba raddau (e.e. at ddibenion cyfathrebu, storio gwybodaeth, AD ac ati...)
 - A yw'r dechnoleg yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar gwsmeriaid a rhyngweithio â nhw, ac i ba raddau (e.e. i werthu a chyfathrebu ar-lein, i reoli

⁵⁹ Gweler: <https://digitalinclusion.blog.gov.uk/2015/07/14/launching-a-digital-inclusion-outcomes-framework/>

⁶⁰ Menter i ddarparu band eang cyflym iawn i'r mwyafrif o gartrefi a busnesau Cymru nad oes modd iddynt ei gyrchu trwy raglenni masnachol y sector preifat ei hun yw Cyflymu Cymru.

perthnasau â chwsmeriaid (CRM), gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ati...)

- A yw'r dechnoleg yn cael ei defnyddio i gynorthwyo cydweithredu ac arloesi, ac i ba raddau (e.e. gweithio ar-lein gyda busnesau eraill, meincnodi, gwella systemau a phrosesau ac ati...).

- 9.9 O ystyried bod CDC yn gweithio gyda sefydliadau partner sy'n fentrau cymdeithasol, ac yn arbennig o ystyried arbenigedd ehangach Canolfan Cydweithredol Cymru wrth gynorthwyo'r sector hwn, esboniodd swyddog Llywodraeth Cymru sy'n goruchwyllo'r prosiect Cyflymu Cymru y gall fod yna gyfleoedd i archwilio cysylltiadau agosach byth, ac i ddatblygu/cyfeirio rhwng CDC a'r cymorth technolegol sydd ar gael i fentrau cymdeithasol trwy Gyflymu Busnes Cymru. Yn benodol, mae'n debyg (o ystyried ein canfyddiadau mewn perthynas â'r DIEIP) bod yna gyfleoedd i rannu profiadau ac arferion da mewn perthynas â'r gwahanol ddulliau diagnostig o fynd ati sy'n cael eu mabwysiadu, a chlustnodi pwyntiau dysgu perthnasol neu feysydd lle mae gorgyffwrdd.
- 9.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Uned Ymchwil i Economi Cymru (WERU) yn Ysgol Fusnes Caerdydd i gyflawni gwaith ymchwil ar y manteision economaidd sydd ynghlwm wrth y defnydd o dechnolegau sy'n gallu darparu band eang cyflym⁶¹. Er bod ffocws y gwaith yma ar fusnesau'n bennaf (yn hytrach nag ar unigolion sy'n cael eu heithrio'n ddigidol), mae'n debygol y bydd yna feysydd pwysig sy'n gorgyffwrdd rhwng CDC a'r gwaith ymchwil yma, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â mentrau cymdeithasol, ond hefyd mewn perthynas â'r gwaith sganio'r gorwel y bydd WERU yn ei gyflawni, a allai ddarparu ffynhonnell gwybodaeth bwysig ar arferion a thechnolegau newydd yng nghyd-destun y 'polisi ehangach, a thueddiadau cymdeithasol economaidd a gofodol'⁶².
- 9.11 Y tu hwnt i hynny, roedd rhai o aelodau Bwrdd y Rhaglen Cynhwysiant Digidol yn teimlo, er bod yna ddialog cadarnhaol eisoes rhwng y rhaglen CDC a'r sector preifat (e.e. trwy BT a Barclays⁶³) roedd yna botensial i wneud mwy, er enghraifft trwy feithrin cysylltiadau â rhai o'r enwau mawr o'r sector preifat sydd ar Fwrdd

⁶¹ Gweler: <http://www.cardiff.ac.uk/superfast-broadband-project>

⁶² Ffynhonnell: Gwefan Prosiect Band Eang Cyflym iawn WERU.

⁶³ Trwy eu gwaith ar y fenter 'Digital Eagles'.

Ymgynghorol prosiect Cyflymu Cymru (gan gynnwys Microsoft) yn ogystal â Chorfforaethau eraill (fel Google UK), er mwyn archwilio sut y gallant chwarae rhan amlycach a bwydo'r agenda cynhwysiant digidol yng Nghymru (e.e. trwy gyfrannu offer). Fodd bynnag, mae'r Uned wedi ymgysylltu â Microsoft er mwyn archwilio'r posibiliadau ar gyfer cyflawni prosiectau cynhwysiant digidol ar y cyd, tra chwaraeodd CDC ran yn 'Garej Digidol Google' a gynhaliwyd yng Nghaerffili ym mis Tachwedd 2015, ac maent ynghlwm wrth achlysur sydd ar y gweill yng Nghastell-nedd Port Talbot hefyd.

- 9.12 Roedd dau o Aelodau Bwrdd y Rhaglen yn teimlo y gallai fod yna gyfleoedd i ategu'r cysylltiadau rhwng CDC a'r Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol a'i ffrydiau gwaith amrywiol.

'Mae yna gyfleoedd i wneud rhagor i gydlynu'r gwaith â gweithgarwch addysg'.

10. Y Dyfodol

- 10.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried tystiolaeth gan rhanddeiliaid a sefydliadau partner ar ddyfodol CDC.
- 10.2 Safbwynt cyffredinol y rhanddeiliaid a'r sefydliadau partner oedd bod yna angen o hyd am CDC, ac y dylai'r rhaglen barhau y tu hwnt i ddwy flynedd y contract cyfredol.
- 10.3 Mae cyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol yn flaenllaw ym meddyliau pobl, ac yn enwedig goblygiadau posibl hynny yn nhermau creu galw pellach am i'r sefydliadau partner gynorthwyo defnyddwyr eu gwasanaethau sy'n dal i fod wedi eu hallgau'n ddigidol. Os na fydd y rhaglen yn parhau, mae sawl un yn poeni bod yna berygl go iawn y gallai rhai gweithgareddau ym maes cynhwysiant digidol golli momentwm yn gyflym (ac yn enwedig gwaith y partneriaethau lleol).

'A ddylai Llywodraeth Cymru barhau â CDC am ddwy flynedd arall? Mae hynny'n rhwydd. Wrth gwrs y dylai. Nid mater o ddewis mohoni a dweud y gwir - mae digideiddio'n parhau ar garlam, a gallwch chi ddim â cherdded i ffwrdd wrth y peth'. (Cynrychiolydd o'r Sector Cartrefi Cymdeithasol)

- 10.4 Clustnododd y rhanddeiliaid a'r partneriaid a ddadleuodd y dylai'r rhaglen barhau nifer o bwyntiau dysgu allweddol a allai fwydo'r ffordd y darperir y rhaglen yn y dyfodol:
- Dylai'r ffocws ym mlynnyddoedd tri a phedwar y contract fod yn gadarn ar ddiogelu etifeddiaeth i'r buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud mewn cynhwysiant digidol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r ffocws fod ar sicrhau bod:
 - Gan sefydliadau partner gynlluniau cadarn ar gyfer cynhwysiant digidol
 - Partneriaethau'n gweithredu ar sylfaen gynaliadwy
 - Adnoddau cymorth ymarferol yn dal i fod ar gael, gan gynnwys cynnwys ar-lein
 - Sefydliadau partner yn dal i allu cyrchu capasiti gwirfoddoli cynaliadwy er mwyn helpu i gyflawni'r gweithgarwch cynhwysiant digidol

- Un ystyriaeth allweddol i'r rhaglen CDC fydd sicrhau bod gan staff yr holl sgiliau a gwybodaeth berthnasol i gyflawni'r elfennau hyn.
- Dylai'r rhaglen barhau i fod â rhyw lefel o hyblygrwydd i 'sganio'r gorwel' ac ymateb i newidiadau cymdeithasol, o ran polisi, ac yn hanfodol, newidiadau technolegol
- Un o gryfderau allweddol y rhaglen yw'r hyfforddiant y mae'n ei gynnig, a dylid parhau â hyn. Un agwedd allweddol o hyn yw'r buddsoddiad o'r bron wrth deilwra hyfforddiant at amgylchiadau'r sefydliadau partner unigol. Fodd bynnag, dylid datblygu gweminarau a fformatau eraill ar-lein fel cynhyrchion etifeddol er mwyn helpu i gynnal y momentwm
- Dylid gwneud rhagor i godi ymwybyddiaeth ymysg y sefydliadau partner bod CDC am fwy na dim ond hyfforddiant. Yn y cyd-destun hwn, dadleuodd y sefydliadau partner a'r rhanddeiliaid bod yna dipyn o gwmpas i CDC gyflawni mwy o waith cydlynu atodol (yn arbennig o ran defnyddio gwirfoddolwyr) - yn hytrach na pharhau i gwrso sefydliadau newydd er mwyn cyrraedd y targedau allbwn. Byddai angen ystyried hyn yn ofalus o ran dyluniad a lefelau'r DPA ar gyfer blynyddoedd tri a phedwar y rhaglen.

11. Casgliadau ac Argymhellion

- 11.1 Dyluniwyd Cymunedau Digidol Cymru mewn ffordd resymegol sy'n rhoi cyfrif clir iawn o natur esblygol allgau digidol yng Nghymru, a maint yr her.
- 11.2 Fe'i dyluniwyd o fewn fframwaith agenda polisi cefnogol ehangach Cymru a'r DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y gwersi a ddysgwyd ac argymhellion gwaith gwerthuso cynharach i ystyriaeth, ac wedi dylunio rhaglen CDC mewn ffordd briodol gyda set o amcanion sy'n anelu at gydlynw a phrif-ffrydio gweithgarwch cynhwysiant digidol.
- 11.3 Mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau partner a'r rhanddeiliaid yn deall y newidiadau a wnaed o ran dyluniad rhaglen CDC, ac yn cytuno â nhw.
- 11.4 Roedd y cynnig a gyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru i gyflawni CDC yn cynnwys pecyn priodol o weithgareddau, a oedd yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ym manyleb Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen. Roedd dull Canolfan Cydweithredol Cymru o fynd ati i sefydlu a gweithredu'r rhaglen yn cynnwys cymysgedd addas o bartneriaid (a oedd yn cyd-fynd yn dda â'r unigolion sydd yn y perygl mwyaf o gael eu heithrio'n ddigidol) a thîm cyflawni profiadol sydd â strwythur addas ac sy'n gyson â maint y gofyniad.
- 11.5 Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu sefydliadau partner 'newydd', ac wrth barhau â'r perthnasau a ddatblygwyd gyda sefydliadau o dan Gymunedau 2.0. Mae'r sefydliadau partner yr ymgysylltodd y rhaglen â nhw'n gweithio gyda'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu hallgau'n ddigidol, ac yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mae'r gwasanaeth wedi bod ar gael ledled Cymru hyd yn hyn ac, yn briodol ddigon, mae hi wedi targedu ardaloedd lle mae llai o dystiolaeth bod gweithgarwch cynhwysiant digidol ar gael. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion manyleb y rhaglen.
- 11.6 Mae'r grŵp o sefydliadau partner sydd wedi cael cefnogaeth y rhaglen hyd yn hyn yn cynnig cymysgedd o brofiad blaenorol sy'n ymwneud â gweithgarwch cynhwysiant digidol. Ar y cyfan, gwelwyd cynnydd nodedig mewn ymwybyddiaeth a chyflawniad o ran y gwahanol fathau o weithgarwch sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol, ac yn arbennig o fewn y sector tai cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn

dilysu'r penderfyniad strategol i arddel dull mwy anuniongyrchol a hyrwyddol o fynd ati i ddylunio a gweithredu CDC.

- 11.7 Mae bwriad Llywodraeth Prydain i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar raddfa eang wedi bod yn ffactor pwysig sydd wedi peri i amrywiaeth eang o sefydliadau partner ymgysylltu â CDC a chynnig cymorth sy'n ymwneud â thechnoleg ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau, a bydd yn parhau i fod yn ffactor pwysig yn hyn o beth.
- 11.8 Hyd yn hyn, yr hyfforddiant cynhwysiant digidol y mae CDC wedi ei gynnig yw elfen fwyaf gweladwy a phoblogaidd y pecyn cymorth y mae'r sefydliadau partner wedi manteisio arno. Mae'r adborth a gafwyd ar ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant wedi bod yn rhagorol, ac mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud 'o'r bron' gan y tîm cyflawni i asesu a deall amgylchiadau a gofynion penodol y sefydliadau partner wedi bod o gymorth wrth 'bennu cywair' priodol ar gyfer yr hyfforddiant. Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos hefyd bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar gaffael hyder a sgiliau trosglwyddadwy, a defnyddio technoleg i wireddu canlyniadau cadarnhaol, dim ots pa fath o feddalwedd neu galedwedd sydd o dan sylw. Mae hyn yn hollol gyson ag ethos Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar Gynhwysiant Digidol.
- 11.9 Mwy cymysg fu'r canlyniadau mewn perthynas â'r gwaith i ddatblygu strategaethau cynhwysiant digidol sefydliad-eang (a elwir yn Gynlluniau Gwella Ymgysylltiad â Chynhwysiant Digidol). Mae ymwybyddiaeth am y DIEIPs, a'u gwerth canfyddedig yn isel, hyd yn oed ymysg y sefydliadau partner lle mae cynllun yn bodoli. Amrywiol fu ansawdd a chysondeb y DIEIPs hefyd, ac mae yna le i wneud gwelliannau sylweddol yn y cyswllt hwn. Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru eisoes yn ymwybodol o'r mater, ac mae hyn wedi sbarduno gwelliannau allweddol i broses y DIEIPs.
- 11.10 Mae cyflwyniad y Siarter Cynhwysiant Digidol wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol, ac mae 150 o sefydliadau wedi llofnodi'r Siarter ers ei lansio yn Chwefror 2016. Dylid gweld hyn fel offeryn defnyddiol i gydategu'r DIEIPs, ac fel mecanwaith defnyddiol i ymgysylltu grŵp ehangach o randdeiliaid (gan gynnwys uwch reolwyr) o fewn y sefydliadau partner wrth edrych tua'r dyfodol.

- 11.11 Mae canlyniadau gwaith y rhaglen wrth gynorthwyo gwirfoddoli ym maes cynhwysiant digidol wedi esgor ar ganlyniadau cymysg hyd yn hyn hefyd. Trwy fonitro gwybodaeth a thystiolaeth gan sefydliadau partner gwelwyd 'colledion' sylweddol rhwng nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd a'r rhai a gafodd eu 'gosod' a'u defnyddio. Mae hi'n annhebygol iawn y bydd modd cyrraedd y targed ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr erbyn diwedd dwy flynedd y contract.
- 11.12 Wrth edrych tua'r dyfodol felly, rhaid sicrhau bod y ffocws ar ddiogelu lleoliadau i wirfoddolwyr yn hytrach na 'chronni' gwirfoddolwyr newydd. Lle mae'r elfen gwirfoddoli wedi gweithio (h.y. lle llwyddwyd i daro'r cydbwysedd iawn o ran recriwtio, hyfforddi a defnyddio gwirfoddolwyr), mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi gweithio'n dda a'i fod wedi arwain at amrywiaeth o ddeilliannau cadarnhaol, a bod y priodoliad i CDC wedi bod yn gymharol glir.
- 11.13 Hyd yn hyn, mae gwaith rhaglen mewn perthynas ag iechyd wedi cael croeso da, ac mae gan hyn y potensial i wneud cyfraniad positif at yr amcanion polisi a bennwyd yn Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru Llywodraeth Cymru.
- 11.14 Mae gwefan y Rhaglen yn llawn gwybodaeth, ac mae hi wedi cael ei dylunio'n dda. At hynny, mae yna dystiolaeth bod gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol CDC yn dylanwadu ar drafodaethau am gynhwysiant digidol.
- 11.15 Hyd yn hyn, mae perfformiad rhaglen CDC yn erbyn ei bedwar DPA wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae dau o'r DPA (sy'n ymwneud ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau) yn anuniongyrchol. Ychydig iawn o reolaeth sydd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru dros fonitro'r rhain, ac mae angen iddynt ddibynnu ar yr amcangyfrifon y mae'r sefydliadau partner yn eu darparu yn hyn o beth.
- 11.16 Rydyn ni'n fodlon bod systemau monitro ac archwilio priodol yn bodoli i ddilysu'r allbynnau yma gymaint ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Fodd bynnag, mae yna gwestiwn sylfaenol ynghylch gwerth ychwanegol y DPA o ystyried y graddau cyfyngedig y gellir disgwyl i unigolion neilltuo neu briodoli unrhyw effeithiau cadarnhaol i CDC ei hun, a hynny i raddau helaeth am y bydd y mwyafrif yn hollol anymwybodol o'r peth. Roedd y sialensiau a oedd yn ein hwynebu wrth gyrchu

defnyddwyr y gwasanaeth yn adlewyrchiad o hyn. Lle llwyddwyd i ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaethau, roedd eu hadborth ar y gweithgareddau cynhwysiant digidol yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn gadarnhaol.

- 11.17 Hyd yn hyn, mae yna dystiolaeth bod mymryn bach o danwariant yn erbyn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer CDC. Mae hyn yn bennaf oherwydd problemau staffio, ac am y cymeradwywyd llai o geisiadau na'r disgwyl o dan y gronfa llenwi bylchau. Mae'r ddau beth yma gyda'i gilydd wedi golygu llai o wariant na'r disgwyl. Yn achos y gronfa llenwi bylchau, nid yw hyn i'w gweld yn ddull effeithlon iawn o fynd ati o ystyried y symiau bychain a ddyfernir, a'r cymorth cymharol ddwys sydd ei angen (gan staff CDC) er mwyn rhoi cychwyn cadarn i fentrau peilot.
- 11.18 Ar y cyfan, mae'r costau fesul sefydliad a gynorthwywyd a gwirfoddolwyr a recriwtiwyd yn gyson â'r rhai a rhagwelwyd wrth roi cymeradwyaeth. Ar y sail hon, ein casgliad ni yw bod Canolfan Cydweithredol Cymru'n cyflawni'r rhaglen yn effeithlon.
- 11.19 Un o ddeilliannau allweddol y rhaglen hyd yn hyn yw'r gwelliant canfyddedig a welwyd o ran ymwybyddiaeth am gynhwysiant digidol a gwybodaeth y staff a'r gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi cydategu'r cynnydd ehangach mewn ymwybyddiaeth a'r ddarpariaeth o ran gweithgarwch cynhwysiant digidol trwy alluogi'r sefydliadau i gyflawni gwasanaethau gwell a mwy gwybodus. Priodolwyd y cynnydd mewn gwybodaeth i'r hyfforddiant CDC yn bennaf.
- 11.20 Mae rhaglen CDC wedi helpu i wella capasiti'r sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau cynhwysiant digidol allgymorth mwy hyblyg. Er bod priodoliad yn wannach ar y cyfan yn y cyd-destun yma, (o ystyried bod cynhwysiant digidol yn fater mwy blaenllaw ar gyfer llawer o sefydliadau ta beth, dim ots am waith CDC), mae elfen gwirfoddoli'r rhaglen wedi helpu i gynyddu capasiti lle llwyddwyd i osod y gwirfoddolwyr mewn lleoliadau.
- 11.21 Mae'r gwaith cydlynu y mae CDC yn ei gyflawni yn tynnu partneriaid priodol ynghyd, ac mae hyn yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol yn nhermau sefydlu partneriaethau cynhwysiant digidol lleol, a'u hadfywio mewn ambell i achos. Mae'r gwaith yma wedi arwain at drefniadau cydweithio cadarnach, a dulliau mwy cydlynol o fynd ati i fynd i'r afael â bylchau penodol yn y ddarpariaeth.

- 11.22 Mae gweithgareddau'r rhaglen wedi arwain at nifer o ddeilliannau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau, a rhai canolradd yw'r rhain yn bennaf. Mae'r rhain yn ymwneud â meithrin hyder a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, ac yn enwedig ar gyfer pobl hŷn. Fodd bynnag, nid ydyn yn argyhoeddedig ei bod yn briodol ystyried bod yr unigolion sydd wedi cael eu hymgysylltu a'u cynorthwyo gan y sefydliadau partner yn 'fuddiolwyr' y rhaglen CDC.
- 11.23 Mae Uned Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda fforymau a mentrau cynhwysiant digidol DU-eang i ledaenu dysg ac arferion da o raglen CDC, ac i helpu i fwydo meddylfryd ehangach o ran polisi. Rhannwyd y wybodaeth a gasglwyd trwy'r llwybrau hyn â Chanolfan Cydweithredol Cymru'n uniongyrchol a thrwy Fwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Cymru hefyd er mwyn cynorthwyo gweithrediad parhaus CDC.
- 11.24 Y tu hwnt i'w gwaith gyda'r amrywiaeth eang o sefydliadau partner a'u gweithgareddau cynhwysiant digidol, mae'r rhaglen wedi meithrin cysylltiadau hefyd â menter Cyflymu Cymru, ac yn fwyaf nodedig, y Bwrdd Cynhwysiant Digidol. Er bod hyn yn beth positif, mae yna gyfleoedd tymor byr i ategu'r cysylltiadau hyn ymhellach. Yn benodol, mae'n ddigon tebyg bod yna gwmpas i'r ddwy raglen gydweithredu'n fwy er mwyn cynorthwyo mentrau cymdeithasol a chyflawni gwaith 'sganio'r gorwel' ehangach i glustnodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar yr ymateb polisi cyffredinol i allgau digidol.
- 11.25 Gallai'r cyhoeddiad diweddar am y bwriad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben ddwyn goblygiadau o ran argaeledd gweithgarwch cynhwysiant digidol mewn rhai cymunedau difreintiedig. Bydd angen i hyn fod yn ystyriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru yn nhermau cydlynu a chynorthwyo gweithgarwch cynhwysiant digidol ar lefel leol, ac fel modd i ganfod unrhyw fylchau allweddol yn y ddarpariaeth cynhwysiant digidol a allai godi yn sgil unrhyw benderfyniad i ddileu Cymunedau yn Gyntaf.
- 11.26 Yn olaf, wrth edrych tua'r dyfodol, dadleuodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid a'r sefydliadau partner yr ymgynghorwyd â nhw yn rhan o'r gwerthusiad hwn o blaid parhau â'r ymyrraeth ac ymestyn rhaglen CDC. Roedd eu safbwyntiau'n seiliedig ar y darlun sy'n dechrau dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol, a data sy'n ymwneud â dieithrwch digidol yng Nghymru sy'n

dangos bod y mater yn parhau i gyfran fechan ond arwyddocaol o boblogaeth Cymru.

- 11.27 Dadleuodd y bobl hynny a oedd o blaid parhau â'r ymyrraeth y dylai elfen hyfforddiant CDC barhau, ond y dylid gwneud rhagor i godi ymwybyddiaeth am y cymorth arall sydd ar gael, gyda ffocws penodol ar sicrhau bod y rhaglen yn dwyn etifeddiaeth gynaliadwy o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynhwysiant digidol dros y degawd diwethaf.
- 11.28 Yn seiliedig ar y casgliadau hyn, pennwyd pump argymhelliad:

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar yr opsiwn i ymestyn y contract ar gyfer cyflawni CDC am ddwy flynedd arall hyd Fawrth 2019.

Argymhelliad 2

Dylai ffocws y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod estynedig (blynyddoedd tri a phedwar) fod yn gadarn ar greu etifeddiaeth gynaliadwy ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynhwysiant digidol dros y degawd diwethaf. Yn hynny o beth, dylai'r rhaglen barhau i gynnig hyfforddiant i staff y rheng flaen a gwirfoddolwyr wrth ddwysau'r ymdrechion i gynhyrchu adnoddau, cynnwys a deunyddiau hyfforddi a all gael eu rhyddhau i bawb ar-lein. Dylai Canolfan Cydweithredol Cymru ddwysáu ei hymdrechion hefyd i helpu i ddiogelu lleoliadau ar gyfer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd eisoes gyda'r sefydliadau partner. Mae hyn yn debygol o olygu mwy o weithgarwch ategol gyda sefydliadau sydd eisoes yn bartneriaid, ac ychydig bach yn llai o bwyslais ar recriwtio sefydliadau partner newydd Bydd angen i'r DPA ar gyfer cyfnod estynedig y prosiect adlewyrchu hyn.

Argymhelliad 3

Ym mlynnyddoedd tri a phedwar, dylai fod yna ffocws clir ar barhau i wella ansawdd a chysondeb y DIEIPs fel cynnyrch etifeddol y rhaglen CDC yn unol â'r bwriad gwreiddiol iddynt fod yn strategaethau sefydliad-eang. Mae angen i'r dogfennau hyn fod yn fwy strategol a chynhwysfawr eu natur, ac mae angen i'r 'trosglwyddiad' i sefydliadau partner fod yn fwy trylwyr, fel bod staff ar bob lefel yn ymwybodol beth y gallant ei wneud i brif-ffrydio a chynorthwyo cynhwysiant digidol, a sut y mae angen

iddynt fynd ati i wneud hynny. Dylai'r gwaith yma gydategu'r Siarter Cynhwysiant Digidol.

Argymhelliad 4

Dylai swyddogaeth CDC wrth gydlyn a datblygu partneriaethau barhau. Rhan ychwanegol o'r gwaith yma dros y ddwy flynedd nesaf fydd cynorthwyo partneriaid lleol i glustnodi ac asesu effeithiau unrhyw benderfyniad a weir yn y dyfodol i ddileu Cymunedau yn Gyntaf ar y darlun o ran cynhwysiant digidol. Ar lefel ehangach, dylai'r pwyslais for ar sicrhau bod partneriaethau lleol yn hunangynhaliol, a'u bod mewn sefyllfa i barhau â'u gwaith heb fod angen ymyrraeth barhaus. Dylid parhau i ddatblygu a chydlyn partneriaethau er mwyn ymchwilio ymhellach i fanteision technoleg yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod cyflawni estynedig.

Argymhelliad 5

Os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu dewis ein hargymhelliad cyntaf ac ymestyn CDC, dylid diwygio a chywreinio'r pecyn o DPA ar gyfer y rhaglen. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru:

- a) Ailystyried a yw'r DPA anuniongyrchol o ran 'unigolion a ymgysylltwyd', sy'n ymwneud â defnyddwyr y gwasanaeth, yn ystyrlon ac yn ychwanegu gwerth, ac a ellir cyfiawnhau'r gwaith monitro sy'n gysylltiedig â'r agwedd yma ar y rhaglen. Ein hargymhelliad ni yw y dylid rhoi'r gorau i'r rhain, ac y dylid asesu effaith bosibl yr hyfforddiant yn nhermau'r math o ddefnyddwyr gwasanaethau rheng flaen a allai elwa ar y peth o'r bron yn rhan o strategaethau cynhwysiant digidol sefydliad-eang cadarnach, a'u nifer
- b) Cywreinio'r DPA sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr er mwyn canolbwyntio'n fwy ar osod a defnyddio gwirfoddolwyr ym mlynnyddoedd tri a phedwar. Targed realistaidd, ond uchelgeisiol fyddai bod 50-60 y cant o'r gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio yn cael eu lleoli a'u defnyddio i gyflawni gweithgarwch cynhwysiant digidol
- c) Ystyried disodli'r DPA ar gyfer 'unigolion a ymgysylltwyd' â dangosyddion sy'n cyd-fynd yn well â ffocws etifeddol blynyddoedd tri a phedwar. Yn benodol, byddem yn argymhell cyflwyno dangosydd sy'n ymwneud â

sefydliadau partner yn mabwysiadu DIEIPs cynhwysfawr, a dangosydd sy'n ymwneud â phartneriaethau cynhwysiant digidol yn gweithredu ar sail gynaliadwy (h.y. a allai, ac a fyddai'n parhau heb gymorth allanol parhaus gan CDC)

d) Cadw'r DPA mewn perthynas â sefydliadau newydd a gynorthwywyd, ond pennu targed mwy cymedrol yn hyn o beth sy'n adlewyrchu'r angen am gynnig cyngor ychwanegol i sefydliadau sydd eisoes wedi eu hymgysylltu (e.e. o ran gosod gwirfoddolwyr a chyflawni gwaith ategol ar y camau a bennir yn y DIEIPs mwy manwl).

Cyfeiriadau

Adroddiad Marchnad Cyfathrebu Cymru 2016. Ofcom.

Cyflawni Cymru Ddigidol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2010

Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2016.

Manyleb Gwerthusiad Cymunedau Digidol Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2016

Cymunedau Digidol Cymru. Dogfen gais Canolfan Cydweithredol Cymru Ionawr 2015.

Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol - Diweddariad 2014 Dull strategol o sicrhau cynhwysiant digidol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2014

Cymru Ddigidol: Cynllun Cyflawni. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2011

Iechyd a Gofal: Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2015.

Darparu Cyngor a Chymorth ar Gynhwysiant Digidol. Gwahoddiad i Dendro (ITT). Rhif y Contract C140/2014/2015. Caerdydd Llywodraeth Cymru

Adroddiadau Chwarterol ar Gynnydd (Darparwyd Adroddiadau Chwarteri un i chwech i'w harchwilio) Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru

Bwletin Ystadegol SB 97/2015. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-2015. Defnydd o'r rhyngwyd a mynediad iddo. Ystadegau Cymru, 14 Hydref 2015.

Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2016.

Gwerthusiad o Gymunedau 2.0. Adroddiad y Gwerthusiad Terfynol - Diwygiedig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2015. Cyflawnwyd y gwerthusiad gan Old Bell 3 Ltd.

Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2016. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Almanac Cymdeithas Sifil y DU 2016. Cymhelliant a rhwystrau i wirfoddoli. NCVO

Defnydd o sianeli ar-lein y Credyd Cynhwysol. Data hyd Fehefin 2016. Yr Adran Gwaith a

Phensiynau.

Briff technegol Canolfan Cydweithredol Cymru ar y diffiniadau targed a'r gofynion o ran cyngor.

Atodiad A: Rhestr o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw

Enw

Andrew Jacobs
Angela Jones
Anthony Pritchard
Craig Hughes
Delyth Rees
Derek Walker
Hannah Farmer
Helen Matthews
Iain Tweedale
Iwan Williams
Jeff Jones
Karen Lewis
Kevin Roberts
Marc Davies
Michael Groves
Michelle Walker
Peter Lloyd Jones
Ronan Miles
Sangeet Bhullar
Selina Moyo
Simon Jones
Stephen Thomas
Steven Robinson
Terry Mills

Sefydliad

Llywodraeth Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Llywodraeth Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
BBC Cymru
Swyddfa Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Llywodraeth Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Llywodraeth Cymru
BT
Wise Kids
Cartrefi Cymunedol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Llywodraeth Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Prime Cymru

Atodiad B: Offer Ymchwil

Canllaw Trafodaeth Lled-Strwythuredig

I'w ddefnyddio gyda: Chysylltiadau allweddol a chydlynwyr fewn Sefydliadau Partner CDC

Rhaglen CDC Cefndir a Chynnwys

1. Yn gyntaf oll, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ychydig o gefndir am eich sefydliad.
2. Beth yw eich rôl arbennig gyda'r sefydliad?
3. Sut y bu i chi gymryd rhan yn Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru?
4. A pham wnaethoch chi gymryd rhan? Beth oedd yr angen / cymhelliant a beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni o weithio gyda'r Rhaglen?
5. Oeddech chi / eich sefydliad wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau digidol neu dechnoleg cysylltiedig neu Raglenni cefnogi yn y gorffennol (naill ai cyflwyno gweithgarwch neu fel derbynnydd cefnogi)? Os do, dywedwch wrthyf ychydig am hyn, a beth y buoch yn ein wneud.

Cymorth a Dderbyniwyd, Ansawdd a Perthnasedd

6. Dywedwch wrthyf am ba weithgareddau yr ydych wedi bod yn ymwneud â hwy mewn perthynas â Chymunedau Digidol Cymru?
7. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r cwestiwn uchod, os yw'r sefydliad yn darparu gweithgareddau cynhwysiant digidol i bobl yn eich cefnogi, gofynnwch: Pa fath o weithgareddau cynhwysiant digidol ydych chi'n cyflwyno, sut yr ydych yn mynd ati a pha mor aml?
8. Sut y caiff y gweithgareddau hyn eu hariannu?
9. Gan ystyried pob un o'r gweithgareddau mae'r sefydliad wedi bod yn ymwneud â nhw: Pa mor berthnasol fu gweithgareddau CDC i'ch sefydliad a'r bobl / grwpiau yr ydych yn gweithio â nhw/yn eu cefnogi?
10. A fu rhai o'r gweithgareddau yn fwy perthnasol nag eraill? Os felly, pa rai sydd wedi bod yn fwyaf perthnasol a pham?
11. Os yn briodol, beth ellid fod wedi'i wneud i wneud gweithgareddau yn fwy perthnasol i'ch sefydliad a'r gwaith y mae'n ei wneud?
12. Beth yw eich barn ar ansawdd y gwahanol weithgareddau CDC yr ydych wedi bod yn gysylltiedig â nhw?
13. Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n disgrifio ansawdd Canolfan Cydweithredol Cymru a'r ffordd y maent yn cyflwyno Rhaglen CDC? Pam ydych chi'n dweud hynny? Beth fydddech chi'n cyfeirio ato fel arfer da? Beth ydych chi'n meddwl y gellid eu gwella am y ffordd y mae'r Ganolfan yn cyflwyno'r Rhaglen?

Canlyniadau ac Effeithiau sy'n dod i'r amlwg

14. Pa wahaniaeth y mae'r Rhaglen CDC wedi ei wneud i'ch sefydliad?
15. A fu unrhyw fanteision annisgwyl i gyfranogiad eich sefydliad gyda'r Rhaglen CDC?
16. Ar gyfer sefydliadau sy'n cyflwyno gweithgareddau cynhwysiant digidol i bobl / grwpiau y maent yn cefnogi, gofynnwch: A ydych yn monitro faint o bobl sy'n defnyddio'r gweithgareddau hyn? Oes gennych chi unrhyw adborth (hunanwerthuso) ar sut mae'r gweithgareddau yn cael eu derbyn a pha wahaniaeth sy'n cael ei wneud?
17. Ar gyfer sefydliadau sy'n cyflwyno gweithgareddau cynhwysiant digidol i bobl / grwpiau y maent yn cefnogi, gofynnwch: Pa fanteision yn eich barn chi sydd i'r unigolion sy'n cymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau cynhwysiant digidol a gynigir gan eich sefydliad?

Priodoliad, Gwrth-ffeithiol a Dewisiadau Amgen

18. Gan feddwl am rai o'r manteision a'r canlyniadau yr oeddech yn sôn bod eich sefydliad wedi profi, i ba raddau y byddech yn dweud hyn yn ganlyniad uniongyrchol o'r gefnogaeth a gawsoch gan y Rhaglen CDC?
19. A allai rhai o'r canlyniadau hyn fod wedi digwydd heb y gefnogaeth a gawsoch gan y Rhaglen CDC? Os felly, pa rai a pham ydych chi'n dweud hynny?
20. A allech chi fod wedi cael y math o gefnogaeth a gawsoch gan y Rhaglen CDC yn rhywle arall? Os felly, pwy / beth allai fod wedi darparu cymorth tebyg i chi a pham wnaethoch chi ddewis eu defnyddio / peidio â'u defnyddio [fel y bo'n briodol]?

Pwyntiau Dysgu

21. O ystyried yr hyn yr ydym ni newydd eu trafod, sut y byddech yn crynhoi'r prif bwyntiau dysgu i ddod allan o'ch profiad o weithio gyda'r Rhaglen CDC hyd yn hyn?
22. Pa welliannau yn eich barn chi (os o gwbl) y gellid eu gwneud i'r Rhaglen CDC?

DIWEDD: Diolchwch i'r cyfwelai

CANLLAW PWNC AR GYFER TRAFODAETHAU ANFFURFIOL GYDA CHYFRANOGWYR MENTRAU CYNHWYSIANT DIGIDOL

1. Yn gyntaf oll, a gaf i ofyn eich oedran a ph'un a ydych yn gweithio, yn ddi-waith neu wedi ymddeol?

a. Beth yw eich swydd presennol / oedd eich swydd (os o gwbl)?

2. Ai heddiw yw'r tro cyntaf i chi ymwneud â [enw'r sefydliad partner gweithgaredd / cynhwysiant digidol], neu ydych chi wedi bod draw i sesiynau / gweithgareddau a drefnir ganddynt yn flaenorol? Os ydych chi wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiynau cynhwysiant digidol o'r blaen, beth oedden nhw, a faint o sesiynau ydych chi wedi mynychu?

3. Pa fath o sesiynau / gweithgareddau ydych chi wedi bod yn gysylltiedig â nhw?

a. HOLWCH: cyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol; mynediad i'r rhyngwrwyd; ffotograffiaeth ddigidol ac ati

4. Sut gawsoch chi wybod gyntaf am [weithgaredd cynhwysiant digidol a gynigir gan sefydliad partner]?

5. Cyn cymryd rhan yn y gweithgaredd, faint o wybodaeth / profiad o gyfrifiaduron / TG gawsoch chi?

Holwch o gwmpas y mathau o weithgareddau sy'n ymwneud â thechnoleg yr oedden nhw'n gallu/methu gwneud cyn cymryd rhan (e.e. defnyddio e-bost, y rhyngwrwyd, siopa ar-lein, cyfryngau cymdeithasol ac ati ...)

a. Beth oeddech chi eisiau dysgu neu gael gwybod amdano cyn mynychu?

6. Pa mor hawdd fu hi i chi ddeall yr hyn a ddywedwyd wrthych?

a. Pa mor dda fu'r staff gyda chi heddiw ac ar unrhyw sesiynau blaenorol?

b. Ydych chi'n meddwl eich bod wedi meistroli hyn yr ydych chi wedi bod yn ceisio dysgu?

c. Os nad ydych chi'n meddwl y byddwch yn gallu gwneud hynny?

d. Os na, pam hynny?

7. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'r hyn [enw'r weithgaredd cynhwysiant digidol / sefydliad partner] sy'n cael ei gynnig i chi?

a. Ym mha ffordd (os o gwbl) gellid ei wella?

8. A yw'r sesiynau rydych chi wedi eu gwneud wedi newid eich barn o gyfrifiaduron / TGCh a'r hyn y gallant ei wneud i chi? Holwch ynghylch e.e.

a. perthnasedd

b. pa mor hawdd yw hi i ddefnyddio

c. eich hyder

9. Pa mor debygol yw hi y byddwch yn gallu defnyddio'r wybodaeth neu sgiliau rydych chi wedi dysgu drwy [enw'r weithgareddau sefydliadau / partner] yn y dyfodol?

a. Beth allai eich rhwystro rhag gwneud hynny?

b. Ydy'r sgiliau rydych wedi eu dysgu yn gysylltiedig ag un math o ddyfais neu feddalwedd - neu a fydd y sgiliau yr un mor berthnasol i wahanol fathau o dechnoleg?

10. Pa mor debygol yw hi y byddwch am fynd ymlaen i ryw fath o ddysgu pellach am dechnoleg / TGCh?

11. [Os yn berthnasol a theilwra priodol] Ydych chi'n meddwl fod yr hyn rydych wedi ei ddysgu o [weithgareddau sefydliadau / partner] yn debygol o wneud unrhyw wahaniaeth i'ch cyflogaeth neu rhagolygon gyrfa?

a. Os ydych, esboniwch pam yn eich barn chi.

12. Pa wahaniaeth eraill a allai ymwneud â [gweithgaredd cynhwysiad / sefydliad partner digidol] wneud yn y tymor hwy? Holwch ynghylch e.e.

a. Mynediad i nwyddau a gwasanaethau rhatach ar-lein

b. Gostyngiad yn yr angen i deithio

c. Lleihad mewn unigedd / unigrwydd neu gynydd mewn lles.

13. Ydych chi'n meddwl eich bod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r rhyngwrwyd i gael mynediad neu dalu am wasanaethau cyhoeddus (e.e. Canolfan Byd Gwaith, Cyllid a Thollau EM, mynediad i NHS Direct, talu treth gyngor) yn y dyfodol?

14. Os na fydddech wedi cymryd rhan gyda [enw'r weithgarwch cynhwysiant digidol / sefydliad partner], ydych chi'n meddwl y bydddech wedi ennill y wybodaeth / sgiliau / hyder mewn rhyw ffordd arall?

GWERTHUSIAD O CYMUNEDAU DIGIDOL CYMRU

Canllaw Trafodaeth Lled-Strwythuredig

I'w ddefnyddio gyda: Rhanddeiliaid Allweddol

(Swyddogion Llywodraeth Cymru, staff Canolfan Cydweithredol Cymru, Aelodau'r Bwrdd Cynhwysiad Digidol)

Dylunio a Sail Rhesymegol Rhaglen CDC

1. [Os yw'n briodol] Yn gyntaf oll, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ychydig o gefndir ynghylch eich rôl chi a'ch cysylltiad â'r Rhaglen CDC.
2. Beth, yn ôl a ddeallwch, yw nodau ac amcanion y Rhaglen CDC?
3. Pa mor briodol yw'r nodau a'r amcanion hyn? A ydynt y rhai cywir? Os nad ydynt yn arbennig o briodol, pam yr ydych yn dweud hynny?
4. I ba raddau y mae'r Rhaglen CDC yn cysylltu gyda ac yn helpu cyflawni blaenoriaethau'r DU a Llywodraeth Cymru? Pa flaenoriaethau yn arbennig ydy e'n cyfrannu atynt / eu cyflawni?

Gweithredu CDC hyd yma

5. Pa mor briodol yn eich barn chi oedd y fanyleb ar gyfer darparu'r Rhaglen CDC? I ba raddau y fanyleb ar gyfer CDC yn gysylltiedig â ac yn eu llywio gan y nodau ac amcanion cyffredinol?
6. I ba raddau y model darparu Canolfan Cydweithredol Cymru yn cyflawni'r fanyleb ar gyfer y Rhaglen? Beth yw cryfderau'r cynigion? A oes unrhyw fylchau neu wendidau yn null y Ganolfan?
7. Gan droi at y gefnogaeth a ddarperir gan y Ganolfan Cydweithredol Cymru drwy'r sefydliadau partner y mae'n gweithio â hwy - pa mor briodol yw hyn a pha dystiolaeth sydd yna bod y gweithgareddau yn cael eu cyflawni [neu ddechrau cyrraedd] nodau ac amcanion y Rhaglen?
8. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Rhaglen CDC yn cael ei ddarparu yn ôl ei gwmpas gwreiddiol?
9. A oes unrhyw fylchau penodol hyd yn hyn o ran cwmpas y Rhaglen CDC?
10. I ba raddau y mae'r model o weithio drwy sefydliadau partner (yn hytrach na mabwysiadu dull mwy uniongyrchol fel gyda rhaglenni cynhwysiant digidol blaenorol) yn helpu neu'n llesteirio ymgysylltiad ardaloedd penodol neu grwpiau targed? Pam ydych chi'n dweud hynny?
11. I ba raddau y mae'r Rhaglen yn galluogi ac annog sefydliadau i weithio mewn partneriaeth gydag eraill i gyflawni cynhwysiant digidol? Allwch chi bwyntio at unrhyw enghreifftiau o arfer da yn y cyswllt hwn?
12. Rhan allweddol o'r model cyflenwi yw ymgysylltu â gwirfoddolwyr i helpu darparu cyngor a chefnogaeth cynhwysiant digidol. I ba raddau y mae hyn yn cael ei gyflawni? A oes arfer da? A oes unrhyw feysydd o bryder neu bwyntiau dysgu allweddol sy'n ymwneud â gwirfoddoli?

13. Pa cysylltiadau a wnaed rhwng y polisïau cynhwysiant digidol ledled y DU a'r Rhaglen? Pa mor effeithiol fu'r cysylltiadau hyn?

14. Hyd yn hyn, sut y mae'r sector preifat wedi cymryd rhan? Sut (os o gwbl) y mae hyn yn wahanol i'r cynllun gwreiddiol i gynnwys y sector preifat yn y Rhaglen CDC?

15. Pa mor effeithiol y rheolwyd y Rhaglen CDC hyd yn hyn? Holwch am farn ar reoli Llywodraeth Cymru a rheoli gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Beth fu'r cryfderau? Pa feysydd(os o gwbl) sydd angen gwella arnynt o ran rheoli prosiect?

16. Pa mor effeithiol fydddech chi'n dweud yw'r prosesau monitro ac adrodd ar gyfer CDC?

Perfformiad hyd yma

17. Pa mor dda, yn eich barn chi, y mae'r Rhaglen CDC wedi perfformio mewn perthynas â'i DPA hyd yn hyn? Archwiliwch y rhesymau dros berfformiad cymharol yn erbyn y targedau DPA.

18. Pa mor berthnasol yw'r DPA i'r gweithgaredd sy'n cael ei gyflwyno mewn gwirionedd gan CDC?

19. Ar gyfer swyddogion LIC a WCC: A yw'r Rhaglen CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth yw'r rhesymau dros unrhyw dan neu dros wario?

20. Beth yw eich barn ar ansawdd a pherthnasedd y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Ganolfan Cydweithredol Cymru hyd yn hyn fel rhan o'r Rhaglen CDC?

21. Pa dystiolaeth sydd yno hyd yma (h.y. ar wahân i'r gwerthusiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd) bod y gweithgareddau a'r gwasanaethau yn cael eu derbyn yn dda gan sefydliadau partner a defnyddwyr / buddiolwyr?

22. Pa dystiolaeth sydd yna (eto heblaw am y gwerthusiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd) am ansawdd y gweithgareddau cynhwysiant digidol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau partner DCW o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y Rhaglen?

Canlyniadau ac Effeithiau sy'n dechrau ymddangos

23. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y dull o weithredu CDC yn helpu i ymgorffori cynhwysiant digidol o fewn sefydliadau a gefnogir?

24. Yn eich barn chi, yw'r Rhaglen CDC wedi cryfhau capasiti a gallu sefydliadau partner i ddarparu mwy o weithgarwch cynhwysiant digidol? Pa arferion da sydd yna yn y cyswllt hwn? Pa, os unrhyw, rwystrau sy'n bodoli i gyflawni'r canlyniad hwn?

25. Pa mor debygol yw hi y bydd y canlyniadau sefydliadol hyn yn cael eu cynnal? O bosibl y tu hwnt i gyfnod y Rhaglen CDC?

26. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Rhaglen CDC, drwy'r dull anuniongyrchol sy'n cael ei gymryd yn arwain at fuddiolwyr unigol yn ennill sgiliau digidol?

27. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y sgiliau sy'n cael eu hennill gan fuddiolwyr yn drosglwyddadwy a thechnoleg niwtral? (h.y. nid yn ddibynnol ar unrhyw un math penodol o feddalwedd neu galedwedd)?

Priodoliad a'r Gwrth-ffeithiol

28. Rydym wedi trafod eich barn am y canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o'r Rhaglen CDC. I ba raddau ydych chi'n meddwl y gall y canlyniadau hyn yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â gwaith CDC?

29. Pa ffactorau allanol sy'n bodoli allai ei gwneud yn fwy heriol i gysylltu'r canlyniadau (megis gwell llythrennedd digidol) yn uniongyrchol i waith y Rhaglen CDC?

30. I ba raddau ydych chi'n meddwl y byddai rhai o'r canlyniadau cadarnhaol yr ydych wedi eu nodi wedi digwydd beth bynnag - ni waeth am y Rhaglen CDC? Holwch y cwestiwn hwn ar lefel sefydliad partner a lefel buddiolwr.

Pwyntiau Dysgu

31. O ystyried yr hyn yr ydym ni newydd ei drafod, sut y byddech yn crynhoi'r prif bwyntiau dysgu a ddaeth i'r amlwg o'r Rhaglen CDC hyd yn hyn?

32. A oes unrhyw newidiadau neu welliannau sydd angen eu gwneud i gyflawni CDC yn y tymor byr? Os felly, beth yw'r rhain a sut y dylid eu dwyn ymlaen?

33. A oes unrhyw bwyntiau dysgu tymor hwy sydd angen eu hystyried o safbwynt dylunio polisi a rhaglen?

DIWEDD: Diolchwch i'r cyfwelai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Ymchwil OB3 i ymgymryd a gwerthusiad o raglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC) sy'n cael ei darparu gan Ganolfan Gydweithredol Cymru.

Fel rhan o'r gwerthusiad yma hoffwn gael adborth oddiwrth unigolion sydd wedi mynychu amryw o gyrsiau hyfforddi CDC. Cafodd eich manylion cyswllt eu darparu inni gan Ganolfan Gydweithredol Cymru. Buaswn yn ddiolchgar iawn petai modd ichi gwblhau'r arolwg byr yma - ni ddylai gymryd mwy na 5 munud o'ch amser. Fe gedwir eich sylwadau'n gwbl gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu priodoli ichi neu i'ch sefydliad. Bydd eich ymatebion yn cael eu cadw'n ddiogel fel bod modd ichi dychwelyd ar unrhyw adeg heb golli gwybodaeth.

Mae cwmni ymchwil OB3 yn gwmni ymchwil a gwerthuso annibynnol. Cwblheir ein holl waith yn ôl Cod Ymddygiad Ilym y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Os ydych am wirio ein hygyrddedd, mae croeso i chi gysylltu â Semele Mylona yn Llywodraeth Cymru ar Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk. Fel arall, mae croeso i chi ein ffonio ar 01558 822922 i gael mwy o wybodaeth am yr ymchwil yr ydym yn ei gwblhau.

A ydych yn dymuno parhau yn y Gymraeg neu'r Saesneg?

Do you want to continue in Welsh or English?

- ☐ Saesneg / English
- ☐ Cymraeg / Welsh

I barhau gyda'r arolwg cliciwch ar y botwm [Nesaf] islaw. Bydd modd ichi symud o un sgrîn i'r llall drwy ddewis y botymau [Nesaf] a [Nôl]. Ar ddiwedd yr arolwg cliciwch ar y botwm [Submit].

B1.

Pa un o'r cyrsiau hyfforddi Cymunedau Digidol Cymru canlynol yr ydych wedi mynychu?

Noder y byddai pob cwrs, oni nodir yn wahanol, wedi bod yn un awr o hyd ac o bosib wedi eu darparu dros gyfnod o ddiwrnod. Gellir cael rhagor o fanylion am y modiwlau yma: digitalcommunities.gov.wales/training/

[Dewiswch pob opsiwn perthnasol]

- | | |
|--|--|
| ☐ Hyrwyddwr Digidol (cwrs 2 ddiwrnod) | ☐ Apiau a theclynnau Google |
| ☐ Cefnogi pobl i fynd ar-lein (cwrs 1 diwrnod) | ☐ Creu cyfeiriadau e-bost |
| ☐ Cyflwyniad i gefnogi pobl i fynd ar-lein (cwrs 0.5 diwrnod) | ☐ Datblygu rhwydweithiau Hyrwyddwyr Digidol |
| ☐ Cyflwyniad i wasanaethau e-lywodraeth (cwrs 1.5 awr) | ☐ Deall 'Universal Jobmatch' |
| ☐ Cyflwyniad i gyfryngau cymdeithasol | ☐ Arbed arian - cyngor a theclynnau |
| ☐ Cyfryngau cymdeithasol ac apiau chwilio am swyddi | ☐ Cyfranogiad ar y we |
| ☐ Defnyddio'r we ac apiau i gefnogi lles a iechyd | ☐ Ddim yn cofio / Ansicr |
| ☐ E-hygrychedd - cyngor a theclynnau | ☐ Arall |

Nodwch os gwelwch yn dda pa hyfforddiant arall ichi ei dderbyn:

B2. [Yn ddibynol ar ymateb i B1]

Pa mor berthnasol oedd y cwrs/cyrsiau Cymunedau Digidol Cymru canlynol ichi a'ch gwaith:

	<i>Perthnas ol iawn</i>	<i>Weddol perthnas ol</i>	<i>Ddim yn hynod o berthnas ol</i>	<i>Ddim yn berthnas ol o gwbl</i>
Hyrwyddwr Digidol	☐	☐	☐	☐
Cefnogi pobl i fynd ar-lein	☐	☐	☐	☐
Cyflwyniad i gefnogi pobl i fynd ar-lein	☐	☐	☐	☐
Cyflwyniad i wasanaethau e- lywodraeth	☐	☐	☐	☐
Cyflwyniad i gyfryngau cymdeithasol	☐	☐	☐	☐
Cyfryngau cymdeithasol ac apiau chwilio am swyddi	☐	☐	☐	☐
Defnyddio'r we ac apiau i gefnogi lles a iechyd	☐	☐	☐	☐
E-hygyrchedd - cyngor a theclynnau	☐	☐	☐	☐
Apiau a theclynnau Google	☐	☐	☐	☐
Creu cyfeiriadau e- bost	☐	☐	☐	☐
Datblygu rhwydweithiau Hyrwyddwyr Digidol	☐	☐	☐	☐
Deall 'Universal Jobmatch'	☐	☐	☐	☐
Arbed arian - cyngor a theclynnau	☐	☐	☐	☐
Cyfranogiad ar y we	☐	☐	☐	☐
Arall	☐	☐	☐	☐

B3. [Yn ddibynol ar ymateb i B1]

Pa more ddefnyddiol oedd y cwrs/cyrsiau Cymunedau Digidol Cumru canlynol ichi a'ch gwaith:

	<i>Defnyddi ol iawn</i>	<i>Weddol ddefnydd iol</i>	<i>Ddim yn hynod o ddefnydd iol</i>	<i>Ddim yn ddefnydd iol o gwbl</i>
Hyrwyddwr Digidol	☐	☐	☐	☐
Cefnogi pobl i fynd ar-lein	☐	☐	☐	☐
Cyflwyniad i gefnogi pobl i fynd ar-lein	☐	☐	☐	☐
Cyflwyniad i wasanaethau e-lywodraeth	☐	☐	☐	☐
Cyflwyniad i gyfryngau cymdeithasol	☐	☐	☐	☐
Cyfryngau cymdeithasol ac apiau chwilio am swyddi	☐	☐	☐	☐
Defnyddio'r we ac apiau i gefnogi lles a iechyd	☐	☐	☐	☐
E-hygyrchedd - cyngor a theclynnau	☐	☐	☐	☐
Apiau a theclynnau Google	☐	☐	☐	☐
Creu cyfeiriadau e-bost	☐	☐	☐	☐
Datblygu rhwydweithiau Hyrwyddwyr Digidol	☐	☐	☐	☐
Deall 'Universal Jobmatch'	☐	☐	☐	☐
Arbed arian - cyngor a theclynnau	☐	☐	☐	☐
Cyfranogiad ar y we	☐	☐	☐	☐
Arall	☐	☐	☐	☐

B4. [OS B1=15]

Pa mor berthnasol oedd y cwrs/cyrsiau Cymunedau Digidol Cymru ichi a'ch gwaith?

- ☐ Perthnasol iawn
- ☐ Weddol berthnasol
- ☐ Ddim yn hynod o berthnasol
- ☐ Ddim yn berthnasol o gwbl

B5. [OS B1=15]

Pa mor ddefnyddiol oedd y cwrs/cyrsiau Cymunedau Digidol Cymru ichi a'ch gwaith?

- ☐ Defnyddiol iawn
- ☐ Weddol ddefnyddiol
- ☐ Ddim yn hynod o ddefnyddiol
- ☐ Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

B6. A wnaethoch chi ddysgu neu ennill unrhyw un o'r canlyniadau isod o ganlyniad i hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru?

	<i>Do</i>	<i>Naddo</i>	<i>Ddim yn gwybod</i>
Sut i adnabod ac asesu os yw rhywun wedi ei hallgau yn ddigidol	☐	☐	☐
Sut i ymgysylltu a unigolion sydd wedi eu hallgau yn ddigidol	☐	☐	☐
Gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n rhaid i bobl sydd wedi eu hallgau yn ddigidol eu gorchfygu	☐	☐	☐
Sut i gefnogi rhywun i fynd ar-lein yn well	☐	☐	☐

Sut i gyfathrebu'n well fy nealltwriaeth fy hun o dechnoleg i eraill	☐	☐	☐
Sut i ddefnyddio iaith addas wrth gefnogi pobl i ymgysylltu a thechnoleg	☐	☐	☐
Sut i gyfeirio pobl at gefnogaeth cynhwysiant digidol yn well	☐	☐	☐
Dod yn fwy hyderus i ddelio gyda materion cynhwysiant digidol fy hun	☐	☐	☐
Sut i ddelio gyda apiau neu gwefannau penodol	☐	☐	☐
Sut i sefydlu rhwydwaith Hyrwyddwyr Digidol o fewn, neu tu allan, fy sefydliad	☐	☐	☐
Unrhyw ganlyniadau eraill	☐	☐	☐

Nodwch, so gwelwch yn dda, natur y canlyniadau eraill yma:

B7. I ba raddau yr ydych wedi medru cymhwyso a defnyddio'r wybodaeth a gawsoch yn yr hyfforddiant?

- ☐ I raddau helaeth
- ☐ I ryw raddau
- ☐ I ddim graddau penodol
- ☐ I ddim graddau o gwbl

B8. [OS B7=3,4]

Pam nad ydych wedi medru defnyddio'r wybodaeth a gawsoch yn yr hyfforddiant?

B9. Nodwch os gwelwch yn dda os ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol.

O ganlyniad i'r wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r cwrs/cyrsiau Cymunedau Digidol Cymru:

	<i>Cytuno</i>	<i>Anghytuno</i>	<i>Ddim yn gwybod</i>
Yr wyf yn adnabod ac yn asesu os yw rhywun wedi ei allgau yn ddigidol	☐	☐	☐
Yr wyf yn ymgysylltu'n fwy gyda unigolion sydd wedi eu hallgau yn ddigidol	☐	☐	☐
Rwy'n trafod y rhwystrau y mae pobl sydd wedi eu hallgau yn ddigidol yn gorfod eu trechu	☐	☐	☐
Yr wyf wedi cefnogi rhwyun i fynd ar-lein	☐	☐	☐
Yr wyf yn cyfathrebu fy ngwybodaeth i o dechnoleg i eraill yn fwy effeithiol nag o'r blaen	☐	☐	☐
Yr wyf yn defnyddio iaith mwy briodol wrth gefnogi pobl i ymgysylltu a thechnoleg	☐	☐	☐

Yr wyf wedi cyfeirio pobl tuag at ragor o gefnogaeth cynhwysiant digidol	☐	☐	☐
Yr wyf yn fwy hyderus yn fy ngwybodaeth fy hun i fedru cefnogi cynhwysiant digidol	☐	☐	☐
Yr wyf wedi dangos i rywun sut mae defnyddio ap neu wefan ar-lein penodol	☐	☐	☐
Yr wyf wedi sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Digidol naill ai o fewn neu tu allan fy sefydliad	☐	☐	☐
Yr wyf wedi profi canlyniadau eraill	☐	☐	☐

Nodwch natur y canlyniadau eraill yma os gwelwch yn dda:

B10. Beth, os o gwbl, fyddai'n eich gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar y cwrs/cyrsiau Cymunedau Digidol Cymru?

B11. Pa hyfforddiant neu gefnogaeth cynhwysiant digidol pellach, os o gwbl, allech chi elwa ohono dros y ddwy i dair blynedd nesaf?

Diolch am lenwi'r arolwg yma.

Cliciwch ar y botwm [Anfon/Submit] islaw i anfon eich ymatebion atom